

Diwylliant o ansawdd.

Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn edrych ar yr heriau sydd o'n blaenau ac yn rhannu persbectifau'r bobl sydd wedi arwain ei waith ac wedi bod agosaf at ei waith. Casglwyd y persbectifau dros gyfnod o 20 mlynedd o hyrwyddo dylunio o ansawdd yng Nghymru rhwng 2002 a 2022.




Diwylliant o ansawdd.

Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn edrych ar yr heriau sydd o'n blaenau ac yn rhannu persbectifau'r bobl sydd wedi arwain ei waith ac wedi bod agosaf at ei waith. Casglwyd y persbectifau dros gyfnod o 20 mlynedd o hyrwyddo dylunio o ansawdd yng Nghymru rhwng 2002 a 2022.



Cynnwys



1

Creu'r amodau ar gyfer Llwyddiant

- i. Diwylliant o ansawdd ym mhopeth a wnawn
Carole-Anne Davies
- ii. Amodau ar gyfer llwyddiant
Ewan Jones
- iii. Beth mae diwylliant o ansawdd yn ei olygu i ddyfodol ein lleoedd bob dydd?
Jen Heal
- iv. Capasiti, parhad ac ansawdd
Wendy Maden
- v. Beth yw Dylunio Da (a Drwg)?
Craig Sheach

3

Gweledigaeth, gwerth a darparu ar gyfer y dyfodol

- i. Dinas mewn tirwedd
Stephen Smith
- ii. Diwylliant, cymuned, gallu – trawsnewidiad o fewn cyrraedd
David Anderson
- iii. Asesu'r anniriaethol: heriau cyfochrog wrth werthuso diwylliant a natur
David Clubb
- iv. Wynebu'r dyfodol: ymchwil ac addysgu yn Ysgol Pensaerniaeth Cymru
Yr Athro Juliet P. Davis
- v. Rhaid i ddylunio da fod yn rhan o'n hachubiaeth
Geraint Talfan Davies

Rhagair:

Julie James AS,
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

Cyflwyniad:

Gayna Jones, Cadeirydd,
Comisiwn Dylunio Cymru

2

Lle, diwylliant a hunaniaeth

- i. Gadael Gwales: Mynd i'r afael â dyfodol treftadaeth Cymru mewn hinsawdd sy'n newid
Efa Lois Thomas
- ii. Mae cynhwysiant yn hanfodol ar gyfer treftadaeth fyw
Stephen Anderson
- iii. Cadernid cartrefi i wrthsefyll yr hinsawdd – carbon, cyfforddusrwydd a chymuned
Lynne Sullivan
- iv. Lleoedd hudolus
Yr Athro Wayne Forster

Cydnabyddiaethau

Rhagair


Julie James AS

Gweinidog Newid Hinsawdd

Mae rhagoriaeth dylunio a chreu lleoedd cadarn eisoes wrth wraidd Dyfodol Cymru, ein Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Pholisi Cynllunio Cymru. Rydym yn gwybod bod penderfyniadau strategol cynnar yn chwarae rhan allweddol a'i bod yn hanfodol i ni gydweithio i fanteisio ar gyfleoedd yn gynnar mewn cynllunio strategol cenedlaethol a rhanbarthol. Mae Cymru wedi arwain y ffordd o ran rhoi egwyddorion o'r fath ar flaen ein ffordd o feddwl. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi ymgorffori mewn deddfwriaeth yr angen i feddwl a gweithredu mewn ffordd gydweithredol ac integredig. Rhaid i ni barhau i gryfhau a datblygu ymarfer cydweithredol gyda phwrpas cyffredin ac i gydnabod a pharchu gwerth cymuned ddylunio amlddisgyblaethol sy'n gallu darparu rhagoriaeth yn ein bob dydd yn well. Rwy'n gwybod pa mor angerddol yw'r tîm yng Nghomisiwn Dylunio Cymru am hyn ac am lunio lleoedd sy'n darparu ar gyfer anghenion pobl Cymru y gallant eu trysori ac ymfalchïo ynddynt.

Mae ansawdd ein cartrefi a'n cymdogaethau, pa mor hawdd y gallwn ddewis cerdded, beicio a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus i gyrraedd y gwaith, cael mynediad at wasanaethau a mwynhau hamdden, i gyd yn cael eu galluogi neu eu rhwystro oherwydd pa mor dda yr ydym yn mynd i'r afael â'r heriau sy'n bresennol wrth greu ac adfywio ein pentrefi, ein trefi a'n dinasoedd. Nawr mae'r heriau hyn yn cynnwys bygythiadau argyfyngau hinsawdd a natur. Rhaid i ni weithio'n galetach i ddod o hyd i atebion creadigol i sut a ble rydym yn byw a sut rydym yn lleihau ein gofynion ar adnoddau cyfyngedig. Os ydym am gyflawni ein nod o ddatgarboneiddio a chefnogi lles ein cymunedau mae'n rhaid i ni fod yn ddatrysyr problemau gwell. Mae gan ddylunwyr a dylunio ran fawr i'w chwarae yn hyn o beth ac ni allwn wneud hynny hebddynt.

Mae'r llyfr hwn yn cynnwys safbwyntiau gan yr ymarferwyr a'r gweithwyr proffesiynol arbenigol sydd wedi gweld â'u llygaid eu hunain natur cyfle – a rhwystredigaeth - yn yr amgylchedd adeiledig a'r grymoedd sy'n dylanwadu arnynt. Mae'r cyfranwyr yma yn ymarferwyr proffesiynol amlsector – llawer yn rhoi o'u hamser a'u harbenigedd heb wobriannol – a dynnwyd ynghyd gan y Comisiwn Dylunio i helpu i hyrwyddo ymdeimlad o gyfrifoldeb ar y cyd a newid strwythurol cadarnhaol, er mwyn sicrhau ein bod yn llunio amgylcheddau gwell ac o ansawdd uchel. Maent yn rhannu eu safbwyntiau



o flynyddoedd lawer o ymarfer yn y byd go iawn yn ogystal â'u dysgu o arsylwi ar y tueddiadau mewn buddsoddi, dylunio, cynllunio a datblygu y mae'n rhaid eu newid yn ogystal â'r rhai y mae'n rhaid eu cefnogi a'u prif ffrydio. Maent yn angerddol am godi ymwybyddiaeth, ysgogi trafodaeth a chynyddu dealltwriaeth am bwysigrwydd ansawdd ac arloesedd yn y ffordd rydym yn siapio'r byd yr ydym yn byw ynddo. Ac rwy'n rhannu'r angerdd hwnnw.

Mae gan y llyfr hwn rai negeseuon clir a heriol am yr angen am newid, mwy o sgiliau, adnoddau a mwy o gydweithio — a thrwy wella am gynnwys ein cymunedau. Mae hefyd yn rhannu arbenigedd ac optimistaeth heintus, barhaus, gan daflu goleuni ar y gronfa dalent enfawr sydd ar gael i ni a'r ffyrdd y gallwn arfogi dylunwyr, cynllunwyr a datblygwyr y dyfodol. Gallwn fynd ar drywydd a chyflawni ansawdd; gallwn arwain arferion arloesol cyfrifol a gallwn sicrhau'r newid cadarnhaol. Mae gennym yr offer polisi a deddfwriaethol a'r ewyllys wleidyddol enfawr. Ni ddylem fod yn frawychus a rhaid inni wthio drwy'r rhwystrau.

Ganwyd y Comisiwn Dylunio yn nhymor cyntaf llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru. Mae ei waith a'i ymrwymiad wedi galluogi cydweithio agos a pholisi arloesol ac aeddfed sydd bellach yn sail i'n pwrpas cyffredin — i lunio Cymru sydd, yn syml, yn lle gwell.

Cyflwyniad

Gayna Jones

Cadeirydd, Comisiwn Dylunio Cymru

Eleni mae Comisiwn Dylunio Cymru yn dathlu ugain mlynedd o hyrwyddo dylunio er mwyn gwneud Cymru yn lle gwell. Nid edrych yn ôl y byddwn ni. Ond edrych ymlaen at y ddau ddegawd nesaf, sef cyfnod tyngedfennol pan fydd modd mynd i'r afael â materion natur a hinsawdd, ac anghenion pobl. Dim ond os byddwn yn gwneud pethau'n wahanol iawn ac yn ymrwymo i ansawdd ym mhopeth a wnawn y bydd hyn yn digwydd.

Ers sefydlu'r Comisiwn Dylunio yn 2002, mae wedi cofnodi, dadansoddi, cyhoeddi, ac ail-fuddsoddi'r hyn a ddysgodd o'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau cenedlaethol cyntaf erioed yng Nghymru, a ddaeth yn rhan greiddiol o'n gwaith. Yn ein canfyddiadau, rydym yn cyfeirio at gyfres o faterion dylunio tyngedfennol y bu'n rhaid i'r broses adolygu fynd i'r afael â nhw dro ar ôl tro. Roedd y materion hyn yn wastad yn codi rhwystrau rhag ymarfer gwell o ran yr amgylchedd adeiledig, gan herio'r gwaith o gyflawni cylch gwaith ac amcanion y Comisiwn – fel y nodwyd gan Lywodraeth Cymru ac a adlewyrchir mewn polisi a deddfwriaeth. Mae'r rhan fwyaf yn dechnegol a gellid eu goresgyn gyda'r sgiliau, y gefnogaeth, y cydweithio a'r arweinyddiaeth briodol – ar yr amod fod y diwylliant priodol yn bodoli. Her ddiwylliannol, yn hytrach nag un dechnegol, yw mynd i'r afael ag ansawdd a hyrwyddo rhagoriaeth mewn dylunio.

Drwy ddysgu o'n Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau cenedlaethol – casglu'r darnau jig-so i greu'r darlun mawr – mae'r Comisiwn, yn ystod y ddau ddegawd diwethaf, wedi datblygu a gweithredu i sbarduno newid cadarnhaol. Cafodd hyn ei seilio ar realiti dylanwadau cyllid datblygu, caffael, bylchau mewn hyfforddiant a sgiliau, heriau'n ymwneud â throi polisi yn ymarfer, a hyder cleientiaid.

Mae ein Cefnogaeth bwrpasol i Gleientiaid yn arwain cleientiaid comisiynu drwy'r camau briffio, caffael, strategaeth, uwchgynllunio, ac i'r broses gyflawni. Mae ein Hyfforddiant wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer pob cleient, sector a rhanbarth yng Nghymru, gan ymateb i anghenion ac amgylchiadau penodol. Mae ein Seminarau a'n Cyhoeddiadau yn edrych ar faterion pwysig ein cyfnod – trefoli, newid yn yr hinsawdd, tirwedd, cartrefi, pobl a lleoedd. Mae ein canllawiau arferion gorau a'n cyfraniadau at bolisi ac ymarfer cynllunio, dylunio a chreu lleoedd cenedlaethol, yn cefnogi adnoddau deddfwriaethol a pholisi uchelgeisiol Cymru. Tynnodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sylw at y rhain yn ei hadroddiad cychwynnol cynhwysfawr.

Mae ein rhwydweithiau a'n partneriaethau – gan gynnwys Partneriaeth Creu Lleoedd Cymru sy'n bartneriaeth amlsector – yn cynnwys pobl eraill yn y gwaith o ysgwyddo'r cydgyfrifoldeb sydd gan bob un ohonom i sicrhau cenedl o ansawdd gwell ac sy'n fwy cadarn yn amgylcheddol. Maent

yn ein helpu i eiriol dros werth dylunio da – gwerth yr economi ddylunio; y gwerth cymdeithasol ac amgylcheddol, a'r manteision cyhoeddus hirdymor sydd i lleoedd da.

Roedd pandemig Coronafeirws Covid-19 wedi tynnu sylw at fethiannau yn ein hamgylchedd adeiledig ac at bwysigrwydd dylunio da; cartrefi da, hyblyg; amgylcheddau addysg a gofal iechyd sy'n cael golau dydd a'u hawyru'n naturiol, a mannau cyhoeddus cynhwysol o ansawdd uchel. Ni allwn fynd yn ôl at arferion dylunio, datblygu ac adnewyddu sy'n arwain at olwg ddi-raen, y safonau isaf posibl, a chyfaddawd costus ac annerbyniol.

Ar sail yr hyn rydym wedi'i arsylwi, wedi'i ddysgu ac wedi dylanwadu arno mewn 20 mlynedd o ymarfer ym maes amgylchedd adeiledig yng Nghymru, byddwn yn awr yn clywed gan aelodau o'n tîm sydd agosaf at ein gweithgarwch o ddydd i ddydd a chan 'deulu' ehangach y Comisiwn Dylunio wrth iddynt rannu eu safbwyntiau a mynegi eu barn a'u syniadau am gamau gweithredu hollbwysig, o ystyried yr hyn sydd o'u blaenau. Yn awr, byddwn yn canolbwyntio nid ar yr elfennau technegol ond ar yr elfennau diwylliannol yn benodol, a byddwn yn gofyn beth sydd ei angen i ddatblygu *diwylliant* o

ansawdd lle gall Cymru ffynnu.

Mae wedi bod yn bleser mawr bod yn Gadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr Comisiwn Dylunio Cymru ers 2016, i gael parhau â gwaith fy rhagflaenydd Alan Francis a'r cadeirydd cyntaf, yr Athro Richard Parnaby, ac i weithio gyda Chomisiynwyr, staff a'r tîm o weithwyr proffesiynol ymroddgar ym meysydd dylunio, datblygu ac adeiladu rhyngddisgyblaethol sy'n rhoi eu hamser a'u harbenigedd yn wirfoddol i gefnogi ein gwasanaethau ledled y wlad. Rydym yn parhau i werthfawrogi gweithio'n agos â Gweinidogion a swyddogion ar draws portffolios, a chyda chydweithwyr niferus sy'n rhannu ein gweledigaeth a'n hangerdd dros sicrhau Cymru sy'n lle gwell.

O'm profiad i gyda'r Comisiwn Dylunio, rwy'n gwybod bod yn rhaid i ymrwymiad i ansawdd a phwysigrwydd dylunio gael ei gyfleu'n glir a'i sbarduno. Mae'n bryd camu i'r adwy. Mae'r adnoddau o ran deddfwriaeth a pholisi gennym ers ugain mlynedd yng Nghymru, ac maent wedi cael eu defnyddio i fynegi uchelgais fawr yn glir. Bellach, mae taer angen yr arweinyddiaeth, y gallu a'r diwylliant yn ymarferol, ar draws sectorau, sy'n rhoi sylw i ragoriaeth, bob dydd.



Creu'r amodau ar gyfer Llwyddiant

Persbectifau—

10
**Diwylliant o ansawdd ym
mhopeth a wnawn**
Carole-Anne Davies

14
Amodau ar gyfer llwyddiant
Ewan Jones

18
**Beth mae diwylliant o ansawdd yn ei
olygu i ddyfodol ein lleoedd bob dydd?**
Jen Heal

22
**Capasiti, parhad
ac ansawdd**
Wendy Maden

26
Beth yw Dylunio Da (a Drwg)?
Craig Sheach



Diwylliant o ansawdd ym mhopeth a wnawn



Carole-Anne Davies

Prif Weithredwr, Comisiwn Dylunio Cymru

Mae'r amgylchedd adeiledig yn cynnal pob cysylltiad rhwng pobl. P'un a ydym yn dal trên, yn mynd i'r ysgol neu'r brifysgol, yn defnyddio gwasanaethau gofal iechyd, yn byw mewn cartrefi cyfforddus neu'n mwynhau mannau gwyrdd, dŵr yfed diogel ac aer glân – rydym yn dibynnu ar ein hamgylchedd sydd wedi'i adeiladu, ei greu a'i siapio, i'n cefnogi yn ein ffordd o fyw. Dylunwyr o ryw fath neu'i gilydd yw cyfran fawr o'r bobl sy'n siapio'r amgylchedd hwnnw.

Gwyddom eisoes o'r arsylwadau a'r ymriadau dros yr 20 mlynedd diwethaf, fod llawer o rwystrau i well arferion datblygu ac adfywio, a bod modd creu amgylchedd o ansawdd uchel, yn dechnegol ac yn gyffredinol. Yr her fwyaf yw creu'r diwylliant lle gall y rhwystrau technegol hyn oroesi a hyd yn oed ffynnu. O ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio, yr argyfyngau hinsawdd a natur, echdynnu a disbyddu adnoddau materol, ac iechyd a lles ein cymdeithasau – rhaid newid yr arferion ym mhob agwedd ar yr amgylchedd adeiledig.

Yn y gyfres o bersbectifau hyn, mae rhwystrau a chyfleoedd yn cael eu hystyried eto - wrth feddwl am yr amodau sy'n angenrheidiol ar gyfer llwyddiant; mewn galwadau am droi treftadaeth yn gatalydd ar gyfer gweithredu cadarnhaol tuag at amgylchedd wedi'i ddatgarboneiddio ac fel sbardun i hybu newid cynhwysol. Rhaid ailddatgan pwysigrwydd cael gweledigaeth glir, cydlynu amcanion cyffredin, a'r ffordd orau o gynnwys a galluogi ein cymunedau, a rhoi adnoddau i'r bobl greadigol hanfodol a fydd yn datrys problemau yn y dyfodol. Ein hargyfyngau hinsawdd a natur, yr argyfwng ynni, y gwrthdaro a'r llwybr tyngedfennol anesmwyth y mae'n rhaid i ni ei ddilyn yn awr, yw'r hyn y byddant yn ei etifeddu, ac mae'n rhaid iddynt gael yr holl adnoddau i arwain newid dwys a pharhaol. Mae'n swnio'n frawychus, oherwydd ei fod yn frawychus.

Ni allwn barhau i siarad a gweithredu fel pe bai'r argyfyngau hyn yn bodoli yn y dyfodol. Mae yna elfen frys 'yn y presennol', sy'n gofyn am newid difrifol – ar fyrder.

Rydym wedi gwybod ers blynnyddoedd fod prosesau ac arferion amgylchedd adeiledig yn gyfrifol yn uniongyrchol am oddeutu 25% o ôl troed carbon y DU. Mae hyn yn codi i 42% os ydym yn cynnwys trafniadaeth arwyneb (UKGBC, 2022); mae gwaith

adeiladu, dymchwel a chloddio yn cynhyrchu dros 60% o gyfanswm gwastraff y DU (Llywodraeth y DU, 2022). Mae echdynnu deunyddiau a mwynau yn disbyddu mwy fyth o adnoddau y mae pen draw iddynt, ac mae'n newid amodau amgylcheddol yn sylweddol – llwybrau afonydd, sefydlogrwydd tirffurfiau, ansawdd yr aer rydym yn ei anadlu. O ystyried maint yr effaith hon, rhaid i raddfa a chyflymder y newid fynd ymhell y tu hwnt i unrhyw beth rydym yn ei wneud ar hyn o bryd, ac mae'n rhaid iddynt gyflymu.

Ar wahân i'r gost o ran carbon a'r hinsawdd, mae ffigurau brawychus eraill ar gael sy'n peri pryder ac a ddylai symbylu newid cyflym. Gellid dadlau bod y 'Get It Right Initiative' (GIRI) wedi cynnal yr ymchwil mwyaf cynhwysfawr a thrylwyr yn y diwydiant dros yr ugain mlynedd diwethaf, ac wedi tynnu sylw at beth sy'n achosi camgymeriadau adeiladu y gellir eu hosgoi, a beth yw costau'r rheini. Gan ddefnyddio eu hastudiaethau eu hunain a rhai rhyngwladol, darganfu GIRI fod y 'costau uniongyrchol a fesurwyd am gamgymeriadau y gellir eu hosgoi yn 5% o werth prosiectau, sy'n cyfateb i oddeutu £5 biliwn y flwyddyn ar draws y sector adeiladu yn y DU – sy'n uwch na'r lefelau elw cyfartalog ar draws y diwydiant. *Pan fydd costau anuniongyrchol a heb eu mesur yn cael eu cynnwys, mae'r sefyllfa'n gwaethygu'n sylweddol, ac mae amcangyfrifon o gyfanswm y costau'n amrywio rhwng 10% a 25% o gost y prosiect neu rhwng £10-25 biliwn y flwyddyn ar draws y sector.* Yn y camau dylunio y mae saith o'r deg uchaf – sef saith deg y cant – o'r rhesymau gwirioneddol dros gamgymeriadau y gellir eu hosgoi a nodwyd yn yr ymchwil. Yn eu plith mae ffactor hollbwysig – diwylliant gwael o ran ansawdd.

Mae'n werth ystyried un set arall o rifau.

Yn ddiweddar, gan gydweithio ar draws y DU, aeth y Design Council, Comisiwn Dylunio Cymru, Architecture & Design Scotland, Grŵp Cyngori Gweinidogol Gogledd Iwerddon, RSA a llawer mwy - ati i ymchwilio a chyhoeddi *Design Economy: People, Places and Economic Value*² sy'n nodi gwerth yr economi ddylunio i'r DU. Mae'r adroddiad yn datgelu bod twf yr economi dylunio ddwywaith yn fwy na chyfartaledd y DU, gan gyfrannu £974bn mewn Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) i economi'r DU, gyda Chymru yn gweld cynnydd o 18% mewn Gwerth Ychwanegol Gros, i £2 biliwn. Mae'r data

hefyd yn datgelu diwydiant sylweddol a medrus, sy'n cyflogi 1.97 miliwn o bobl – un o bob ugain o weithwyr – yn y DU yn 2020, gan gynnwys pensaerniaeth, dylunio cynnyrch, ffasiwn, dylunio digidol, crefft a graffeg ynghyd â'r rheini sy'n gweithio mewn swyddi dylunio gwasanaethau mewn sectorau eraill, fel y GIG a gwasanaethau ariannol. Yn 2019, roedd y sector dylunio yn gyfrifol am fwy na £70bn mewn allforion, gan gynnwys gwaith a gomisiynwyd ar gyfer prosiectau tramor o'r DU.

Mae'r adroddiad yn nodi, ochr yn ochr ag arloesi digidol, ac wrth wynebu argyfyngau hinsawdd a natur, fod maint yr hyn y mae angen i'r DU ei ddylunio – a'i ail-ddylunio – er mwyn cyflawni targedau sero-net erbyn 2050, yn aruthrol. Er mwyn cyflawni nodau o'r fath, rhaid rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn addysg dylunio, gyrfaedd a gweithlu medrus. Mae'n dangos y gwerth y mae dylunwyr yn ei gynnig mewn sawl ffordd – siapio gwasanaethau a mannau cyhoeddus, creu cartrefi a chymdogaethau o ansawdd da, a chwarae swyddogaethau hollbwysig mewn sawl disgyblaeth, gan sicrhau bod ein hamgylchedd adeiledig a'n seilwaith trafniadaeth yn ei gyfanrwydd, yn gallu sicrhau ansawdd a manteision ehangach i'r cyhoedd.

Mae'n ymddangos, o'r tair ffynhonnell hyn, fod parhau i fod yn ddiymadferth o safbwynt cyfraniad ansawdd ein hamgylchedd adeiledig wrth fynd i'r afael â materion pwysig carbon a'r hinsawdd, ynghyd â'n bod yn amlwg yn gysurus â cholled ariannol enfawr y gellid ei hosgoi, yn ogystal â diffyg buddsoddiad mewn sector sy'n economaidd bwysig (sy'n hanfodol i ni os ydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu) yn cynyddu'r risg mewn cyd-destun sydd eisoes yn beryglus. Sut y daethom i fod yn y sefyllfa hon, a beth allwn ni ei wneud yn ei gylch? Mae'n amlwg y bydd angen i mi sôn rywfaint o hyn mewn cofiant mwy manwl (sy'n siŵr o werthu'n dda), ond am y tro dyma gynnig ychydig o sylwadau.

Mewn ugain mlynedd, wrth fynd ar drywydd y posibilrwydd o gael newid cadarnhaol, mae rhywun yn gweld, yn clywed ac yn dysgu llawer iawn. Y fraint fawr sydd wedi dod i'r rhan, yn ffodus, yw fy mod wedi gweld arbenigedd rhyfeddol. Rwyf wedi'i weld ar waith, wedi sylweddoli ei bwysigrwydd, wedi gwyllo'n fanwl llawer o ymyriadau, ac wedi gwrando'n astud ar filoedd o sgysiau rhyfeddol rhwng cydweithwyr sy'n meddu ar sgiliau, deallusrwydd, arbenigedd a chreadigrwydd enfawr.


Yng Nghymru, rwyf wedi gweld newid cadarnhaol mewn rhai awdurdodau lleol a chleientiaid yn y sector cyhoeddus, mewn rhai rhannau o'r sector preifat, ac yn sicr ym maes tai cyhoeddus. Mae adeiladau a phrosiectau cyfalaf

unigol yn y sectorau diwylliannol yn aml yn dda, rhai yn ardderchog ac wedi ennill gwobrau proffesiynol a diwydiannol. Mae anheddau pwrpasol gyda chyllidebau cadarn, cleientiaid da a dylunwyr rhagorol yn ffynnu, ac mae rhai wedi cyrraedd, drwy wobrau RIBA, at restr fer Gwobr Stirling, Tŷ'r Flwyddyn, a Gwobrau Manser. Mae llawer o brosiectau o'r fath yn darparu cartrefi unigryw yn ogystal â gwneud cyfraniadau eithriadol at eu lleoliadau sensitif yn y dirwedd ac ar yr arfordir.

Mae rhagoriaeth yn amlwg ac yn haeddiannol yn yr hyn sy'n bwrpasol, yn unigryw, ac yn arbennig. Yn y pethau bob dydd yr ydym yn dal i wynebu'r her fwyaf o ran ansawdd, ac yn y pethau bob dydd y mae'r Comisiwn Dylunio yn awyddus i sicrhau newid cadarnhaol a rhagoriaeth fel mater o drefn, ac yn ymdrechu fwyaf i sicrhau hyn. Yn anffodus, yn y maes pwysicaf hwn yr wyf wedi gweld creadigrwydd a rhagoriaeth mewn dylunio yn cael eu rhwystro a'u hatal yn aml. Rwyf wedi gweld arbenigedd yn cael ei ddiystyru'n ddiseremoni, ar adegau trwy ddiffyg sgiliau, cymhwysedd neu brofiad; trwy ofn a diffyg cefnogaeth ac adnoddau, er cyfleustra ac, yn syml, gan y ffordd reddfodol y mae pethau'n cael eu gwneud. Ac rwyf wedi ei weld yn cael ei ddarostwng gan ddinodedd niweidiol. Mae pob un o'r elfennau uchod yn cyfuno i amddifadu uchelgais o'r adnoddau y mae eu hangen arni i ffynnu, ac i feithrin diwylliant sy'n osgoi rhagoriaeth.

Mae llawer o ddatblygiadau bob dydd yng Nghymru, ar ryw ffurf, wedi cael eu galluogi, eu caffael a/neu eu hariannu'n gyfan gwbl, neu'n rhannol i raddau helaeth, gan y sector cyhoeddus – cartrefi fforddiadwy, seilwaith ffyrdd, trafniadaeth gyhoeddus, gofal iechyd, addysg. Mae modelau buddsoddi'r sector cyhoeddus yn dylanwadu'n uniongyrchol ar hyn, ynghyd â strwythurau caffael, dyrannu grantiau, ac ysgogiadau ariannol. Mae rhannau mawr o'r diwydiant adeiladu tai yn parhau i fod yn nwylo'r sector preifat sy'n gorfod ymateb fwyfwy i ofynion cynllunio a deddfwriaethol cynhwysfawr Cymru.

Daeth Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn sgil sgwrs genedlaethol gadarn am addasrwydd i'r diben ac am arferion a diwylliant y system gynllunio yng Nghymru. Roedd y gwaith hwnnw wedi nodi system gynllunio sylfaenol gadarn ynghyd ag angen clir am



ddatblygu sgiliau ac adnoddau ochr yn ochr â newid diwylliannol hanfodol. Roedd y gwaith ers 2015, ac eithrio'r darlun rhanbarthol sy'n dal i ddatblygu, yn rhoi fframwaith polisi a gweledigaeth genedlaethol gyfredol, integredig a chynhwysfawr i Gymru yng nghyd-destun Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040³, sy'n nodi'r weledigaeth a'r cyfeiriad cenedlaethol ar gyfer datblygiad yng Nghymru i 2040.

Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC 11, diweddarwyd Chwef 2021)⁴ yn cael ei 'arwain gan leoedd' ac mae'n ailadrodd pwrpas cynllunio, sef 'Mae'r system gynllunio yn rheoli'r gwaith o ddatblygu a defnyddio tir er budd y cyhoedd, gan roi blaenoriaeth i fudd hirdymor i bawb, a chyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Rhaid iddi gysoni anghenion datblygu a chadwraeth, sicrhau bod y defnydd o dir yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn ddymunol, sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, a diogelu, hyrwyddo, gwarchod a gwella'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol.' Mae Polisi Cynllunio Cymru 11 hefyd yn integreiddio ymrwymadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru gyda dull sy'n seiliedig ar leoedd, sy'n pwysleisio amcanion llesiant, strategaethau gofodol cadarn, a chreu lleoedd cynaliadwy. Mae'r integreiddio hwn yn un o brif gryfderau polisi cenedlaethol, ac mae'n unigryw i Gymru.

Mae Cymru wedi mynegi ei uchelgais a'i hymrwymiad i ansawdd amgylcheddol yn eglur yn ei holl bolisiau a deddfwriaeth – yn wir, mae wedi bod ar flaen y gad o ran gwneud hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y dasg o gyflawni, ac mae wedi dweud yn ddigon clir ei bod wedi ymrwymo i ailadeiladu ar ôl y pandemig. Mae Adeiladu Lleuedd Gwell 2020 yn dwyn sylw at y 'polisiau cynllunio presennol allweddol a'r adnoddau y dylai pob sector eu defnyddio yn adferiad amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru. Mae'n nodi'n glir y blaenoriaethau a'r camau gweithredu ar gyfer lleoedd, er mwyn aros yn lleol ac adeiladu cymdogaethau⁵.

Gyda'r gyfres ragorol hon o bolisiau a deddfwriaeth, efallai y byddai'n rhesymol disgwyl gwelliant yn ansawdd ein lleoedd bob dydd, ac mae rhywfaint o newid yn amlwg. Ond does dim digon – hyd yma. Mae'r hyn sy'n digwydd bob dydd yn perthyn i ni – i'r cyhoedd – ar ryw ffurf yn syth bin neu yn y dyfodol. Dylai'r manteision fod yn weladwy er lles y cyhoedd, o ran galluogi gwell ansawdd bywyd a lles; dylent fod yn amlwg yn amgylcheddol gadarn a chyfrifol. Er mwyn sicrhau'r amodau hyn, rhaid i ni gael pobl fedrus a diwylliannau sefydliadol sy'n eu darparu. Ni allwn barhau pan nad oes digon o adnoddau, hyfforddiant na buddsoddiad yn y sector

cyhoeddus – pan fo gwell sgiliau ac adnoddau i'w cael gan y sector preifat, y dibynnir yn drwm arno yn aml ar gyfer partneriaeth. Mae cefnogaeth ar gyfer capasiti, cymhwysedd a hyder yn nodweddion hanfodol, a rhaid i ni ganfod a buddsoddi yn y nodweddion hyn yn y corff cleientiaid mawr hwn.


I gael yr amgylchedd adeiledig o ansawdd y mae ar Gymru ei eisiau, ei angen ac mae'n ei haeddu, ac i gyflawni ein uchelgais a'r hyn sy'n angenrheidiol yn amgylcheddol, mae'n rhaid i ni fynd ati'n gyflym i ddatblygu diwylliant sy'n ymrwymo i ansawdd; sy'n ennyn parch proffesiynol ymhlith disgyblaethau cynllunio, dylunio ac adeiladu; sy'n gwobrwyo arbenigedd a gwaith dylunio sy'n datrys problemau go iawn, mewn ffordd ddyfeisgar, a chydweithio diffuant ac effeithiol tuag at amcanion cyffredin sydd wedi'u diffinio'n dda. Mae modd datrys heriau technegol i raddau helaeth – mae technoleg ym maes dylunio, ynni, adeiladu a datblygu yn cyflymu'n sydyn, ac mae'n rhaid i ninnau fynd yr un mor gyflym er mwyn ei defnyddio'n effeithiol. Nid tasg ar gyfer y dyfodol yw hon – mae'r dyfodol yma'n awr.

Ar gyfer y flwyddyn hon o ddathlu ugain mlynedd, er fy mod yn benderfynol o edrych ymlaen, rwy'n cyfaddef fy mod wedi edrych yn yr archif dienw o gyfraniadau gan bobl sydd wedi cymryd rhan yn ein hyfforddiant a'n seminarau, sy'n gwneud gorchwylion o'r fath mor ysbrydoledig, cyfoethog a gwerth chweil. Mae dau sylw yn dod i'r cof. Mewn llawysgrifen ar ddarn o bapur blêr i ymateb i'r cwestiwn 'Beth ydych chi ei eisiau o'ch amgylchedd adeiledig?' roedd y geiriau 'Dwi am weld y palmentydd yn goleuo yn union fel yn y fideo Billie Jean'. Mae hyn, wrth gwrs, wedi cael ei wneud mewn gwahanol ffyrdd mewn dinasoedd, mewn parciau ac ar lwybrau beicio ledled y byd. Mater technegol yw hyn, ac mae modd ei gyflawni drwy ymyriad eithaf syml.

Mae'r sylw arall yn tynnu sylw at obaith cwbl wahanol mewn ymateb i gwestiwn 'Beth allwn ni ei wneud?' a gododd yn ein cynhadledd Lleuedd Byw. Roedd yn sefyll allan, yn anad dim, oherwydd y llawysgrifen mewn pin ffelt coch ar nodyn 'post-it' pinc llachar. Roedd yn anodd ei fethu. Ac oherwydd bod ei neges yn syml dros ben, 'Datblygu diwylliant o ansawdd ym mhopeth a wnawn'.

1 <https://getitright.uk.com/reports/strategy-for-change>
 2 https://www.designcouncil.org.uk/fileadmin/uploads/dc/Documents/DC_DE_Eco_Value_Exec_Sum_digital.pdf
 3 <https://llyw.cymru/cymru-r-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040>
 4 <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-11.pdf>
 5 <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-07/building-better-places-the-planning-system-delivering-resilient-and-brighter-futures.pdf>

Amodau ar gyfer llwyddiant



Ewan Jones BSc(Anrh) BArch(Anrh) RIBA

Partner, Penseiri Grimshaw PAC

Comisiynydd, Comisiwn Dylunio Cymru 2011 – 2020

Cyd-gadeirydd, Panel Adolygu Dylunio Comisiwn Dylunio Cymru 2008 – cyfredol

Mewn gwlad fel Cymru, lle mae buddsoddi cyhoeddus, ar ryw ffurf neu'i gilydd, yn sail i'r rhan fwyaf o ddatblygiadau arwyddocaol, mae polisi cyhoeddus, sgiliau a capasiti yn pennu'r amodau sy'n galluogi neu'n atal llwyddiant.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ddull arloesol deddfwriaethol o bwys yng Nghymru ac mae'n cydnabod dylanwad hirdymor y broses gwneud penderfyniadau, yr hyn sydd angen ei wneud o ran yr hinsawdd, a'r angen am eiriolaeth amlwg.

Mewn dull arloesol arall sy'n unigryw i Gymru, mae'r Ddeddf wedi'i blethu i mewn i bolisi cenedlaethol. Yn benodol, mae wedi cryfhau'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar leoedd, sy'n cael ei adlewyrchu erbyn hyn ym *Mholisi Cynllunio Cymru*, ac mae wedi llywio *Cymru'r Dyfodol*, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Gellid dadlau nad oes cyfres fwy cydlynol o ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio yn bodoli yn y DU. Ond mae'r mater ymarferol o adeiladu amgylchedd Cymru yn parhau i gael ei lesteirio gan hwylustod byrdymor, ac angen brys i brysuero er mwyn cyflawni gydag ansawdd uchel.

Dylai'r disgwyliadau am ansawdd uchel fod ym mhopeth a wneir, nid dim ond wedi'u cyfyngu i ambell brosiect arbennig, ac mae Comisiwn Dylunio Cymru yn mynd ati'n briodol i hyrwyddo pwysigrwydd sylfaenol lleoedd, yn hytrach nag adeiladau unigol. Mae gan eiconau a thirnodau ran i'w chwarae, ond mae lleoedd cyffredin bob dydd yn chwarae rhan fwy arwyddocaol mewn mwy o fywydau, a dylent fod yn well – yn llawer gwell.

Mae cymharu gwobrau Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru (RSAW)¹ a RIAS² rhwng 2016 a 2021 yn dangos canlyniadau siomedig i Gymru. Yn yr Alban, roedd 2.2 o ddyluniadau wedi ennill gwobrau am bob miliwn o'r boblogaeth bob blwyddyn: Ychydig dros hanner hyn, sef 1.2, oedd yng Nghymru. Yn arwyddocaol, roedd gwobrau Cymru hefyd wedi cael eu rhoi i amrediad llawer mwy cul o brosiectau. Ni chafwyd dim gwobrau am seilwaith, diwydiant, tai (ac eithrio cartrefi unigryw), swyddfeydd nac ysgolion, sef y lleoedd bob dydd yr ydym yn treulio ein hamser ynddynt. Yn yr Alban, rhoddwyd gwobr am dai rhagorol i fyfyrwr hyd yn oed.


Gellir dod o hyd i enghreifftiau o'r problemau a wynebwyd yn archif a chyhoeddiadau Comisiwn Dylunio Cymru, sy'n cofnodi 20 mlynedd gyntaf

ei wasanaeth adolygu dyluniadau. Ond daw un yn arbennig i'r cof – canolfan iechyd cymunedol newydd i'w lleoli ar gyrion tref yn y cymoedd, hawdd ei chyrraedd ond mewn car yn unig. Cafodd y prosiect ei leoli yno yn hytrach nag ynghanol y dref, yn agos at fwy o gartrefi a llwybr bws, dim ond am fod Llywodraeth Cymru yn berchen ar y safle'n barod.

Nid yw'n anodd gweld y camgymeriad yn y penderfyniad hwnnw, na chael rhywfaint o gydymdeimlad am geisio gwneud y defnydd gorau o asedau yr oedd wedi'u hetfeddu. Fodd bynnag, mae'r enghraifft hon yn dangos un o'r prif amodau ar gyfer llwyddiant: gwneud y dewisiadau strategol cynnar cywir a deall effeithiau eang y dewisiadau hynny. Ni waeth faint o uchelgais na pholisi arloesol sydd, ni fyddant yn gallu gwneud yn iawn am benderfyniadau gwael megis dewis y safle anghywir. Mae dewis lleoliad a safle ymysg yr ystyriaethau strategol cynnar pwysicaf sy'n dylanwadu ar ganlyniadau da neu ddrwg. Maent yn benderfyniadau dylunio sylfaenol a hollbwysig. Os yw deddfwriaeth a pholisi'n nodi disgwyliadau'n glir, rhaid i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau perthnasol feddu ar ddigon o sgiliau ac adnoddau i gyflawni yn erbyn y disgwyliadau hynny.

Ochr yn ochr â gwneud penderfyniadau strategol, mae geiriad manwl y polisi yn dylanwadu ar ddylunio'r amgylchedd adeiledig. Bydd unrhyw un sydd wedi bod drwy broses apêl cynllunio yn cydnabod bod yr arolygwyr cynllunio yn craffu'n fanwl ar y testun mewn polisiau cynllunio. Yn ôl Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol Lloegr (NPPF) (Gorffennaf 2021): "Dylid gwrthod datblygiad nad yw wedi'i gynllunio'n dda".³ Mae Polisi Cynllunio Cymru (Chwefror 2021) yn llai eglur: mae'n ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau datblygu "hyrwyddo" dylunio da a bod yn "ddigon cadarn i wrthod cynigion datblygu o ansawdd gwael." Mae hyn yn debyg i **hen** bolisi Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol Lloegr: "*Dylid gwrthod caniatâd i ddatblygiad sydd wedi'i ddylunio'n wael.*"⁴ Mae'r Athro Matthew Carmona o UCL yn asesu'r newid mewn polisi yn Lloegr ac yn tynnu sylw at y newid hollbwysig: yn Lloegr "*y prawf erbyn hyn yw sicrhau dylunio da ac nid dim ond osgoi dylunio gwael.*"⁵

Rhaid i'r darlun mawr o gyd-destun polisi fod yn effeithiol o ran atal penderfyniadau gwael cynnar am leoliad a safle a chynnig eglurder ar yr ansawdd dylunio gofynnol mewn ceisiadau



am ganiatâd cynllunio. Mae'n rhaid i swyddogion a gwleidyddion fod yn fwy pendant dros wrthod ceisiadau cynllunio sydd wedi eu dylunio'n wael. Rhwng y ddau hyn, ceir trydydd gofyniad hanfodol – sef y capasiti a lefel y sgil i adnabod, asesu a chefnogi disgwyliadau o ran ansawdd dylunio ym mhob cynnig. Os yw'r sector cyhoeddus yn gleient, ac yn gwneud penderfyniadau hefyd, rhaid i bolisi ac ymarfer wneud gwahaniaeth allweddol – gofyn am ansawdd, penodi timau dylunio creadigol a galluog, a chodi'r safon ar bob cyfle.

I ddarparu polisi cadarn a chlir; asesu penderfyniadau cynnar yn briodol; a meddu ar sgiliau a digon o argyhoeddiad wrth reoli datblygiadau, mae'n amlwg fod uchelgais ac ymwybyddiaeth hollbwysig o ansawdd, ar draws sbectrwm yr amgylchedd adeiledig, yn gynhwysion allweddol i sicrhau llwyddiant yn y dyfodol.

Wrth edrych ymlaen 20 mlynedd o nawr, byddwn yn agos at 2050, sef dedlein y DU ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr sero-net.⁶ Wrth i'r cyflenwad pŵer ddatgarboneiddio'n gyflym, mae'r ffocws eisoes yn symud oddi wrth ynni gweithredol (a charbon) tuag at y carbon y mae gwaith adeiladu yn ei ymgorffori yn ein hadeiladau, ein seilwaith, a'n tirwedd. Yn 2021, am y tro cyntaf, cyfeiriodd arolygydd cynllunio at *"lefel uchel o ynni wedi'i ymgorffori a chylch oes gyfan anghynaliadwy"* fel rheswm dros wrthod cais tŵr gwyllo'r "Tulip" yn Ninas Llundain.⁷

Mae hyn yn newid y cydbwysedd rhwng adeiladu o'r newydd ac aildefnyddio, ac erbyn hyn mae'n elfen hanfodol arall yn yr ymgyrch i sicrhau ansawdd. Mae cynnydd mewn aildefnyddio adeiladau presennol a'u haddasu yn gofyn am wahanol sgiliau a chreadigrwydd gan gleientiaid, dylunwyr, ac adeiladwyr. Bydd hefyd yn gofyn am ddull mwy hyblyg o gynllunio, gan gynnwys ble mae'r mathau o ddefnydd yn cael eu lleoli, a sut gall defnydd cymysg gyd-fynd yn dda â'i gilydd. Mae'r fantais arferol sydd gan dai a adeiladwyd o'r newydd o ran TAW, o'i chymharu â thrwsio ac addasu, yn parhau i fod yn broblem o ran ail-ddefnyddio.⁸ enghraifft glir o bolisi, o'i roi ar waith, yn arwain at y canlyniad anghywir.

Dylai ystyriaeth i garbon fod yn nodwedd hanfodol o waith cynllunio strategol ar raddfa fwy, y tu hwnt i adeiladau unigol. Mae lle rydym yn dewis byw a gweithio yn diffinio'r amgylchedd adeiledig sydd ei angen arnom: ysgolion, ysbytai, cyfleustodau, a thrafnidiaeth – sef elfennau ein heconomi 'sylfaenol'. Mae sefydlu dinas-ranbarthau o amgylch Abertawe a Chaerdydd yn cydnabod natur ryng-gysylltiedig ein seilwaith, yn enwedig trafndiaeth, ac eto nid yw'r llu o awdurdodau lleol unigol bob amser yn ffordd effeithiol o gynllunio na rheoli seilwaith mawr. Mae'n hawdd gweld y manteision y gall Trafnidiaeth Cymru

eu cynnig drwy integreiddio trafndiaeth gyhoeddus ar gyfer dinasoedd mawr, ac mae disgwyl mawr am reoleiddio rhwydweithiau bysiau yng Nghymru mewn dull tebyg i Transport for London.

Ond un nodwedd sylfaenol sy'n rhan annatod o seilwaith y rhan fwyaf o drefi a dinasoedd Cymru yw'r ffaith fod gwaith, cartref, a hamdden ar wahân. Naill ai fod y gwaith lleol wedi mynd, neu mae cartrefi wedi cael eu hadeiladu ar ddwysedd isel oddi wrth waith newydd. Mae nodweddion daearyddol a thopograffig y wlad yn ychwanegu at heriau cysylltedd. Mae gan Lundain ddwysedd poblogaeth o 5,701 y cilometr sgwâr. Mae'r dwysedd hwn yn galluogi trafndiaeth gyhoeddus hwylus sy'n cael ei defnyddio'n eang. Mae dwysedd poblogaeth Cymru yn isel. Yn y DU, dim ond yr Alban sydd lawer yn is. Mae'r rhan fwyaf o Gymru yn yr ystod 0 – 199 y cilometr sgwâr⁹, gan godi i 2,620 yn unig yn yr awdurdod lleol â'r dwysedd poblogaeth mwyaf, Cyngor Caerdydd.¹⁰ Mae aneddiadau gwledig a maestrefi dwysedd isel yn golygu bod trafndiaeth gyhoeddus gyfleus (a fyddai'n cael ei defnyddio'n helaeth) yn her enfawr i'w darparu.

I lawer o Gymru, nid trafndiaeth gyhoeddus yw'r ateb fel y mae'n gallu bod mewn ardaloedd o boblogaeth ddwys. Dim ond dinasoedd mawr, a dim ond un ddinas yng Nghymru efallai, sy'n gallu darparu bysiau yn ddigon aml ac ar oriau sy'n cynnig gwasanaethau "cyrraedd a theithio" dibynadwy a chyfleus heb boeni am amserlen. Bydd llawer o deithiau yng Nghymru yn amhosibl ar drafndiaeth gyhoeddus, ond yn rhy anodd eu cerdded neu eu beicio. Os dim ond un dinas-ranbarth sy'n gallu ffynnu drwy drafndiaeth gyhoeddus, beth yw'r cynllun ar gyfer pob man arall? A all polisïau, cynllunio trafndiaeth, a chynllunio defnydd tir yn y dyfodol gyd-fynd â newid y dyfodol, a phwy fydd yn arwain ar hyn?

Ar hyn o bryd, ceir sy'n dal i gael ei ddefnyddio fwyaf yng Nghymru, ac mae lleoliadau prysur yn dioddef o lygredd a thagfeydd yn sgil hyn. Gan na fydd modd gwerthu ceir petrol a disel newydd o 2030 ymlaen, ymhen 20 mlynedd byddwn ar y trywydd iawn i roi terfyn ar ollyngiadau carbon o geir a faniau,¹¹ ond beth am y tagfeydd traffig a'r gofod a ddefnyddir gan barcio? Fel arfer, dim ond am awr y dydd y mae ceir yn cael eu gyrru.¹² Mae hyn yn amlwg yn aneffeithlon, ond mae'n ymwneud â chyfleustra i'r unigolyn, galw brig, a cheir fel symbolau statws.

Mae datgysylltu llygredd a thagfeydd yn codi cwestiynau hollbwysig ar gyfer cynllunio a dylunio.

Er enghraifft, pa werth a roddwn ar dagfeydd, i'r bobl sy'n sownd yn eu cerbydau a'r amgylchedd y maent yn eistedd ynnddo? Mae ble i barcio'r holl gerbydau yn cael effaith enfawr ar leoedd, a sut maent yn cael eu dylunio. Ai clybiau ceir neu fodolau tanysgrifio fydd yr ateb, neu a ydym yn parhau i adeiladu datblygiadau maestrefol dwysedd isel lle mae priffyrdd, llwybrau cerdded a mannau agored yn cael eu rheoli gan leoedd parcio ar gyfer mwy nag un car wrth bob cartref? Gydag ymrwymiad y Llywodraeth i gerbydau trydan, pwy sy'n mynd i sicrhau bod cyfleusterau gwefru cyflym ar gael i bawb mewn ardaloedd prin eu poblogaeth?

Mae'n hollbwysig cynllunio, ond mae cyflawni'n hanfodol hefyd. Mae cynllunio, dylunio ac adeiladu ar gyfer yr amgylchedd adeiledig yn cymryd amser hir, yn sicr yn hirach nag unrhyw gylch gwleidyddol. I lwyddo, mae angen rhywfaint o gonsensws ar draws lleisiau a chyfnodau gwleidyddol i gyflawni nodau hirdymor.

Cleientiaid sy'n diffinio pa mor dda fydd eu prosiectau. Mae cleientiaid rhagorol yn gweithio yng Nghymru, ond nid yw lefel gyffredinol yr uchelgais ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat yn ddigon uchel eto. Mae gwariant y sector cyhoeddus yn rheoli economi Cymru, ac mae cyfle amlwg i arweinyddiaeth wleidyddol symud y bys o fod yn ddigonol i fod yn rhagorol.

Os yw'r sector cyhoeddus wedi colli sgiliau, heb adnoddau digonol, yn osgoi risg, ac yn mynd am y gost gyfalaf isaf, mae'n anochel y bydd hyn yn arwain at ganlyniadau cyffredin drwy'r llwybr hawsaf. Dylid rhoi mwy o werth ar ansawdd yr amgylchedd adeiledig. Rhaid rhoi mwy o flaenoriaeth i hyn ymysg gofynion sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd yn y sector cyhoeddus: mae hyn yn gofyn am ffocws a phenderfyniadau anodd. Mae tanfuddsoddi mewn adnoddau dynol medrus yn cyfyngu ar gyfleoedd ac yn tanseilio uchelgais polisïau. Mae angen i'r Llywodraeth ac awdurdodau lleol roi mwy o arweiniad a mwy o ymrwymiad, gan ddilyn esiampl y cleientiaid gorau yn y sector cyhoeddus. I wneud hynny, mae angen iddynt gael yr adnoddau priodol a chael eu galluogi.

Mae dylunio yn rhan o hyn, ond mae polisi, cynllunio a chaffael yn sylfeini hanfodol. Nid yw dylunio da yn gallu gwneud yn iawn am benderfyniadau gwael; mae angen newid strwythurol drwy feddwl yn well ar gyfer y tymor hir. Mae dylunio da hefyd yn gofyn am fwy o ofal, oriau, sgiliau a phrofiad. Y gwir plaen yw bod gwaith dylunio gwell yn costio mwy, er na fydd y prosiect o bosib yn costio mwy yn ei gyfanrwydd. Hyd yn oed o fewn systemau caffael sy'n gwyro tuag at ansawdd, mae'r metrigau a ddefnyddir yn aml yn arwain at sefyllfa lle mai'r gost isaf sy'n ennill, yn hytrach nag ansawdd gwell. Mae gwaith

da'n cael ei wneud ac mae eithriadau i hyn, ond mae angen newid agwedd yn eang. Gall gwasanaethau cefnogaeth i gleientiaid Comisiwn Dylunio Cymru fod yn effeithiol, ond bydd angen mwy o adnoddau arno os yw am adeiladu ar lwyddiannau cynnar.


Nid oes modd cael canlyniadau da heb bobl dda: mae unigolion a phractisau proffesiynol, cleientiaid gwybodus ac arweinwyr sydd â gweledigaeth oll yn gwneud gwahaniaeth. Mae sicrhau dylunio gwell yn golygu cyflogi'r dylunwyr gorau posibl, edrych ymhellach i ffwrdd – chwilio am ddoniau newydd ac arferion gwahanol – edrych y tu hwnt i symrlwydd caffael cytundebau fframwaith gyda chwmmiau amlddisgyblaeth siop-un-stop, er mwyn canolbwyntio ar greu'r tîm dylunio gorau ar gyfer pob prosiect. Gall Comisiwn Dylunio Cymru ddarparu cyngor rhagorol a help llaw i gyflawni hyn.

Mae gan Gymru dirwedd naturiol unigryw a hardd sy'n cael ei gwerthfawrogi a'i pharchu, ond mae'r rhan fwyaf ohonom yn byw ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd. Dylai'r amgylcheddau cyffredin, bob dydd hyn – y lleoedd rydym yn eu clodfodi mewn polisi a deddfwriaeth – fod yn lleoedd gwyh hefyd. I gyd-fynd ag uchelgais ac arloesedd polisi a deddfwriaeth yng Nghymru, mae taer angen awdurdodau cyhoeddus medrus sydd â digon o adnoddau, gyda'r capasiti i gyflawni addewid polisi wrth iddynt wneud eu gwaith.

Nid yw ein gwaith wedi'i orffen – megis dechrau y mae, o bosibl. Mae'r goreuon yn dda iawn – ac mae angen mwy ohonynt – ond prin fod y rhai cyffredin yn ddigonol: ar gyfer yr holl amgylchedd adeiledig; ar gyfer ein holl leoedd cyffredin, mae Cymru'n haeddu rhagoriaeth - ym mhobman, bob dydd.

- 1 Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru
- 2 Royal Incorporation of Architects in Scotland
- 3 paragraff 134, 2021
- 4 paragraff 64, 2012
- 5 matthew-carmona.com/2022/04/26/87-appealing-design-the-tide-turns-on-poor-and-mediocre-housing-design
- 6 Er bod argymhellid y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd ar gyfer Cymru ychydig yn is, sef 95% o lefelau 1990: www.theccc.org.uk/publication/net-zero-the-uks-contribution-to-stopping-global-warming
- 7 www.gov.uk/government/publications/recovered-appeal-land-adjacent-to-20-bury-street-london-ec3a-5az-ref-3244984-11-november-2021
- 8 <https://www.architectsjournal.co.uk/news/vat-chance-can-tax-reforms-spur-a-retrofit-renaissance>
- 9 <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/annualmidyearpopulationestimates/mid2019#population-age-structures-of-uk-countries-and-english-regions>
- 10 <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Density/populationdensity-by-localauthority-year>
- 11 (gan roi gronynnau llwch o'r neilltu, a'r materion ynni a ymgorfforwyd). Ar gyfartaledd, oedran car wedi'i sgrapio yn y DU oedd 13.9 mlynedd yn 2015. (www.smmmt.co.uk/industry-topics/sustainability/average-vehicle-age)
- 12 www.racfoundation.org/research/mobility/still-standing-still

Beth mae diwylliant o ansawdd yn ei olygu i ddyfodol ein lleoedd bob dydd?



Jen Heal BSc(Anrh) MA MRTPI

Ymgynghorydd Dylunio Comisiwn Dylunio Cymru

Cyd-gadeirydd Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau Comisiwn Dylunio Cymru

Cyn-Gomisiynydd, Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru dan Gadeiryddiaeth yr Arglwydd Burns

Mae gwella ansawdd lleoedd bob dydd, nid dim ond y cartrefi mawr, dinesig neu'r cartrefi sy'n werth miliynau o bunnoedd, wedi bod yn un o nodau craidd Comisiwn Dylunio Cymru erioed. Gall lleoedd bob dydd siapio a dylanwadu'n gadarnhaol ar fywydau rhannau mawr o boblogaeth Cymru, a dylent hefyd fod yn elfen hanfodol o'n hymateb cenedlaethol i'r argyfwng hinsawdd. Mae sicrhau eu bod yn iawn yn hanfodol ac yn gymhleth dros ben.

Daw'r cymhlethdod oherwydd nad cyfrifoldeb un unigolyn neu sefydliad unigol yw bywyd lleoedd bob dydd. Nid ydym yn byw mewn swigen debyg i'r Truman Show lle mae popeth yn cael ei drefnu o dan un reolaeth uwchlaw popeth. Mae gennym nifer o berchnogion, cyfranwyr, rheolwyr a chyfranogwyr, pob un ag amcanion amrywiol. Yn anffodus, nid gwneud lleoedd gwych yw diben yr amcanion hyn bob amser. Gallant, yn aml, fod yn gysylltiedig â gwneud elw, osgoi'r canlyniad lleiaf gwael, neu, yn syml iawn, cael y gwaith wedi'i wneud. Dyma rai o'r rhesymau pam mae'r cyfleoedd i weld a phrofi lleoedd bob dydd sydd o ansawdd uchel, yn gynaliadwy, ac sydd wedi'u cynllunio'n dda, yn dal i fod mor brin.

Mae gan ansawdd ein hamgylchedd o ddydd i ddydd ran bwysig i'w chwarae o ran creu mwy o alw am ansawdd yn fwy cyffredinol. Gall amgylchedd o ansawdd leddfu heriau bob dydd, ysbrydoli, ac ennyn ymdeimlad o werth a fydd yn annog pobl i fod eisiau mwy o'r un peth. Nid yn unig hynny, mae hefyd yn cael effaith ar ansawdd bywyd, ar les, ar yr ymdeimlad o gyfiawnder, ac ar gydlyniant – ac mae pob un o'r rhain yn hanfodol i sicrhau dyfodol cynaliadwy. Dylai'r genhedlaeth nesaf etifeddu rhywbeth gwell a disgwyl mwy. Amlygwyd hyn gan symposiwm ac arddangosfa *Getting Things Done: Evolution of the built environment in Vorarlberg* a ddaeth i Gymru gan Gomisiwn Dylunio Cymru a Phrifysgol Caerdydd yn 2016. Roedd yn dangos sut y gall ffocws ar ansawdd dylunio dreiddio drwy ranbarth a dylanwadu ar ddyluniad cartrefi unigol, adeiladau cymunedol a lleoedd bob dydd. Roedd mynd i'r afael ag eitemau bach bob dydd fel safleoedd bysiau yn rhoi cyfle i bobl weld y gwahaniaeth y gall dylunio ei wneud.

'Nid cydymffurfio yw'r nod, ond creu cyfle.'

Dyma sylw a wnaed gan arolygydd cynllunio ynghylch creu lleoedd ar gyfer datblygiad preswyl a oedd yn destun apêl cynllunio. Arhosodd hyn yn fy nghof, oherwydd mae'n ein hatgoffa nad anelu at wneud y lleiaf posibl, neu ddigon i ddod i ben, y dylem ei wneud. Mae cyfrifoldeb arnom i wneud y gorau y gallwn, yn greadigol, gyda'r hyn sydd gennym o ran amser, adnoddau, ac egni.

Felly, sut beth yw ansawdd mewn bywyd bob dydd? Nid sgwrs oddrychol am sut mae rhywle'n edrych yw hyn, er bod cymeriad ac ymddangosiad yn chwarae rhan. Nid yw ansawdd yn ymwneud â gormodedd a gwagedd, ond nid yw'n ddinod ychwaith. I mi, mae gan ansawdd mewn lleoedd bob dydd y nodweddion canlynol:

Ystyriol – mae meddwl a gofal wedi'i roi i bwy fydd yn defnyddio'r amgylchedd, beth yw eu hanghenion, a sut y gall dyluniad y lle weithio i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae'r lle yn cael ei lunio â gofal a thosturi, nid proses fformiwlaig yn unig. Pan fydd prosiect yn cael ei adolygu trwy broses adolygu dyluniadau Comisiwn Dylunio Cymru, mae'n amlwg os yw dyluniad wedi cael ei ruthro, neu os nad oes gofal wedi'i gymryd. Mae'n bosibl y bydd sawl rheswm dros hyn, ond mae'r atebion yn golygu cydnabod a gwerthfawrogi'r broses dylunio a chynllunio, ysgrifennu briff da, penodi tîm dylunio gwych, a chaniatáu digon o amser i archwilio a phrofi syniadau.

Creadigol – nid dilyn cyfres o reolau neu fodloni cyfres o safonau yw sicrhau ansawdd dylunio. Mae dull creadigol yn caniatáu ar gyfer cyfle i herio'r cwestiwn, ac nad yw'r ateb yn hysbys eto. Mae angen y cyfle hwn yn y galwedigaethau dylunio, ond hefyd wrth gynllunio ac mewn buddsoddiadau cyhoeddus strategol.

Effeithlon a chynaliadwy – ni ddylai fod angen dweud, yng nghyd-destun argyfwng hinsawdd a natur, y dylai'r lleoedd rydym yn eu dylunio a'u hadeiladu fod mor effeithlon â phosibl a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd. Mae angen i ni ddysgu gwneud mwy gyda llai, ni allwn barhau i

Mae angen y sgiliau, yr adnoddau a'r prosesau priodol ond, yn y bôn, yr agwedd briodol sy'n arwain at newid go iawn.

ddefnyddio adnoddau'n ddi-ddiwedd. Mae'r mater hwn yn un brys, ond nid yw'r brys hwnnw'n cael ei adlewyrchu'n ddigonol yn y rhan fwyaf o'r cynlluniau a'r prosiectau datblygu a gyflwynir.

Cadarn – mae cadernid wedi bod yn rhan o egwyddorion dylunio trefol ers degawdau, ond rydym yn dal i weld lleoedd nad ydynt wedi'u hadeiladu i barhau neu nad oes modd eu haddasu. Ni ddylai fod yn dderbyniol dymchwel adeiladau 30 mlwydd oed a chodi adeiladau yn eu lle nad ydynt ond yn para 30 mlynedd arall. Mae'r ffordd rydym yn defnyddio lleoedd yn newid yn gyson felly mae'n hanfodol bod yr adeiladau a'r lleoedd rydym wedi'u creu yn gallu addasu i newid yn y dyfodol.

Syml – mae lleoedd yn ddigon cymhleth heb haenau ychwanegol o gymhlethdod dylunio anystyriol. Yn aml, ceir ennyd (neu sawl un) yn y broses ddylunio pan fyddai cymryd cam yn ôl ac adolygu'r holl benderfyniadau dylunio sydd wedi'u gwneud, yn gallu arwain at gyfleoedd i dynnu un neu ddau syniad i greu ateb mwy syml. Mae'r broses adolygu dyluniadau yn aml yn rhoi'r cyfle hwn.

Cyfforddus – dylai lleoedd fod yn hawdd eu defnyddio a chynnig ymdeimlad o gysur a sicrwydd i bobl, waeth pwy ydynt. Mae cynnydd yn cael ei wneud ar fynd i'r afael â chynwysoldeb yn yr amgylchedd adeiledig, ond mae'n siŵr fod rhagfarn ddiarwybod yn parhau, ac mae angen mynd i'r afael â hynny drwy'r amser.

Ymarferol – efallai mai dyma'r elfen leiaf y dylid ei disgwyl gan le, ond weithiau gellir colli agweddau ar ddefnyddioldeb a swyddogaeth yng nghymhlethdod dyluniad ac wrth ddatblygu lle.

Felly, sut mae Cymru yn gwneud yn hyn o beth? Wrth gwrs, mae lle sylweddol i wella, ond ni ddylid anwybyddu'r camau mawr sydd wedi'u gwneud yng nghyfnod Comisiwn Dylunio Cymru. Er enghraifft, mae cyflwyno TAN 12: Dylunio, a'r gofyniad am Ddatganiadau Dylunio a Mynediad, wedi golygu bod iaith dylunio wedi dod yn llawer mwy integredig ym mhob prosiect gan gynnwys

lleoedd bob dydd. Mae deddfwriaeth teithio llesol, canllawiau dylunio a chyllid yn gweithio i wella symudiad o ddydd i ddydd, ac mae Canllaw a Siarter Creu Lleoedd Cymru yn helpu i feithrin egwyddorion yr hyn sy'n gwneud lle da mewn sefydliadau ar draws amrywiaeth o ddisgyblaethau. Mae trafodaeth lawer ehangach a dyfnach am ddylunio yn digwydd rhwng sefydliadau, y sawl sy'n gwneud penderfyniadau, addysgwyr a chleientiaid.

Fodd bynnag, mae perygl i safonau, gofynion ac adnoddau cymorth gymryd drosodd o'r dull ystyriol a chreadigol a amlinellir uchod. Ni all hyn fod yn ymarfer ticio blychau, lle mai dim ond dangos cydymffurfiaeth yw'r elfen bwysicaf yn y broses ac nad oes amser ar gyfer y dylunio. Dyna pam mae diwylliant o ansawdd yn bwysicach o lawer na pholisi a chanllawiau yn unig. Mae angen y sgiliau, yr adnoddau a'r prosesau priodol ond, yn y bôn, yr agwedd briodol sy'n arwain at newid go iawn. Mae adnoddau yn her yn aml, yn enwedig yn y sector cyhoeddus, ond ni ddylai hyn fod yn esgus. Rhaid i bawb sy'n gysylltiedig anelu at ansawdd ac ysgwyddo ymdeimlad o berchnogaeth a balchder yn eu rhan nhw eu hunain yn y broses.

I gael y diwylliant priodol, mae'n rhaid cael yr arweinyddiaeth briodol ar lefel sefydliadol genedlaethol, leol ac unigol. Mae arweinyddiaeth yn gosod y naws a'r disgwyliadau ar gyfer unrhyw sefydliad ac mae'n meithrin y gwerthoedd y mae pobl yn eu dilyn yn eu gwaith. Mae diwylliant Comisiwn Dylunio Cymru, o ran ei ansawdd a'i allu i gyflawni cymaint ag adnoddau cyfyngedig, yn dyst i'w arweinyddiaeth. Ymhlith pethau eraill, mae'r diwylliant hwn: yn ymddiried mewn pobl i wneud

eu gwaith yn dda ac yn cael gwared ar rwystrau a phryderon a allai amharu ar hyn; yn rhoi lle i feddwl ac amser i gael ysbrydoliaeth; yn ysgogi cefnogaeth gweithwyr proffesiynol o'r un anian, ac yn canolbwyntio ar sicrhau rhagoriaeth. Rhagorir bob amser ar dargedau, mae syniadau newydd yn rhan o sgysiau bob dydd, ac mae meddwl sut i wneud pethau'n well yn rhan annatod o'r ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud. Gwerthfawrogir, defnyddir a buddsoddir mewn arbenigedd penodol; ceir diwylliant o gydweithio sy'n anelu at ddiben cyffredin. Byddai llawer o werth wrth i sefydliadau eraill elwa o'r dull hwn o arwain a'r diwylliant y mae'n ei greu.


Wrth i Gomisiwn Dylunio Cymru nodi carreg filltir o 20 mlynedd, un o'r prif heriau yw parhau i ddod o hyd i ffyrdd o rannu a throsglwyddo gwybodaeth a phrofiad, yn ogystal â chefnogi mwy ar gleientiaid, timau dylunio a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau, drwy helpu i fagu eu hyder,

siapio eu diwylliant, a gwella eu capasiti. Rydym i bawb sy'n gweithio ym maes cynllunio, dylunio a datblygu lleoedd bob dydd fod *eisiau* gwneud gwahaniaeth go iawn, i wybod sut beth yw hynny, ac i wybod sut mae gwneud hynny.

Dros yr 20 mlynedd nesaf, mae angen llawer mwy o enghreifftiau o leoedd bob dydd sy'n wych, sy'n ysbrydoli eraill, ac sy'n parhau i sbarduno'r galw am well ansawdd. Byddai'n dda cael dealltwriaeth gliriach, sy'n cael ei chydabod yn ehangach, o fanteision a gwerth cyhoeddus lleoedd bob dydd o safon, fel bod modd eu cydnabod fel rhywbeth hanfodol yn hytrach na rhywbeth sy'n braf ei gael. Ac wrth wraidd hyn oll, mae angen mwy o ymdeimlad o frys mewn perthynas â dylunio ac addasu ein lleoedd bob dydd i ymateb i newid yn yr hinsawdd a helpu i leihau'r newid hwnnw. Ni all y pethau hyn ddigwydd drwy bolisi a strategaeth yn unig. Mae angen arweiniad sy'n gosod y naws ac yn siapio'r diwylliant.



Capasiti, parhad ac ansawdd.



Wendy Maden BSc(Anrh), MA UD

Prif Ddylunydd Dinesig, Cyngor Caerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf
Panelydd Adolygu Dyluniadau Comisiwn Dylunio Cymru
Cyn-ymgyngorydd Dylunio gyda Chomisiwn Dylunio Cymru

Mae'r mwyafrif o'r rhannau o'r amgylchedd adeiledig sy'n cael yr effaith fwyaf ar fywydau pobl o ddydd i ddydd yn debygol o gael eu darparu a'u newid drwy fuddsoddiad gan y sector cyhoeddus, boed yn lleoedd cyhoeddus, yn adeiladau allweddol, neu'r stryd fawr. Mae sicrhau gwerth sylweddol am arian ar wariant cyhoeddus yn dibynnu ar ddarparu dyluniadau o ansawdd uchel. Gall haenau'r broses dan sylw gyfyngu neu ehangu'r potensial hwn.

Mae newidiadau i'r amgylchedd adeiledig, o gysyniad prosiect i'w gyflawni ar y safle, yn cael eu siapio mor gryf gan swyddogaethau awdurdodau lleol a phrosesau cyllid grantiau, mae'n rhaid i ni ystyried sut y gallai fod angen i'r rhain addasu. Ar hyn o bryd, gall y prosesau hyn fod yn anhyblyg ac ar wahân, gan atal hyblygrwydd a phrosesau dylunio ailadroddus.

Ym mhob cam o'r broses dylunio a chyflawni, byddai gwelliannau ac addasiadau'n bosibl i sicrhau bod prosiectau'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar le a'i gymuned. Mae'r newidiadau hyn yn amrywio o'r tîm sy'n ymwneud â nodi a dylunio prosiect, drwy'r broses o wneud cais am gyllid, yr holl ffordd at ei gyflawni ar y safle.

Talent yn y tîm

O gysyniad prosiect i'w gyflawni, ni ellir pwysleisio digon werth timau dylunio amlddisgyblaeth mewnol yr awdurdodau lleol. Mae cynnwys pobl greadigol a dawnus, sy'n gallu datrys problemau, o fewn llywodraeth leol yn hanfodol os yw prosiectau'r sector cyhoeddus i fod yn seiliedig go iawn ar leoedd. Yn rhy aml, ymgynghorwyr allanol yw'r rhan fwyaf o'r tîm sy'n dylunio prosiect, a cholli'r cyfle i ymgysylltu yn y tymor hir â phobl leol, a deall anghenion. Ar yr un pryd, gellir colli'r cyfle i gadw doniau a meithrin sgiliau yn yr awdurdod lleol drwy arwain a chyflawni prosiectau yn fewnol, a gall hyn arwain at gylch diddiwedd o ragor o waith i gyflenwyr allanol.

Mae llawer o fanteision o gael timau adfywio a chreu lleoedd amlddisgyblaeth mewn cynghorau. Mae gan swyddogion gysylltiad gwell â lleoedd, ac maent mewn sefyllfa dda i ymgysylltu

a chyd-ddylunio â'r gymuned. Heb os, mae'r berthynas hon, y ddealltwriaeth o le, ac angerdd dros y gymuned yn gwella'r broses dylunio a'r canlyniad. Mae'r rhain yn rolau creadigol sy'n rhoi boddhad, ac maent yn rhoi cyfle i ddylunwyr fynd â phrosiectau o'r cysyniad i'r gwaith o'i gyflawni, ond gan warchod ansawdd y dylunio. Gall dylunwyr mewnol osod briff creadigol ac ystyriol ar gyfer ymgynghorwyr allanol, gan gryfhau'r cwmpas a'r bwriad y tu ôl i'r broblem dylunio dan sylw. Mae gwell dealltwriaeth o ymwybyddiaeth o strategaethau, polisiau a phrosiectau ar draws yr awdurdod lleol, felly mae modd canfod yn gynt beth yw'r cyfleoedd ategol, neu'r heriau sy'n gwrthdaro, y tu hwnt i gwmpas uniongyrchol y prosiect. Mae gweithio'n fewnol fel hyn yn meithrin sgiliau, capasiti, a chof diwylliant corfforaethol, sy'n wersi gwerthfawr i'w defnyddio eto y tro nesaf.

Mae angen newid diwylliant er mwyn ail-lunio rolau creu lleoedd mewn awdurdodau lleol fel rhai gwerthfawr ac uchel eu parch, a rhoi'r rôl arwain yn ôl i swyddogion yn hytrach na rhoi chwilio am sgiliau allanol. Mae cymysgedd o arbenigeddau mewn tîm adfywio, megis dylunio trefol, ymgysylltu â'r gymuned, y celfyddydau, a diwylliant, treftadaeth, a rheoli prosiectau, ac mae hyn yn hwyluso dealltwriaeth fwy cyfannol o le a'r prosiectau sydd ynddo. Mae rhannu sgiliau ymysg y tîm, ac ar draws yr awdurdod lleol, yn creu gwaddol gwerthfawr y tu hwnt i gyflawni prosiectau unigol. Mae trafodaethau ynghylch ansawdd lleoedd a dylunio yn cael eu rhannu ar y cyd ac ar draws ffiniau adrannau. Mae hyn yn golygu y byddai gweithio ar draws timau yn cael ei gryfhau tuag at nod cyffredin – llawer mwy felly na bod dylunwyr allanol yn cael eu defnyddio am gyfnod cyfyngedig. Hefyd, mae'r gymuned yn cael tîm cyson wrth law i feithrin perthynas â nhw dros amser.

Er y dylai buddsoddi mewn recriwtio talent fod yn flaenoriaeth i Awdurdodau Lleol eu hunain, gellir hefyd datblygu tîm o'r fath drwy ymgorffori amser swyddogion mewn ceisiadau am gyllid i brosiectau, ochr yn ochr ag unrhyw adnodd ymgynghori technegol. Byddai hyn yn osgoi straen ar yr awdurdod o ran referniw ychwanegol, ac yn rhyddhau swyddogion medrus i'w defnyddio lle

gall eu gwaith wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Nid yw hyn yn fwy costus na chais prosiect traddodiadol, oherwydd gellir defnyddio'r un gwerth am arbenigedd technegol a dylunio yn fwy effeithiol ac yn fwy effeithlon gyda swyddogion cyflogedig yn hytrach nag ymgynghorwyr sy'n gwbl allanol.

Cyllid a rhaglennu

Wrth bennu cwmpas prosiectau a'u cyflawni, mae angen i fecanweithiau cyllid cyhoeddus fod yn hyblyg ac addasadwy ar gyfer anghenion lleoedd unigol. Pan fo ffrydiau cyllid yn y gorffennol wedi cael eu neilltuo'n glir i fathau unigol o brosiectau, megis treftadaeth, trafnidiaeth, tai, ynni, bydd angen i ni feddwl yn fwy creadigol am sut y gallant addasu wrth i ni feddwl yn fwy cyfannol am le. Er mwyn ymateb i newidiadau o ran sut rydym yn byw, yr argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth, a dirywiad y stryd fawr, bydd angen i brosiectau gwmpasu'r categorïau hyn er mwyn bod yn effeithiol. Bydd angen i raglenni cyllido adlewyrchu hyn a pheidio â chael eu cyfyngu gan ffocws cul – mae angen iddynt roi sylw i'r cyfle sy'n ymwneud â'r 'lle cyfan'.

Mae angen ffocws a bwriad clir ar ffrydiau cyllido, ond dylai fod modd eu haddasu hefyd i ymateb yn gadarnhaol i atebion creadigol sy'n bodloni eu hamcanion cyllido, ond nad ydynt yn ffitio i gategori unigol. Gan ddefnyddio'r stryd fawr fel enghraifft, nid yw'r ateb mewn un darn o dir cyhoeddus, seilwaith gwyrdd, adfywio ac

adnewyddu adeiladau, na chelf gyhoeddus – mae'n llawer mwy tebygol o fod ar ffurf prosiect sy'n ystyried ac yn cynnwys pob un o'r rhain fel pecyn fesul cam. Rhaid i gyrff cyllido fod yn barod i ymateb i hyn a darparu pecyn o fuddsoddiad sy'n galluogi i'r prosiect mwyaf creadigol ac ystyriol gael ei wireddu'n llawn. Mae'n rhaid mowldio'r cwmpas cyllido i gyd-fynd â'r ateb dylunio priodol, yn hytrach na'r ffordd arall.

Mae hyn yn gofyn am newid yn y ffordd rydym yn mesur gwerth prosiect, yn y cam gwneud cais ac ar ôl cwblhau'r prosiect. Dylai'r ffordd rydym yn diffinio 'da' fod yn wahanol ar draws ardaloedd, amcanion prosiectau, a theipoleg. Gallai gyrff cyllido weithio gyda thîm y prosiect ac, yn ei dro gyda'r gymuned leol, i ddiffinio sut beth fyddai llwyddiant yn yr achos hwn ac i fesur prosiect yn erbyn hynny. Gallai hyn olygu amrywio dulliau mesur, fel cynnydd economaidd, tuag at ganlyniadau llai gweladwy, a gallai hyn gael effaith fwy cadarnhaol ar ansawdd lleoedd, fel gwerth diwylliannol neu gydlyniant cymunedol. Efallai nad yr hyn sy'n hawdd ei fesur yw'r hyn sy'n wirioneddol bwysig bob amser. Mae angen i'r dulliau asesu a'r meini prawf gynnwys tystiolaeth o ymgysylltu ystyrion â'r gymuned ac adolygiad dylunio cadarn, yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar asesiadau economaidd nad ydynt bob amser yn rhoi'r darlun cyflawn. Mae angen i gyrff buddsoddi ddeall yn well beth yw realiti datblygu a chyflawni prosiectau – i weld yn fanylach y dulliau



Rydym yn gwybod bod y broses ddylunio yn ailadroddus yn hytrach nag yn llinol, a bod profi ac wedyn dysgu yn gallu bod yn rhan allweddol o'r broses o ddod o hyd i ateb dylunio.

gweithredu a'r canlyniadau sy'n bwysig, a sut mae eu hasesu'n gywir.

Mae dangos canlyniadau yn bwysig hefyd ac, fel llawer o bethau eraill, mae angen addasu i adlewyrchu hyblygrwydd sydd ei angen ar gyfer dulliau gweithredu mewn prosiectau – wrth wneud ceisiadau ac wrth adrodd. Gallai hyn ystyried a oes modd dangos a chyfleu effaith prosiect yn well drwy fideo/ffotograffiaeth, ymgysylltu â'r gymuned neu ddehongliad celfyddydol, yn hytrach na thrwy waith papur ffurfiol a'r ymarfer 'ticio blwch' a geir yn aml iawn. Yna, gallai'r ymarfer hwn a wneir gan gyrff cyllido i gasglu a dadansoddi gwybodaeth ddechrau creu darlun newydd o beth sy'n fuddsoddiad cyhoeddus llwyddiannus o ansawdd uchel yn yr amgylchedd adeiledig, a beth y gallai hynny fod. Mae llawer o ffynonellau buddsoddi yn gofyn am 'newid trawsnewidiol' cyn belled â bod y dulliau, a'r prosesau rheoli ac adrodd yn union yr un ffordd ag erioed.

Sicrhau ansawdd

Rydym yn gwybod bod y broses ddylunio yn ailadroddus yn hytrach nag yn llinol, a bod profi ac wedyn dysgu yn gallu bod yn rhan allweddol o'r broses o ddod o hyd i ateb dylunio. Mae angen i raglenni cyllido a phrosesau llywodraeth leol adlewyrchu hyn os ydym am addasu i'r dulliau newidiol o ymdrin â ffordd o fyw, yr amgylchedd, ynni, iechyd a symud.

Wrth ymateb i gymhlethdodau lle, nid oes yn aml un prosiect sy'n gallu ymateb. Drwy sefydlu rhaglen gyllido fesul cam, gall prosiectau peilot roi cyfle i ni ymgysylltu, profi, llywio, a rhoi adborth i broses ddylunio fwy cadarn. Gellid defnyddio'r prosiectau peilot hyn drwy gydol y broses ddylunio i lywio a datgloi'r camau nesaf o gyllid. Byddai hyn yn annog cyd-ddylunio â'r gymuned, yn ogystal


hefyd â rhoi lefel o sicrwydd i gyllidwyr, wrth i wersi a gwerthusiadau o bob cam gyfrannu at y broses ddylunio a datblygu. Gall y prosiectau peilot hyn roi'r cyfle i'r gymuned a rhanddeiliaid ail-greu lle drwy brosiectau uniongyrchol a fydd, wedyn, yn cyfrannu'n uniongyrchol at gynlluniau tymor hir..

Mae cynllunio fesul cam yn rhoi cyfle i wneud mwy o ddadansoddi, a chyfle i fireinio dyluniad drwy gydol y rhaglen, gan addasu i faterion annisgwyl y gallai model cyllido mwy anhyblyg fod wedi arwain at oedi cyn ei gyflawni. Pan fo patrymau symud a dulliau teithio, er enghraifft, yn newid i ymateb i batrymau gwaith, technoleg, a'r argyfwng hinsawdd, mae'n rhaid i ni allu addasu ein dull o weithredu i gyd-fynd â'r newidiadau hyn. Y dewis arall yw bod prosiect yn cael ei gyflawni, ond ei fod wedi'i gynllunio mewn un cyd-destun ar ddechrau rhaglen, a'i fod bellach wedi dod i ben, yn anaddas ac yn ddrudd i'w gywiro. Drwy dreialu a mireinio dull o ddylunio neu ymgysylltu, mae mwy o sicrwydd yn cael ei ddatblygu a fydd yn arwain at well gwerth am arian i bwrs y wlad.

Mae rhaglenni cyllid yn aml yn cael eu cyfyngu gan dymhorau gwleidyddol, ac mae hyn yn arwain at yr her o wneud i brosiect 'ffitio'. Er bod hon yn her sy'n anochel o ran cyllid cyhoeddus, gellid sicrhau llawer mwy o hyblygrwydd mewn oes rhaglen gyllido, i gydnabod dulliau gweithredu ac atebion dylunio amrywiol.

Er ei bod yn eithaf posibl darparu dyluniad o safon a lleoedd gwych drwy'r sector cyhoeddus yn awr, mae angen i ymarferwyr ar draws sector cyhoeddus yr amgylchedd adeiledig gael mwy o gefnogaeth i wneud hynny drwy systemau a phrosesau gwell, fel bod hyn yn bosibl ym mhobman i bawb, ble bynnag y maent. Mae'r dulliau hyn o greu tîm, creu prosiectau, cychwyn prosiectau, ymgeisio am gyllid, dylunio a phrofi ailadroddus, a chyflawni hyblyg yn fwy addas i ddiwallu anghenion lleoedd sy'n newid yn gyflym – ble bynnag y mae'r lleoedd hynny.

Mae sawl peth na ellir eu rhagweld yn yr heriau rydym yn eu hwynebu, i addasu'r amgylchedd adeiledig i newidiadau yn yr hinsawdd a'r ffordd rydym yn byw neu y mae angen i ni fyw. Nid yw'r dyfodol yn edrych yn debyg i'r gorffennol. Dim ond timau medrus sy'n gweithio'n agos ac yn gyson gyda chymunedau ac yn cyflawni prosiectau drwy ddulliau cyllido hyblyg ac uchelgeisiol, fydd yn effeithiol o ran profi, dysgu, canfod a defnyddio atebion dylunio creadigol ar gyfer newid go iawn a gwerth parhaol.



Craig Sheach BSc(Anrh), BArch (Anrh), ARB, RIBA

Partner, Penseiri PRP

Panelydd Adolygu Dyluniadau, Comisiwn Dylunio Cymru

Mae mwy a mwy o ddrwschw ynghylch beth yw dylunio da. Dros y degawdau diwethaf, mae ymarfer yn yr amgylchedd adeileidig wedi rhoi mwy o bwyslais ar estheteg yn hytrach na datrys problemau. Mae hyn wedi atgyfnerthu'r syniad bod penseiri yno i 'addurno blychau' yn hytrach na chynnig dyfeisgarwch a datblygu ymatebion creadigol. Er bod 'harddwch' yn rhan bwysig o adeiladau, trefi a dinasoedd llwyddiannus, mae dyluniad da yn llawer mwy na chyfansoddiad, cymesuredd, a dull. Mae'n cychwyn yng nghamau cyntaf un y broses, cyn yr elfen weledol, ac efallai mai dyna pam ei bod yn anoddach ynysu ei werth cynhenid, a hefyd beth sy'n ei wneud mor bwysig.

Felly, beth ydyw? Mae'r ateb yn gymhleth, a rhaid i ni symud oddi wrth ofyn am ddisgrifiad pendant a chroesawu'r meysydd anghyfforddus o amwysedd. Y rheswm dros hyn yw nad yw dylunio da yn gwybod yr ateb yn syth, ac nid yw'n rhoi ateb cyflym, ateb stoc neu ateb a ddatblygwyd yn flaenorol. Mae dylunio da yn cymryd cam yn ôl ac yn gofyn cwestiynau yn gyntaf. Mae'n edrych ar yr egwyddorion cyntaf ac yn parhau i fod yn effro i gyfleoedd newydd. Mae dylunio da yn ceisio deall beth sydd o dan broblem neu sefyllfa, o'i chwmpas, a'r tu mewn iddi. Yn ei hanfod, mae'n golygu cwestiynu her gyda chwilfrydedd a meddwl agored, yn hytrach na rhoi ateb uniongyrchol sydd wedi'i ddiffinio ymlaen llaw, air am air heb ymchwilio, profion na thrylwyrredd.

I ryw raddau, gallai rhywun gydnabod dylunio da drwy'r broses o'i gyflawni gymaint â'r canlyniad yn y pen draw. Mae archwilio'r hyn sy'n cymhell dull dylunio yn dweud wrthym fod trylwyrredd a chywirdeb yn bresennol, ac mae hyn yn creu fframwaith sy'n dangos pa mor lwyddiannus y gallai'r canlyniad fod. Os yw'r meddwl yn strwythuredig ac yn edrych ar yr heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â safle, mae hynny'n sail i'r rhesymeg y bydd dyluniad da sy'n benodol i le, yn cael ei roi ar waith yn amlach na pheidio. Mae'r meddwl sy'n mynd yn fanwl o'r dechrau i'r diwedd gan ddatrys problemau gyda chyn lleied o symudiadau â phosibl yn aml i'w weld mewn rhywbeth sydd wedi'i ddylunio'n dda. Nodweddir dylunio da gan broses feddwl sy'n

hwyluso naratif clir, darllenadwy a gafaelgar – hawdd ei gyfleu a'i ddeall. Yn y pen draw, mae tystiolaeth o broses gref, wedi'i chofnodi gan ddiagramau, brasluniau a modelau, yn esbonio llawer mwy am gynnig na chyfres weddluniau a rhagesiamplau. Maent yn darparu'r naratif.

Nid yw rhagesiamplau, o reidrwydd, yn brawf o feddwl. Maent yn adnoddau defnyddiol i ddangos bod rhywbeth yn bosibl. Fodd bynnag, maent hefyd yn beryglus oherwydd eu bod yn ddeniadol yn weledol ac yn rhy hawdd eu defnyddio'n ddiogel. Yn rhy aml, gallant fod yn sbardun gweledol ar gyfer dylunio a chymryd lle gwaith dylunio absennol. Dywedodd Oscar Wilde unwaith "Dynwarediad yw'r math mwyaf didwyll o ganmoliaeth" ond mae ail ran geiriau'r llenor yn cael eu hanwybyddu bron bob amser, sef "y gall dinodedd ei roi i fawredd". Y dyddiau hyn, mae rhagesiamplau'n cael eu gorddefnyddio, ac maent yn canolbwyntio gormod ar sut mae adeilad neu le yn edrych, yn hytrach na'r syniad ar gyfer yr adeilad – ei fath. Yn aml, maent yn cymryd lle proses feddwl y dylunwyr – eu syniadau, eu harchwiliadau a'u tystiolaeth o brofion. Efallai fod hyn yn digwydd oherwydd yr amser sydd ar gael, neu hyder, neu hyd yn oed y ffi a roddir gan y cleient. Fodd bynnag, nid dynwared difeddwl yw hanfod dylunio da. Mae gan ragesiamplau eu lle o ran cynnig cysur a gosod y sefyllfa, i'r gynulleidfa ac yn sicr i'r dylunydd, ond mae gwybod i ble rydych chi'n mynd cyn mynd yno yn gwrthio naratif rhywun arall o gyd-destun gwahanol. Dylai dyluniad a ddaw ar ddiwedd y broses fod yn rhywbeth dieithr y mae'r dylunydd yn ei groesawu; rhywbeth y mae ei ddyfodiad yn ddisgwyliedig, ond ei fod yn peri syndod dymunol.

Sut mae sicrhau bod dyluniad da yn digwydd? Y reddf naturiol yw ei safoni mewn rheoliadau a rheolau cydymffurfio. Mae'r dull hwn wedi dod yn fwy cyffredin dros y ddau degawd diwethaf fel un o'r prif ffyrdd o reoleiddio'r diwydiant i wella dylunio. Mae gosod meincnodau a thargedau i ni eu cyrraedd yn ganmoladwy er mwyn rhoi blaenoriaeth i ansawdd ar ddechrau ac ar ganol y broses. Ond yma hefyd y mae'r broblem. Drwy ddarparu safon sylfaenol i gydymffurfio â hi, mae blychau'n cael eu creu i'w ticio, ond heb unrhyw gymhelliant i ragori na lle i

Heb ddeall naws dylunio da, mae safonau a rheoliadau yn arfau diwerth. Yn aml, nid ydynt ond yn mynegi 'un ffordd o feddwl' neu reolau cyffredinol ynghylch un maes penodol.


gwestiynu, profi na herio. Maent yn creu meddylfryd 'ie/na' i ansawdd heb fynegi beth sy'n bwysig, na holi a allai ffyrdd creadigol eraill fod yn fwy addas neu lwyddiannus. Os ydych wedi bodloni'r metrig, yna mae'r dyluniad yn ei hanfod yn dderbyniol, ni waeth a yw'n cyrraedd y safon uchaf bosibl, neu'n briodol i'r her benodol. Mae derbynioldeb yn ffon fesur mor wael o ran ansawdd.

Yn y sector tai, gwelwn hyn dro ar ôl tro. Ystafelloedd byw cyfyng; cynlluniau anhyblyg ac anymarferol i ddodrefn, a mannau wedi'u gosod yn ddwfn ynghanol y tŷ heb fawr ddim mynediad, os o gwbl, at olau dydd – hyn oll er mwyn bodloni'r safonau ar gyfer maint lleiaf ystafelloedd. Yn eironig, mae'r union safonau a gyflwynwyd i sicrhau cartrefi ymarferol a hyblyg yn un o'r prif ffactorau sy'n cyflawni'r gwrthwyneb. Yn hytrach na phoeni am ddod o hyd i'r metr sgwâr ychwanegol hwnnw i dicio'r blwch, dylem fod yn edrych ar berthynas parthau ystafelloedd a'u cyfrannau, hyblygrwydd gofod i ddarparu ar gyfer gwahanol gynlluniau dodrefn, a diwallu anghenion a ffyrdd o fyw sy'n newid dros amser. Dylem fod yn sicrhau bod mwy o fynediad at olau dydd a golygfeydd, a mwy o awyru. Mae dylunwyr da yn deall y gwahaniaeth rhwng safonau. Rhaid glynu bob amser wrth y safonau sy'n sicrhau diogelwch, a byddant bob amser yn cael eu dilyn. Fodd bynnag, mae'r rheini sy'n ymwneud â'r hyn sy'n cael ei ystyried yn ansawdd yn cyfyngu, mewn gwirionedd, ar allu'r dylunwyr i wneud mwy, i greu gwell ac i ddatrys gwrthdaro mewn ffordd greadigol. Yn y bôn, y safonau dylunio sylfaenol fydd y safonau uchaf yn y pendraw, yn ymarferol.

Heb ddeall naws dylunio da, mae safonau a rheoliadau yn arfau diwerth. Yn aml, nid ydynt ond yn mynegi 'un ffordd o feddwl' neu reolau cyffredinol ynghylch un maes penodol. Yr hyn nad ydynt yn ei wneud yw delio â'r cymhlethdodau sydd ei angen i fynd i'r afael â nifer o heriau a chyfleoedd sydd gan bob prosiect. Gwyddom fod cael gwared ar gartrefi ag un wyneb sy'n wynebu'r gogledd, yn dda o ran cael golau dydd. Ond, yn aml, gall hyn

arwain yn uniongyrchol at gael ffurfiau ag ochr fflat a thalcennau sy'n diffinio strydoedd sy'n wynebu'r gogledd a'r de. Fodd bynnag, mae bywyd dinesig yn ystyriaeth â mwy nag un dimensiwn, ac er mwyn i'n strydoedd fod yn llawen a diogel, mae angen gweithredu ar bob ochr, nid dim ond ar y rheini sy'n wynebu'r dwyrain a'r gorllewin. Nid yw safonau'n ein helpu i fynd i'r afael â gwrthdaro fel hyn, ond mae dylunio da yn gwneud hynny, yn aml gydag atebion creadigol sy'n ail-addasu'r safonau i roi ymatebion penodol i leoedd. Y rheswm dros hyn yw bod dylunio da yn golygu ceisio deall hanfod problemau cymhleth, a sut mae gwneud y mwyaf o'r atebion gorau posibl sy'n hwyluso llawer o fanteision.

Mae mannau gwan yn y safonau ac mae'r rhain yn cael eu hachosi gan ddiffyg 'cydlyniant', yn enwedig rhwng gwahanol ddogfennau neu feysydd diddordeb. Er enghraifft, mae mannau gwan yn bodoli ar gyfer ffenestri y gellir eu hagor. Mae rheoliadau gorboethi yn dweud y dylai'r ffenestri aros ar agor, a'r rheoliadau acwstig yn datgan y dylent fod ar gau. Yn y gorffennol, rydym wedi gweld y dull hwn yn cael ei ddefnyddio i dicio'r blwch, ond nid yw'n dderbyniol os mai chi yw'r person sy'n byw yn y cartref ac sy'n gorfod dewis rhwng rhostio yn y nos neu gael sŵn traffig yn tarfu arnoch o hyd. Rôl y dylunwyr yw adnabod y diffygion yn y system a'u datrys, gydag atebion ymarferol sy'n cael eu harwain gan y dylunio, ac



nid manteisio ar y diffygion hyn a'r cymhellion croes a ddaw yn eu sgil.

Mae hyn o bosibl yn arwain at rôl bwysicaf dylunio da – eiriolaeth; lledaenu'r gair am ansawdd; annog, cefnogi, addysgu ac ysgogi eraill o ran goblygiadau gwneud penderfyniadau; tynnu sylw at y ffaith bod gwneud mwy na'r mymryn lleiaf yn gallu arwain at fanteision ehangach. Mae eiriolaeth yn dod â manteision o ran ansawdd a gwerth yn ei ystyr ehangaf. Mae'n arwain at ddyfeisgarwch ac adeiladwyedd, ac mae hyd yn oed yn gallu helpu i leihau costau. Mae'r dylunwyr mewn sefyllfa unigryw i gyfleu'r darlun ehangach – i weld cyfleoedd yn y meysydd llwyd rhwng disgyblaethau, er mwyn cael y gwerth a'r ansawdd gorau posibl.

Yn awr, yn fwy nag erioed, dylai eiriolaeth fod yn rhan flaenllaw o ddylunio. Ar adeg pan fo costau adeiladu'n cynyddu, greddf naturiol y diwydiant yw cael gwared ar bethau, yn enwedig yn ymwneud â'r amgylchedd. Ar adeg pan fydd angen i ni, fel pobl sy'n byw ar y blaned, wthio ein hunain ymhellach, yn uwch ac ymdrechu dros fwy, mae'n bosibl mai prin neidio dros y glwyd y gwnawn ni. Nid yw'r safonau'n datgan beth arall y gellid ei wneud y tu hwnt i'r isafswm, felly mae angen i eiriolaeth ddatgan yn glir ac yn uchel a gwrthio i hyrwyddo gwell rhinweddau amgylcheddol.

Ar hyn o bryd, mae dulliau amgen llwyddiannus ar gael sy'n ategu dull drwy safonau yn

unig; adolygu dyluniadau, adolygiad gan gymheiriaid, hyrwyddwyr dylunio ynghyd â chleientiaid gwybodus a chefnogol gyda briff sydd wedi'i ysgrifennu'n dda. Mae'r rhain i gyd yn fwy penodol i'r safle ac wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer y prosiect, ond mae angen lefel o onestrwydd, a phrofiad, er mwyn bod yn llwyddiannus. Fodd bynnag, maent yn hynod o anodd eu 'safoni', ac oherwydd hyn a'r syniad o oddrychedd, mae'n aml yn her perswadio'r sawl sy'n cadw llygad ar brosesau.

Felly, nid safonau dylunio yw'r unig elfennau sy'n barnu beth yw dylunio da, na rhagesiamplau nac estheteg ychwaith. Dylunio da sydd y tu ôl i'r cynnig llwyddiannus, yn y profion a ddangosir yn y diagramau, y naratif a'r archwiliadau; drwy'r adolygiadau a'r ddeialog ag eraill, a'r prosesau sydd wedi'u hadeiladu a'u defnyddio. Wrth ysgrifennu'r darn hwn, rwyf wedi ceisio mynd ati'n fwriadol i beidio â diffinio beth yw dylunio da mewn termau empirig a chaeth, oherwydd mae'n rhywbeth aneglur sy'n gweithio'n wahanol i wahanol ddylunwyr mewn gwahanol sefyllfaoedd. Oherwydd ei natur, mae ei gyfyngu drwy eiriau a rheolau yn ei wneud yn ddiflas ac yn llai llwyddiannus. Yn y pen draw, mae tri pheth yn perthyn i ddylunio da: Gall fod yn fyrhoedlog – fel arian byw i'w ddisgrifio; nid sut mae'n edrych a fydd yn bwysig; a phan fyddwn ni'n ei brofi, byddwn yn ei adnabod go iawn – byddwn yn ei deimlo.



Lle, diwylliant a hunaniaeth

32
**Gadael Gwales: Mynd i'r afael â dyfodol
treftadaeth Cymru mewn hinsawdd sy'n newid**
Efa Lois Thomas



Persbectifau—

36
**Mae cynhwysiant yn
hanfodol ar gyfer
treftadaeth fyw**
Stephen Anderson

40
**Cadernid cartrefi i wrthsefyll
yr hinsawdd – carbon,
cyfforddusrwydd a chymuned**
Lynne Sullivan

42
Lleoedd hudolus
Yr Athro Wayne Forster

Gadael Gwales: Mynd i'r afael â dyfodol treftadaeth Cymru mewn hinsawdd sy'n newid



Efa Lois Thomas BA MArch

Ymgynghorydd Lle Comisiwn Dylunio Cymru

'...Agori'r drws a wnaeth, ac edrych ar Gernyw, ac ar Aber Henfelen. A phan edrychodd, yr oedd yn gyn hysbysed ganddynt y gynifer colled a gollasent erioed, a'r gynifer câr a chydymaith a gollasent, a'r gynifer drwg a ddaethai iddynt, â phe bai'r pryd hwnnw a cyfarfyddai â hwynt...'

Yn ail gainc y Mabinogi, mae'r saith sy'n dychwelyd o'r rhyfel creulon a thrasig yn lwerddon yn treulio wyth deg o flynyddoedd ar ynys Gwales, lle nad yw amser yn treiglo. Nid ydynt yn heneiddio, ac nid ydynt yn gallu cofio eu gofidiau, nes bydd Heilyn fab Gwyn, sy'n chwilfrydig am yr hyn sydd y tu hwnt i'r drws, yn ei agor. Yna, daw eu hatgofion o'r gorffennol yn ôl, ac mae'n rhaid iddynt adael Gwales.

Er bod hyn yn ymddangos yn rhywbeth rhyfedd yn y 21ain ganrif, mae'n teimlo ar adegau ein bod ninnau hefyd yn byw ym myth a lleoliad hynafol Gwales. Mae'r argyfwng hinsawdd yn rhoi wrth y drws, ond rydym wedi rhewi, mewn anghrediniaeth bod hyn yn digwydd, a drwy ddiffyg gweithredu torfol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud datganiadau ynghylch argyfyngau hinsawdd a natur, ac wedi cyflwyno polisi a deddfwriaeth i helpu i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau angenrheidiol hynny. Beth arall allwn ni ei wneud i'n hysgwyrdd ein hunain a delio â'r hyn sydd y tu hwnt i'r drws? Sut ydym yn sicrhau nad ydym yn colli ein treftadaeth ddiwylliannol a phensaernïol, wrth wynebu llanw uwch, cynnydd mewn tymheredd, a digwyddiadau tywydd sydd fwyfwy eithafol? Sut y dylem ni fynd i'r afael ag etifeddiaeth bensaernïol Cymru – hanes go iawn – mewn hinsawdd sy'n newid? A sut gallwn ni fanteisio ar y cyfle a ddaw yn sgil defnyddio ac aildefnyddio treftadaeth adeiledig yn gynaliadwy pan fydd awydd i adeiladu o'r newydd?

Mae Cymru yn llawn hanes a threftadaeth, ond mae llawer ohono'n anweledig i'r rheini nad ydynt yn gyfarwydd â'r straeon. Etifeddiaeth ddiwylliannol yw pensaernïaeth – mae'n dweud wrthym am fywydau'r bobl a arferai fyw, ymlacio, gweithio ac addoli yn y lleoedd hyn. Mae'n gallu bod yn gofeb i ddiwydiannau a ffyrdd o fyw sydd wedi gadael y lle ers tro byd. Ond gallai hefyd gynnig cyfle ar gyfer y dyfodol.

Wrth i mi dyfu i fyny yng Ngheredigion,

roeddwn yn gyfarwydd â thirluniau o fythynnod segur a gweithfeydd mwyngloddio plwm a oedd wedi'u gwasgaru ar hyd rhannau o gefn gwlad. Wrth i mi ddod yn gyfarwydd â Chymoedd De Cymru, sylwais ar y coedwigoedd sy'n llawn o dynau calch a bythynnod segur. Mae'r rhain bellach yn gartref i dirweddau bioamrywiol enfawr sydd wedi datblygu i adennill yr hyn a ddifethwyd gan ddiwydiant. Mae straeon fel y rhain ar draws Cymru – straeon am dreftadaeth anghofiedig neu anghysurus.

Yn Henllan, y tu allan i Gastellnewydd Emlyn, mae cwt ag arwydd uwchben ei ddrws sy'n dweud 'Questa e la casa di Dio e la porta del cielo', neu, 'Dyma dŷ Duw, a phorth y nefoedd'. Yn yr 20fed ganrif, roedd yn safle gwerysll carcharorion rhyfel, a daeth y cwt hwn yn gapel, drwy ei drawsnewid gyda phaent llysiâu a ffrwythau, a gyda phulpudd a grëwyd â blychau'r Groes Goch. Dyma'r unig enghraifft o'r math hwn o adeilad ar dir mawr Prydain. Mae'r peth tebycaf at hyn i'w weld ar Ynys Orkney.

Byddai anwybyddu'r straeon hyn yn rhoi darlun anghyflawn i ni o'r gorffennol. Mewn gwlad sy'n llawn hanes, mae'r hanesion anghysurus hyn yn bwysig, gan eu bod yn dweud rhywbeth wrthym am beth yw Cymru. Heb ddiogelu'r adeiladau hyn, a'u hanes, ni allwn wir ddeall y gorffennol.

Er mwyn y pwysigrwydd diwylliannol y maent yn ei gynrychioli, mae'n hanfodol ein bod yn diogelu, yn hyrwyddo ac yn dehongli ein hasedau hanesyddol fel etifeddiaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, fel eu bod yn gallu profi hanes yn y lleoedd lle digwyddodd, a chysylltu â'u hanes ar lefel gorfforol, amserol, gofodol a chyffyrddol. Mae'r gwaith o ddiogelu dimensiwn diwylliannol y lleoedd a'r adeiladau sy'n adrodd ein straeon yn arwain at fanteision amgylcheddol gwirioneddol a mesuradwy eraill, ac mae angen ymateb technegol a diwylliannol.

Mae treftadaeth adeiledig yn cynrychioli cyfran fawr o'r amgylchedd adeiledig yn gyffredinol. Yn Ewrop ac ar draws y byd, mae safleoedd hanesyddol yn cynrychioli cyfran sylweddol o'r holl adeiladau sydd eisoes yn bodoli, ffactor a gydnabyddir ym Mhapur Gwyrdd Treftadaeth Ddiwylliannol Ewrop 2021. Mae Dr Antonia Gravagnuolo, aelod o'r grŵp cyngori arbenigol i **Europa Nostra** ac **ICOMOS** (Cyngor Rhyngwladol

ar Henebion a Safleoedd), sef y bartneriaeth a ysgrifennodd yr adroddiad, yn dadlau'n huawdl dros warchod treftadaeth fel elfen greiddiol o'u papur gwyrdd. "Gwarchod treftadaeth yw'r gwrthwyneb i ethos cymdeithas defnyddwyr o waredu pethau ar ôl eu defnyddio unwaith. Mae'n brwydro dros atgyweirio, defnyddio ac aildefnyddio adeiladau, tirweddau, gwybodaeth ac adnoddau sydd eisoes yn bodoli." Cefnogwyd y ddogfen gan Sefydliad Banc Buddsoddi Ewrop a rhaglen Ewrop Greadigol yr Undeb Ewropeaidd a oedd wedi gwahodd llunwyr polisïau, sefydliadau treftadaeth, gwyddonwyr hinsawdd, a gweithwyr amgylcheddol proffesiynol, i ddod ynghyd i roi'r dreftadaeth ddiwylliannol "wrth galon y Fargen Werdd Ewropeaidd". Mewn cyfnod o amryfal heriau ar draws y byd, o wrthdaro a newid yn yr hinsawdd, mae ymrwymiad a chydweithio o'r fath ar lefel genedlaethol a rhyngwladol yn hanfodol i lwyddiant ein holl lwybrau tuag at gael amgylchedd ac economi wedi'u datgarboneiddio, a thuag at ddiogelu, gwella a gwarchod ein diwylliant, lle gwelwn ein hystyr a'n hunaniaeth.

Mae dyfodol gwell yn bosibl, ond er mwyn cyrraedd yno mae angen i ni adael Gwales, a delio â chynaliadwyedd yn ymarferol ym mhob prosiect yn yr amgylchedd adeiledig drwy arferion technegol gwell a'r ymddygiad sy'n creu'r diwylliant angenrheidiol. Nid oes yr un o'r problemau a wynebwn yn newydd yn 2022. Mae'r Llywodraeth yng Nghymru wedi ymgorffori'r ymrwymiad ar gyfer datblygu cynaliadwy yn Neddf Llywodraeth Cymru, ac mae wedi bwrw ymlaen â deddfwriaeth a pholisïau tuag at gael Cymru sy'n fwy cynaliadwy a chyfrifol o ran yr hinsawdd ers datganoli. Mae'r Comisiwn Dylunio, un o fentrau tymor cyntaf y Llywodraeth honno, wedi hyrwyddo camau gweithredu hollbwysig ar ddatblygu cynaliadwy ac ar gyfer effeithiau ar yr hinsawdd ers ei sefydlu. Pam felly y dywedir ein bod yn dal i edwino yng Ngwales?

Y Dyfodol: Edrych tua'r Dyfodol

Yng Nghymru, mae gan hunaniaeth ei lle ymysg chwech o bileri Siarter Creu Lleoedd Cymru. Hebdi, heb yr hynodwydd hwn, gallai lle olygu unrhyw le – gallai lleoedd Cymru fod yn unrhyw le, neu yn unlle. Mae mynd i'r afael â hunaniaeth a diogelu ein diwylliant a'n hanes, wrth wynebu'r argyfwng hinsawdd, yn dipyn o gamp. Mae angen ymrwymiad i werth diwylliant a threftadaeth ynghyd ag elfennau ymarferol a thechnegol y gwaith adnewyddu ffisegol.

Mae'r amgylchedd adeiledig yn gyfrifol am oddeutu 40% o ôl troed carbon y DU (UKGBC, 2018),


ac mae 80% o'r adeiladau a fydd yn bodoli yn y DU yn 2050 eisoes wedi cael eu hadeiladu (UKGBC, 2018) – llawer ohonynt, mae'n siŵr, i safonau a fydd yn methu'n gynyddol â pherfformio'n ddigon da i fodloni safonau yn y dyfodol. Roedd gwaith adeiladu, dymchwel a chloddio wedi cynhyrchu tua tair rhan o bump (62%) o gyfanswm gwastraff y DU yn 2018 (Llywodraeth y DU, 2022). Wrth i'n hinsawdd newid yn barhaus, ac er mwyn lleihau carbon mewn modd ystyrlon, mae angen i ni roi blaenoriaeth i leihau gwastraff a chadw adnoddau. Mae hynny, yn anochel, yn golygu mwy o aildefnyddio yn lle dymchwel.

Rai blynyddoedd yn ôl, fel rhan o fy thesis MArch, ystyriais sut y gallem fynd ati'n well i ddylunio, aildefnyddio ac adnewyddu'n gynaliadwy mewn prosiectau treftadaeth hanesyddol yng Nghymru, drwy fethodoleg sy'n gorgyffwrdd â chamau gwaith RIBA 0-7, yn seiliedig ar ymchwil gan nifer o gyrrff treftadaeth, Green Overlay RIBA (2013), a gwaith Sofie Pelsmakers, cyd-sylfaenydd *Architects for Change* ac awdur *Environmental Design Pocket Book* 2012 a 2015.

Ar lefel ymarferol, wrth fynd ati i addasu adeilad hanesyddol sydd eisoes yn bodoli, mae angen dechrau gyda 'Deall yr Adeilad' (RIBA Camau 0-1); sut mae'n berthnasol i'w gyd-destun – y dirwedd



Mae dyfodol gwell yn bosibl, ond er mwyn cyrraedd yno mae angen i ni adael Gwales, a delio â chynaliadwyedd yn ymarferol ym mhob prosiect yn yr amgylchedd adeiledig drwy arferion technegol gwell a'r ymddygiad sy'n creu'r diwylliant angenrheidiol.



gyfagos, y microhinsawdd a'r macrohinsawdd, ac ymchwilio i fynediad, y defnydd presennol o ddeunyddiau, cyfeiriad y prifwyt, bioamrywiaeth ar y safle, sŵn, a faint o haul mae'r adeilad yn ei gael. Dylai hyn wedyn gael ei ddilyn gan asesiad o gyflwr ac ansawdd yr adeilad neu'r strwythur presennol, a dadansoddiad o gyffordduswydd thermol yr elfennau hynny.

Nesaf, daw 'Gosod Amcanion a Gwelliannau Cynllunio' (Camau 2-3 RIBA), gan nodi mesurau sy'n debygol o fod yn briodol er mwyn integreiddio unrhyw elfennau dylunio neu dechnoleg newydd i adeiledd presennol yr adeilad. Hefyd, ar y cam hwn, dylai dylunwyr ystyried mentrau gwyrddu i addasu microhinsawdd y safle, yn ogystal â chynllunio ar gyfer cynhesrwydd, cyfforddusrwydd, defnydd yr adeilad, a phatrymau meddiannaeth.

Nesaf, mae 'Dadansoddi Adeiledd Adeiladau sydd eisoes yn Bodoli' (Cam 4 RIBA) yn mynd i'r afael â'r gofynion ar gyfer pennu unrhyw ddeunyddiau a chynhyrchion adeiladu newydd. Mae'n rhaid nodi'r rhain yn glir er mwyn sicrhau na fydd dewisiadau amgen o ansawdd is yn cael eu defnyddio. Ar yr un pryd, dylid asesu unrhyw ddeunyddiau newydd i weld a ydynt yn gydnaws ag adeiledd yr adeilad presennol er mwyn ceisio lleihau drafftiau a lleihau'r risg o anwedd a llwydni. Roedd y cam hwn yn tynnu sylw hefyd at y ffaith bod cleientiaid a thimau dylunio yn elwa o chwilio am y contract adeiladu mwyaf priodol er mwyn sicrhau bod y gwaith adeiladu o'r ansawdd gorau posibl.

Cam 4 (Cam 5 RIBA) yw 'Adeiladu', ac mae'n nodi y byddai pob gosodwr wedi cael digon o hyfforddiant ac yn meddu ar arbenigedd digonol i gyflawni prosiect cynaliadwy. Mae hefyd yn awgrymu y dylid coladu dogfennau 'fel yr adeiladwyd' er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer gwaith gofal a chynnal a chadw yn y dyfodol.

Mae Cam 5 'Ar ôl Symud i Mewn ac Awyru' (Cam 6 a 7 RIBA) yn awgrymu bod cyngor ynghylch awyru a'i bwysigrwydd yn cael ei roi i breswylwyr yr adeilad i ddatblygu dealltwriaeth o sut mae'r adeilad yn gweithio. Mae'n awgrymu y dylai archwiliadau

gael eu cynnal bob blwyddyn er mwyn chwilio am arwyddion o ddatfeliad, llwydni neu anwedd ar unrhyw welliannau i'r adeiledd, yn ogystal â chynnal gwerthusiadau ar ôl symud i mewn.

Beth bynnag yw'r gorgyffwrdd, ac er gwaethaf camau RIBA sy'n cael eu cydnabod a'u dyfynnu'n eang – nid oes bron dim o'r uchod yn cael ei gyflwyno ym mhrofiad Comisiwn Dylunio Cymru o ail-ddefnyddio ac adnewyddu, ac eithrio yn achos y safle a'r adeilad mwyaf arwyddocaol yn yr hyn y gellid ei alw yn ein 'hystâd ddiwylliannol'. Mae i adeiledd hanesyddol, diwylliannol a threftadaeth ystyr sy'n aml yn arwyddocaol iawn y tu hwnt i'w statws 'rhestru' swyddogol. Mae'n rhan o wead lle ac mae iddo fwy o arwyddocâd cymdeithasol a diwylliannol i gymunedau nag y mae ei statws cydnabyddedig yn ei awgrymu. Rhaid cael newid technegol yn y ffordd y caiff arferion dylunio ac adeiladu eu rhoi ar waith mewn safleoedd o'r fath er mwyn sicrhau ymddriniaeth briodol. Ond rhaid iddynt hefyd newid 'yn ddiwylliannol' er mwyn cydnabod gwerth cymdeithasol ac amgylcheddol adeiledd hanesyddol arbennig i gymuned, ac i le.

Mae 7 Nod Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys 'Cymru Lewyrchus: Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd)... a 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu: 'Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg...'

Drwy edrych ar ein treftadaeth gyda golwg ar y dyfodol a'r tymor hir, gallwn sicrhau y gall cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru brofi eu hanes yn y fan a'r lle, a gallwn ddarparu treftadaeth bensaernïol iddynt sy'n agoriad llygad ac yn wydn.

Yn gynharach yn ail gainc y Mabinogi, cyn i'r saith a oroesodd ddychwelyd o Iwerddon, cawn ein cyflwyno i'r 'Pair Dadeni', sef pair lle daw'r meirw yn fyw unwaith eto. Drwy edrych ar ein treftadaeth fel hyn, efallai y gallwn sicrhau bod asedau diwylliannol ar hyd a lled Cymru yn cael eu hail-eni, a'u bod yn adrodd straeon pawb, a'u bod yn esbonio cymhlethdodau'r straeon hynny, yn hytrach na mawrygu syniad chwedlonol o Gymru ag un dimensiwn yn unig.

¹ (T.H. Parry Williams - p56-7 - *Pedair Cainc Y Mabinogi: Chwedlau Cymraeg Canol*, 1947)

Mae cynhwysiant yn hanfodol ar gyfer treftadaeth fyw



Stephen Anderson BA(Anrh) BArch PGDip RIBA
Cyfarwyddwr, Buttress Architects

Ein treftadaeth adeiledig yw gwaddol diwylliannol mwyaf sylweddol ein cyndeidiau. Mae'n llwyddo i fod yn rhywbeth rhyfeddol ac yn rhywbeth arferol bob dydd. Mae'n cynnwys llwybrau ac adeiladau cyfarwydd rydym yn cerdded heibio iddynt ar ein teithiau dyddiol; presenoldeb cysurus a chyson, neu safleoedd rydym yn ymweld â nhw unwaith mewn oes ac yn eu gadael gydag ymdeimlad parhaol o syndod a rhyfeddod. Mae ein treftadaeth adeiledig hefyd yn adnodd y mae pen draw iddo, adnodd sy'n cael ei werthfawrogi gan gymdeithas, ac felly mae angen stiwardiaeth gyson i sicrhau ei fod yn parhau er lles cenedlaethau'r dyfodol. Fodd bynnag, rhaid i ni gofio nad rhywbeth i'w gynnal a'i gadw yn unig yw'r gwaddol diwylliannol hwn, fel cynnwys jar gwydr mewn amgueddfa. Wrth i ni edrych ymlaen at y degawd nesaf, mae angen i ni nodi pa gyfleoedd sydd ar gael i ni wella ein treftadaeth adeiledig fel yr endid byw ag y mae, sy'n anadlu ac yn datblygu.

Mae'n amlwg bod heriau i'w goresgyn os ydym am gael y manteision mwyaf a ddaw yn sgil gwella ein treftadaeth adeiledig. O ystyried cyflymder y newid yn y byd ar hyn o bryd, bydd y 10 mlynedd nesaf yn cynnwys bygythiadau a rhwystrau na allwn eu rhagweld eto. Ond, ymhlith y rheini sy'n amlwg heddiw, mae prinder capasiti ar draws y sector treftadaeth adeiledig, dim digon o gyllid, a diwydiant datblygu eiddo sy'n dod yn fwyfwy safonol, mwy modiwlaid ac yn gogwyddo mwy o blaid adeiladu o'r newydd. Yn ogystal â hyn, ceir fframwaith deddfwriaethol sy'n feichus ar y gorau, a'r dylanwad y bydd newid yn yr hinsawdd yn ei gael ar y ffordd rydym yn mynd ati i addasu ein treftadaeth adeiledig mewn byd sy'n datgarboneiddio.

Bydd sicrhau bod ein treftadaeth adeiledig yn cael ei gwarchod yn ogystal â chael ei gwella, yng nghyd-destun yr heriau hyn, yn profi ein gallu creadigol i'r eithaf – ond mae'r blociau adeiladu yno. Yn gyntaf, rydym yn cydnabod bod angen adfywio canol pentrefi, trefi a dinasoedd ledled Cymru, fel mewn manau eraill, yn wyneb patrymau defnydd sy'n newid, ymddygiad defnyddwyr, ac o ganlyniad i'r gwasanaethau maent yn eu cynnig. Fodd bynnag, mae aildefnyddio, adnewyddu ac

ailddyfeisio ein treftadaeth adeiledig â'r potensial i chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith adfywio hwn.

Yn aml, treftadaeth adeiledig lle yw'r hyn sy'n mynegi'n fwyaf amlwg ei natur unigryw, ei chyfoeth diwylliannol, a'i hunaniaeth. Mae ei wella yn cryfhau'r natur unigryw honno ac yn helpu i fynegi'n well yr elfennau a allai fod yn unigryw. Mae hyn yn helpu pob lle i wrthryfela yn erbyn unfurffedd a chystadlu'n lliwgar mewn byd sy'n aml yn gallu bod yn unlliw. Mae'n golygu y gall y cymunedau weld lleoedd o'r newydd; gallant ailgynnu cysylltiadau sy'n helpu i sbarduno ac adnewyddu'r ymdeimlad o ofal, balchder a pherchnogaeth – y cyfan yn cyfrannu at ffyrdd y gall lleoedd ffynnu.

Mae gwaith dur John Summers yn Shotton yn un enghraifft o'r fath. Mae yna adeilad llawn cymeriad o frics a terracotta mewn lleoliad amlwg ar Afon Dyfrdwy, 'Tŵr y Cloc' fel y'i gelwir yn lleol, ac mae wedi cydio yn nychymyg y gymuned. Mae gan lawer o bobl leol atgofion o weithio ar y safle ac ymweld â'r adeilad; mae eu cysylltiad yn hynod o ystyrlon iddynt fel unigolion ac fel cymuned. Dros y blynyddoedd, fodd bynnag, mae wedi bod yn wag ac wedi mynd â'i ben iddo. Diolch i grŵp ymroddedig o wirfoddolwyr lleol, mae ei lwc bellach yn dechrau newid. Sicrhawyd cyllid sylweddol fel bod yr adeilad yn cael ei ddefnyddio eto fel adnodd cymunedol a chyfleuster hyfforddi. Mae ceisiadau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd am ragor o gyllid i sicrhau ei fod yn cael ei adnewyddu'n llwyr. Mae'r stori hon i'w gweld dro ar ôl tro ledled Cymru, gyda phob llwyddiant yn dangos y rôl gadarnhaol y gall treftadaeth adeiledig ei chwarae o ran adeiladu cymunedau a lleoedd llwyddiannus.

Daw'r ail gyfle o sefydliadau diwylliannol cryf Cymru sy'n buddsoddi'n ystyrlon mewn treftadaeth adeiledig. Rôl sefydliadau a chyrrff diwylliannol Cymru dros y 10 mlynedd nesaf fydd parhau i ofalu am dreftadaeth ar ran gymdeithas a chenedlaethau'r dyfodol, yn ogystal â pharhau i arloesi, arbrofi ac archwilio pob agwedd ar ofalu am y dreftadaeth honno, ei defnyddio a'i hailddyfeisio. Gall pob un o sefydliadau diwylliannol Cymru chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o wella a chefnogi balchder unigolion a chymunedau, yr ymdeimlad o hunan hyder a hyder y gymuned. Mae'r sefydliadau diwylliannol

Yn ystod y 10 mlynedd nesaf, tybed a fyddwn wedi cyrraedd pwynt lle mae mynediad i'n treftadaeth adeiledig – yn ei holl ffurfiau – ar gael i bawb?



hyn eisoes yn uchelgeisiol ac abl, felly mae sicrhau bod ganddynt y bobl, y sgiliau a'r cyllid i wireddu eu dyheadau a photensial y dreftadaeth adeiledig yn eu gofal yn elfen strategol angenrheidiol bwysig. Gyda'r adnoddau hynny, byddant yn gallu defnyddio treftadaeth adeiledig yn well i adrodd straeon Cymru mewn ffordd sydd hyd yn oed yn fwy grymus, gan ddysgu'r genedl am ei gwreiddiau diwylliannol.

Felly, rhaid i'n treftadaeth adeiledig fod ar gael i'r ystod ehangaf bosibl o bobl. Mae hyn yn fwy na dim ond meddwl am fynediad corfforol; mae'n golygu mynd ati'n rhagweithiol i geisio bod yn berthnasol i bawb. Mae'n gofyn am ail-werthuso ac ail-adrodd straeon a hanesion sy'n mynd y tu hwnt i ymdeimlad o'r gorffennol fel rydym ni wedi dod i'w adnabod.

Yn ystod y 10 mlynedd nesaf, tybed a fyddwn wedi cyrraedd pwynt lle mae mynediad i'n treftadaeth adeiledig – yn ei holl ffurfiau – ar gael i bawb? Yn ymarferol, mae hyn yn golygu goresgyn amrywiaeth o broblemau, gan gydnabod yr amrywiaeth eang o randdeiliaid sy'n dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau a'r fframweithiau y maent yn gweithredu ynddynt ar hyn o bryd, yn ogystal â newid seismig o ran sut rydym yn meddwl am gynhwysiant a threftadaeth ochr yn ochr. Treftadaeth pwy ydyw, beth bynnag?

Mae modd defnyddio enghraifft ddiweddar o'n gwaith yng Nghastell Caernarfon. Dechreuodd y gwaith yn 2016 fel prosiect uchelgeisiol i wella mynediad a phrofiad ymwelwyr i Borth y Brenin,

un o'i elfennau pwysigaf yn hanesyddol. Mae'r castell yn ysgogi emosiynau cymysg, yn gaer 'Seisnig' mewn tref lle mae hunaniaeth Gymreig yn arbennig o gryf. O ganlyniad, mae'n adeilad â'r gallu unigryw i gefnogi trafodaeth gadarnhaol a heriol sy'n ymwneud â hunaniaeth Gymreig. Mae gwella mynediad corfforol yn dwyn manteision enfawr i'r cyhoedd, yn galluogi'r ystod ehangaf bosibl o bobl i grwydro'r Safle Treftadaeth y Byd hwn, gan roi bywyd i'r straeon y gall Castell Caernarfon yn unig eu hadrodd drwy ei waliau na chafodd byth eu cwblhau. Roedd angen i'n timau dylunio ac adeiladu a'r cleient, fel ei gilydd, ddangos dycnwch, dyfeisgarwch ac arloesedd er mwyn cyflwyno ymyriadau mawr o'r fath yng nghyd-destun safle Treftadaeth y Byd. Ond, y tu hwnt i'r ymyriad corfforol hwn, mae'r ddadl a'r drafodaeth gyfoethog a gwerthfawr ymysg rhanddeiliaid ynghylch perthnasedd ac ystyr i gymuned ehangach a mwy amrywiol o ddefnyddwyr a chynulleidfaoedd a lywiodd ac a siapiodd ein hystyriaethau drwy gydol y broses.

Mae'r hyn rydym wedi'i ddysgu ac yn parhau i'w ddysgu am gynulleidfaoedd a'u cysylltiadau â lleoedd a threftadaeth yn hanfodol er mwyn i'r 'ystâd ddiwylliannol' ledled Cymru gyflawni ei photensial. Wrth i'n dealltwriaeth o gynulleidfaoedd fynd yn fwy cynnil byth, gallwn ddod o hyd i ffyrdd gwell o adrodd straeon. Yng Nghaernarfon, mae defnyddio comisiynau celf greadigol hefyd wedi caniatáu cyfranogiad go iawn wrth siapio straeon ac wedi



Mae treftadaeth adeiledig yn un o gerrig sylfaen hunaniaeth ddiwylliannol.

arwain at ddull sy'n procio'r meddwl at naratif hanesyddol ac adrodd straeon sy'n berthnasol iawn ar adeg pan rydym fel cymdeithas wedi ein hollti a'n rhannu fwy nag ar unrhyw adeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae dod at ei gilydd i holi, dadlau ac ailystyried wedi cael ei alluogi gan yr hyn y gellid ei ystyried, ar un lefel, fel pentwr o hen gerrig – ond ar un arall, gan eicon unigryw a diamheuol o dreftadaeth adeiledig Cymru. Mae wedi dod yn sbardun pwerus ar gyfer creadigrwydd, cydweithio a chynhwysiant rhwng ein sefydliadau diwylliannol a'r rhai sy'n eu cefnogi.

Mae treftadaeth adeiledig yn un o gerrig sylfaen hunaniaeth ddiwylliannol. Mae synnwyr clir o hunaniaeth yn rhoi hyder. Gallwn ddeall a dysgu gwersi o'r gorffennol, sy'n galluogi cymdeithas i wynebu'r dyfodol gyda hunan-gred ac optimistaeth. Boed hyn yn ymwneud â'n hamgylcheddau bob dydd a'r dreftadaeth adeiledig sy'n eu gwneud yn unigryw, gan gyfrannu at gymunedau cydlynus a chadarn, neu'n ymwneud â'r asedau treftadaeth hynny sy'n adrodd straeon o bwys rhyngwladol ac yn codi cwestiynau, gan wahodd chwilfrydedd, dysgu ac ymgysylltiad gwirioneddol. Rhaid i'r gwaith o wella'r asedau hynny mewn ffordd sy'n sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn hygyrch i bawb fod yn amcan strategol cenedlaethol dros y 10 mlynedd nesaf. Nid mater hawdd yw cyflawni hyn, ond mae'r manteision yn fawr, ac mae creadigrwydd di-ben-draw cymunedau Cymru yn dangos eu bod yn barod am yr her ac y byddant yn sicr yn manteisio i'r eithaf ar y cyfle.

Lynne Sullivan OBE BA(Anrh), DipArch RIBA
Cadeirydd, Good Homes Alliance; Llysgennad
RIBA ar Newid yn yr Hinsawdd 2017

Athro Gwadd, Ysgol Pensaerniaeth ac
Amgylchedd Adeiledig Scott Sutherland,
Prifysgol Robert Gordon 2015-2019;

Aelod o banel Adolygu Dylunio Comisiwn
Dylunio Cymru

Mae gan Gymru harddwch naturiol eithriadol, ac adnoddau cyfoethog – a ddiodefodd gam-fanteisio yn y gorffennaf ar gyfer ynni a gweithgynhyrchu - ond nid yw Cymru ar ei phen ei hun wrth wynebu posibilrwydd dinistriol newid hinsawdd na ellir ei ddadwneud, ynghyd â'r effeithiau ar ddewisiadau ffordd o fyw. Dyma felly pam mae angen mynd i'r afael ar frys â gofynion cadernid rhag yr hinsawdd. Yn y 2030au bydd adeiladau sy'n perfformio'n wael yn cael eu gwahardd, a bydd costau ynni a dŵr yn gosbol - felly sut allwn integreiddio bywyd da i genedlaethau'r dyfodol yng Nghymru mewn modd priodol yn ein penderfyniadau dylunio a datblygu yn awr yn 2022? Er bod seilwaith dŵr a phŵer gwynt wedi'i breifateiddio i raddau helaeth, y brif strategaeth ar gyfer delio â phrinder byd-eang yw lleihau'r galw am ynni.

Oherwydd priodoleddau naturiol Cymru gallai gael safle arweiniol y byddai gweddill y DU yn genfigennus ohono. Mae Comisiwn Dylunio Cymru wedi hyrwyddo pŵer dylunio yn ei ystyr ehangaf ers tro - meddwl arloesol, cyfrifoldeb cymdeithasol, ymwybyddiaeth ynni – mae'r rhain yn gyfuniad




Cadernid cartrefi i wrthsefyll yr hinsawdd – carbon, cyfforddusrwydd a chymuned.

grymus. Fodd bynnag, mae dull dan arweiniad y farchnad o ymdrin â seilwaith adnoddau wedi arwain at danamcangyfrif cadernid hirdymor mewn economeg datblygu. Felly, yn hanesyddol, mae arweinyddiaeth yn yr agenda cynaliadwyedd, a'r dull adfywiol o ddatblygu, wedi'i gyfyngu i achosion unigol o arweinyddiaeth a rhagwelediad, tra bod datblygwyr y brif ffrwd yn cyflwyno fersiwn o fathau o dai yn y DU yn ôl cyllidebau. Ond os yw adeiladau newydd yng Nghymru sy'n defnyddio adnoddau prin yn ddoeth yn gallu dangos sut mae arbed dŵr, deunyddiau cynaliadwy a lleihau'r angen am ynni (adnewyddadwy) yn elfennau craidd mewn strategaeth cydnerthedd hirdymor, yna mae hyn o bosibl yn cyfrannu at gryfderau economi Cymru yn y dyfodol.

Mae dadansoddiad wedi dangos bod pedwar ar ddeg o archdeipiau gyda'i gilydd yn cynrychioli 84% o stoc tai Cymru. Er bod yr ymchwil hwn wedi'i sbarduno gan ymgyrch ganmoladwy tuag at y dull gorau o ymdrin ag ôl-osod ar gyfer datgarboneiddio – mae'n codi'r cwestiwn ynglŷn â chael archdeipiau cadarn newydd ar gyfer Cymru Sero Net. Beth ddylen nhw fod, sut y gallant nodweddu dyluniad da wrth gefnogi ffyrdd cynaliadwy ac iach o fyw, gyda'r dirwedd a'r agweddau hygyrchedd ar greu lleoedd. Gellid cyfuno ffurfiau tai syml cryf â chreu lleoedd a thir cyhoeddus cadarn - gan gydnabod bod cyd-destun gwyrdd yn gweithio ar gyfer oeri microhinsawdd, dal a storio carbon, llwybrau cerdded a beicio dymunol, lleihau ynni adeiladu a galw am ddŵr, a bioamrywiaeth adfywiol. Rwy'n awgrymu bod hyn yn arwyddocaol iawn o ran diwylliant: cydnabod lleoliad naturiol amlwg iawn, a blaenoriaethu 'cyfalaf' cymuned cymdogaeth. Yr hyn sy'n gwneud gwaith amgylchedd adeiledig yr 2020au yn wahanol yw dull soffistigedig o adeiladu lleihad yn y galw am ynni – sef arbenigedd sawl sefydliad academaidd yng Nghymru – gan gydnabod y potensial ar gyfer cadernid thermol o ran perfformiad ffabrig o ansawdd, yn ogystal â lleihau ôl troed carbon adeiladwaith drwy ddefnyddio adnoddau lleol fel pren wedi'i dyfu'n gynaliadwy.

Mae'r cynnydd trychinebus ym mhrisiau ynni eleni, a'r profiadau dinistriol y sgil newid yn yr hinsawdd, yn arwain at newid mawr ym mlaenoriaethau pobl sy'n prynu tai. Erbyn hyn, mae effeithlonrwydd ynni a biliau isel yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth gan oddeutu tri chwarter y perchnogion preswyl-prynwyr, ac yn amlwg rhentwyr. Gall Cymru arwain y gwaith o hyrwyddo

Mae'r cynnydd trychinebus ym mhrisiau ynni eleni, a'r profiadau dinistriol y sgil newid yn yr hinsawdd, yn arwain at newid mawr ym mlaenoriaethau pobl sy'n prynu tai.



math o dai sy'n effeithiol o ran lleihau carbon ac ar gyfer cyfforddusrwydd y preswylwyr. Mae Rhaglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru yng Nghymru eisoes wedi dechrau ar rywfaint o'r gwaith hwn ond mae angen llawer mwy i wireddu mwy na dim ond addasu mathau derbyniol o dai a chofnodi gwerth dylunio ar gyfer lle a chymdogaeth, fel y mae eu Comisiwn Dylunio eu hunain wedi'i fynegi. Mae cartrefi a adeiladwyd gan landlordiaid arloesol yn y DU wedi dangos bod safonau ynni isel fel Passivhaus yn denu premiwm prynwyr – cynnydd o hyd at 10% mewn gwerth gwerthu – felly yng nghyd-destun buddsoddi ar gyfer cadernid hirdymor, mae hyn yn rhoi gwerth sicr. Y cwestiwn yw sut y mae'n edrych ac yn teimlo, pa mor dda yw lle i bobl fyw eu bywydau cyfan, pa mor dda y mae'n diwallu eu hanghenion, a dyna lle mae cryfderau Comisiwn Dylunio Cymru, o ran mynegi ac eirioli gweledigaeth gyflawn bwerus.

Yr Athro Wayne Forster BSc(Anrh) BArch (Rhagoriaeth) PhD, RIBA

Yr Athro Pensaerniaeth a Dirprwy Bennaeth Ysgol, Ysgol Bensaerniaeth Cymru, Prifysgol Caerdydd

'Mae pob safle yn gasgliad o rymoedd lleol dros amser, felly rhaid i unrhyw ymateb dylunio arwyddocaol mewn rhyw ffordd ddehongli, ymestyn a chynyddu'r potensial hwn yn ei gyd-destun penodol. Yn wahanol i ddulliau cyffredinol ac arddulliol o ddylunio, mae Corner yn gofyn am wreiddioldeb dyfeisgar mewn perthynas ag amgylchiadau penodol.' <https://www.archdaily.com/516847/from-the-landscape-imagination-james-corner-s-essay-on-the-high-line>

Yn yr ysgrif hon, rhoddir croeso i osod y gwaith o greu lleoedd yn ganolog mewn polisi cynllunio ac i'r defnydd o astudiaethau cyd-destunol i gefnogi greu lleoedd yn ymarferol, ond cwestiynir effeithiolrwydd yr astudiaethau hyn yn ymarferol, a thrwy gyfeirio at waith James Corner¹, caiff dulliau mwy dychmygus ac 'optimistaidd' o fapio a chynrychioli'r safle eu hyrwyddo, fel bod y canlyniadau'n cyfrannu at ganlyniadau dylunio a chreu lleoedd.

Mae greu lleoedd bellach yn rhan ganolog o bolisi cynllunio cenedlaethol Cymru, ac mae mwy



na 112 o sefydliadau wedi ymrwymo i Siarter Creu Lleoedd Comisiwn Dylunio Cymru, a gomisiynwyd ganddynt gan Lywodraeth Cymru.²

Fel y dywed Norberg Schulz *'Mae pensaerniaeth yn golygu delweddu anian y lle, a thasg y pensaer yw creu manau ystyrion trwyddynt y mae'n helpu dyn i fyw drwyddynt.'*³ Creu lleoedd bywiog a nodweddiadol yw'r nod yn hytrach na'r lleoedd gwag generig safonol yn yr amgylchedd adeiledig sy'n gwanhau hunaniaeth lleoedd i'r pwynt lle maent yn edrych ac yn teimlo fel ei gilydd, ac yn cynnig yr un posibiliadau di-liw ar gyfer profiad byw.

Yn yr ysgrif hon, ystyr 'lle' yw'r ffyrdd arbrofol a mynegiannol o adnabod, dychmygu, dal,

Lleoedd hudolus



cofio, dweud, byw, herio a brwydro dros leoedd. Y porth i ddylunio llwyddiannus o ran cynllunio, yw creu lle. Mae Polisi Cynllunio Cymru'n datgan *'Rhaid i bawb sy'n ymwneud â'r system gynllunio yng Nghymru neu sy'n gweithredu o fewn y system honno groesawu'r cysyniad o greu lleoedd wrth baratoi cynlluniau a gwneud penderfyniadau rheoli datblygu er mwyn creu manau cynaliadwy a gwella llesiant cymunedau.'*⁴

Mae ei Nodyn Cyngor Technegol 12 (TAN 12): Dylunio yn datgan na ddylid derbyn dyluniad sy'n amhriodol yn ei gyd-destun, neu sy'n methu â manteisio ar gyfleoedd i wella cymeriad, ansawdd a swyddogaeth ardal, gan fod y rhain yn cael effaith andwyol ar gymunedau presennol.⁵

Carreg sylfaen polisi cynllunio creu lleoedd da, yw defnyddio astudiaethau cyd-destunol. Pan wneir cais cynllunio, mae'n bwysig bod y deunydd a gyflwynir yn cyfleu'n glir ac yn gryno beth yw'r broses o ddadansoddi'r safle a sut mae wedi cyfrannu at y dyluniad. Gallai hwn fod yn gam pwysig ymlaen. Ond a yw creu lleoedd yn cael ei drin yn ymarferol fel rhywbeth ychwanegol? Hyd yn oed pan fydd y dadansoddiad yn cael ei wneud, mae'n aml yn aros yn anweledig.

Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn nodi bod cryn dipyn o sylwadau fel *'...wel, rydyn ni'n gwneud y gwaith yma ac fe wnawn ni greu lleoedd wedyn'* – neu *'mae gennym ni gyllideb ar gyfer creu lleoedd hefyd'*...⁶ Mae'r diffiniad o le a roddir uchod yn canolbwyntio mwy ar agweddau ar brofiad dynol neu annedd nag ar werth y safle. Mae James Corner, dylunydd Highline Efrog Newydd, yn feiriadol o ddulliau mapio a dadansoddi confensiynol, ac mae'n rhybuddio rhag dibynnu ar ddull empirig yn unig sy'n credu y bydd strwythur-ffeithiau cynhwysfawr a gwrthrychol yn arwain at synthesis rhesymegol.

Mae Corner yn defnyddio mapio fel elfen ganolog o brosesau dylunio creadigol a dychmygus lle mae swyddogaeth offerynnol mapio yn arbennig

o bwysig – mewn byd lle mae'n mynd yn fwyfwy anodd dychmygu, ac mewn gwirionedd, greu unrhyw beth y tu allan i'r normadol. Byddai arddel syniadau Corner yn golygu y byddai technegau mapio (dadansoddi safle) yn cynnwys ffyrdd mwy damcaniaethol o fapio a chynrychioli, gyda'r bwriad o greu perthynas fwy agos ac ystyrion â lleoedd.

*'Yn yr ystyr gyfranogol hon y gall technegau newydd a damcaniaethol o fapio gynhyrchu ymarferion newydd o greadigrwydd, ymarferion a fynegir nid wrth ddyfeisio ffurf newydd ond wrth ddiwygio'r hyn a roddir eisoes. Drwy ddangos y byd mewn ffyrdd newydd, gall atebion ac effeithiau annisgwyl ddod i'r amlwg.'*⁷

Yn gryno, a yw astudiaethau cyd-destunol yn rhan annatod o ganlyniadau dylunio? All y tim dylunio ateb y cwestiwn 'beth yw'r ots'? Os felly, yn hytrach na'r diagramau haniaethol a'r ddemograffeg arferol yn unig, byddai astudiaethau cyd-destunol yn cynnwys (gan fenthycu rhai o egwyddorion mapio dwfn a gwaith disgyblaethau creadigol eraill)⁸ graen a phatina lle, drwy gyfod a chyd-dreiddio'r hanesyddol a'r cyfoes, y gwleidyddol a'r barddonol, yr ymresymiadol a'r synhwyrus; drysu tystiolaeth lafar, blodeugerdd, cofiant, bywgraffiad, hanes naturiol a phopeth y gallech chi erioed fod eisiau ei ddweud am le...⁹. Yn hollbwysig, bydd y gwaith cyd-destunol yn ddarlleniad mwy empathig o'r safle a bydd yn 'sgwrs yn hytrach nag yn ddatganiad'.¹⁰

1 James Corner The Agency of Mapping: Speculation, beirniadu a dyfeisio yn nychymyg y dirwedd. Collected essays of James Corner 1900-2010 pps 197-240

2 <http://dcfw.org/the-placemaking-wales-charter/>

3 Christian Norberg Schulz Genius Loci Towards a Phenomenology of Architecture t5

4 Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 | Chwefror 2021 t12

5 TAN 12: Dyluniad, Llywodraeth Cymru, para 2.6 t7

6 <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-09/site-context-analysis-guide.pdf>

7 Speculation, Critique, and Invention in The Landscape imagination In Mappings ED Denis Cosgrove p217

8 Map As Art: Contemporary Artists Explore Cartography Paperback – 2010 gan Katharine Harmon (Golygydd)

9 Mike Pearson and Michael Shanks, Theatre/ Archaeology (Routledge 2001) tudalen 64-65

10 Y degfed egwyddor a'r olaf yn '10 things I can say about deep maps' Cliff Mc Lucas. Gweler <https://web.stanford.edu/~mshanks/MichaelShanks/51.html>



Gweledigaeth, gwerth a darparu ar gyfer y dyfodol

Persbectifau—

46
Dinas mewn tirwedd
Steven Smith

50
**Diwylliant, cymuned, gallu –
trawsnewidiad o fewn cyrraedd**
David Anderson

54
**Asesu'r anniriaethol:
heriau cyfochrog wrth
werthuso diwylliant a natur**
David Clubb

60
**Wynebu'r dyfodol:
ymchwil ac addysgu yn
Ysgol Pensaernïaeth Cymru**
Yr Athro Juliet P. Davis

62
**Rhaid i ddylunio da fod
yn rhan o'n hachubiaeth**
Geraint Talfan Davies



Dinas mewn tirwedd

Steven Smith BA (Anrh) Dip Arch RIBA

Cyfarwyddwr, Urban Narrative

Aelod o banel Adolygu Dylunio Comisiwn Dylunio Cymru

Cyngorydd Comisiwn Dylunio Cymru, Cefnogi Cleientiaid

Beth sy'n dod i'r meddwl pan fyddwn yn meddwl am Gymru? I rai, y bobl a'r iaith Gymraeg. I eraill, efallai mai tirweddau tyner y mynyddoedd, y dyffrynnoedd a'r arfordir. Mae dinasoedd a threfi'n annhebygol o ddod i'r meddwl – sy'n baradocs oherwydd mae realiti economaidd Cymru, fel realiti'r gwledydd mwyaf datblygedig, yn seiliedig ar ei chanolfannau trefol. Efallai y gellid disgrifio Cymru fel gwlad o drefolwyr amharod – wedi'n tynnu gan ein gwaith at fywyd economaidd dinasoedd a chan ein dychymyg at hyfrydwch byd natur.

Mae hanner pobl Cymru'n byw yn ei chornel ddedwyreiniol, gan lenwi trefi a phentrefi yn y cymoedd neu'r gwastatir arfordirol sy'n agos at brifddinas y wlad. Mae'r gwaith a wneir gan Gomisiwn Dylunio Cymru yn adolygu dyluniadau, ymgynghori a chefnogi cleientiaid yn darparu trosolwg unigryw o weithgarwch datblygu yn y maes hwn. O'r safle breintiedig hwn, mae themâu prosiectau cyffredin a phatrymau datblygu yn dod i'r amlwg a allai fod yn llai amlwg i'r awdurdodau lleol unigol neu dimau prosiect. Mae'r papur hwn yn disgrifio un o'r themâu cyffredin hyn.

Gan gyfuno gwybodaeth o brofiad ac archif Comisiwn Dylunio Cymru o brosiectau amrywiol ledled y wlad ac, yn benodol, o archif de-ddwyrain Cymru, mae darlun yn dod i'r amlwg o arbrawf trefol mawr sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Yr uchelgais arbrolfol yw cysylltu'r nifer o bentrefi, trefi a dinasoedd sydd ar wahân ar hyn o bryd er mwyn ffurfio '*dinas mewn tirwedd*' ranbarthol unedig, sy'n cyfuno agweddau ar hunaniaeth y Cymry sy'n drefol ac sy'n caru natur. Mewn arddull nodweddiadol Gymreig, nid yw hyn wedi digwydd o ganlyniad i fenter ganoleddig, o'r brig i lawr, ond o ganlyniad i gydweithrediad rhwng unigolion ac awdurdodau - ynghyd â holl fanteision ac anfanteision llywodraethu a ffyrdd penagored, datganoledig o weithio. Ymddengys mai'r amcan yw creu math newydd o drefoli ranbarthol nad oes iddo enw eto.

Gallai ymddangos yn naif o uchelgeisiol i awgrymu thema gydlynol arall eto, mewn amgylchedd sydd eisoes yn gyfoethog o ran gweledigaethau, polisiau, cynlluniau a chynigion llywodraeth leol

Cymru. Y cyfiawnhad yw nad menter newydd yw hon – mae'n adnabod thema anghydnabyddedig sy'n bodoli eisoes ac sy'n 'cuddio yng ngolau dydd' yn y mentrau niferus sydd eisoes ar waith. Dyma'r trosolwg cydlynol sy'n gallu rhoi ffocws newydd i fentrau presennol yn hytrach na gorfodi cynllun newydd.

Hyd yn oed os yw'r syniad yn llawn heriau o ran cydlynu, ac yn sgil bwch oherwydd y pandemig – mae'r math newydd hwn o ddinas ranbarthol mewn tirwedd yn haeddu cael ei archwilio a'i ddiffinio. Mae'n haeddu dadansoddiad a synthesis o'i nodweddiad a'r ffyrdd y gallai'r syniad ddatblygu a dylanwadu ar ffawd y genedl dros y degawdau nesaf.

Mae'r cysyniad o gynllunio ranbarthol yn dyddio'n ôl i darddiad cynllunio cyfoes. Ar ddiwedd yr 1800au, cynigiodd Patrick Geddes (1834–1932) y syniad o gynllunio ar sail ranbarthau y mae topograffi a dyfroedd 'naturiol' yn eu diffinio'n hytrach na rhaniad 'artiffisial' tir gan ffiniau gwleidyddol neu weinyddol. Yr hyn a ddeallodd Geddes yw bod pob gweithgaredd cymdeithasol ac economaidd dynol yn newid y tirlun mewn rhyw ffordd. Deallodd hefyd fod rheoli'r newidiadau hyn dros amser yn allweddol i ddarganfod ffyrdd llai dinistriol i ddynolryw greu dinasoedd ac i fyw yn y byd. O'r safbwynt hwn, mae cynllunio'n troi'n fwy o gangen o bensaerniaeth tirwedd nag yn sgil-gynnyrch gwleidyddiaeth a chyfraith.

Y dirwedd

Rhwng Bannau Brycheiniog ac Aber Afon Hafren, mae pedair tirwedd fawr Cymru yn cael eu siapia gan naw system afon. Mae tarddiad yr afonydd hyn yn uchel ar rostiroedd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Dros filoedd o flynyddoedd, roedd afonydd yn llifo i lawr o dir uchel wedi cerfio Cymoedd y De. Wrth droed y cymoedd mae'r afonydd yn ymlwybro ar draws gwastadeddau arfordirol cyn agor yn draethellau eang sy'n atgyfnerthu'r tir yn erbyn llanw a thrai ymchwydd llanwol mawr yn y rhan hon o'r aber.

Dyma dirwedd sydd wedi cael ei siapia gan bobl ers y cyfnod cynhanes. Yn ystod y 19^{ed} ganrif a'r 20^{fed} ganrif, cafodd y cymoedd eu cloddio i gyflenwi'r glo, yr haearn a'r dur a fu'n pweru'r chwyldro diwydiannol. Yn ystod y cyfnod

hwn, trawsnewidiwyd traethellau arfordirol i greu dinasoedd porthladd – pyrth ar gyfer cludo cyfoeth diwydiannol Cymru i weddill y byd. Heddiw, mae'r rhanbarth yn gartref i 1.5 miliwn o bobl mewn rhwydweithiau o bentrefi, trefi a dinasoedd sydd wedi'u gwreiddio yn y dirwedd ôl-ddiwydiannol hon. Mae heriau'r 21ain ganrif yn mynnu ein bod ni'n trawsnewid y dirwedd hon unwaith eto ond mewn ffyrdd arloesol sy'n creu cytundeb mwy hapus rhwng y ddynoliaeth a mantell fyw y ddaear.

Diffinio'r Ddinas mewn Tirwedd

Nid yw terfynau'r arbrawf trefol Cymreig hwn yn cael eu diffinio'n daclus gan y ffiniau gwleidyddol a gweinyddol presennol. Yn hytrach, maent yn cael eu diffinio, yn unol â chysyniad Geddes, gan ymateb i dirwedd naturiol. Ar hyn o bryd, mae'r ardal yn cael ei llywodraethu a'i rheoli gan ddeg awdurdod lleol ac mae hefyd yn cynnwys mentrau a rheolaethau gan dri chorff rhanbarthol a Llywodraeth Cymru, pob un ag awdurdodaethau sy'n gorgyffwrdd, blaenoriaethau polisi a gweledigaethau gwahanol ar gyfer y dyfodol. Isod, trafodir rolau rhai o'r cyrff allweddol a allai gyfrannu wrth greu'r 'Ddinas mewn Tirwedd' hon.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ymestyn dros 1,340 km² o fynyddoedd a rhostir. Cafodd y tir ei ddynodi'n Barc Cenedlaethol ym 1957, fel trydydd Parc Cenedlaethol mawr Cymru. Mae Bannau Brycheiniog yn diffinio hyd a lled gogleddol y 'Ddinas mewn Tirwedd' a dyma darddiad y systemau afon sy'n llifo drwy'r cymoedd islaw gan greu ffurf arbennig y dirwedd a diffinio lleoliad a ffurf aneddiadau dynol dros amser. Mae rheoli systemau afon o'r mynydd i'r môr wrth iddynt lifo drwy'r Ddinas mewn Tirwedd' yn allweddol i iechyd ecolegol, rheoli dŵr a chadernid y ddinas rhag llifogydd yn y dyfodol, a dylai hyn fod yn fenter unedig i'r ddinas gyfan.

Nid yw terfynau'r arbrawf trefol Cymreig hwn yn cael eu diffinio'n daclus gan y ffiniau gwleidyddol a gweinyddol presennol.

Parc Rhanbarthol y Cymoedd

Mae'r cysyniad o Barc Rhanbarthol y Cymoedd yn hyrwyddo hen dirweddau cloddio, diwydiannol a threftadaeth unigryw rhwng ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a thirwedd drefol a ffermio cymysg y gwastadedd arfordirol. Yma, mae'r ffocws ar ddatblygu gwerth economaidd a chymdeithasol. Mae tua dwy ran o dair o ardal y parc o fewn ffin Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, gyda'r traean arall yn cynnwys y cymoedd i'r gorllewin. Gallai Parc Rhanbarthol y Cymoedd fod yn rhan ganolog o'r Ddinas mewn Tirwedd.

Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Menter gydweithredol rhwng deg awdurdod lleol yw Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Yr uchelgais a rennir yw hybu cynhyrchiant economaidd a ffyniant y 1.5 miliwn o ddinasyddion yn y rhanbarth drwy gydlynu polisi a buddsoddiad strategol mewn grantiau cyhoeddus, benthyciadau a chyllid preifat. Mae gan fenter PRC ffocws economaidd diamwys ar ddatblygu diwydiannau a swyddi. Mae ffocws y cynllun PRC, yn fras, yn cwmpasu cadarnle hanesyddol mwyngloddio a chynhyrchu dur, sydd bellach yn cael ei drawsnewid i ddibenion newydd. Gallai dadansoddiad a strategaethau'r PRC ymestyn i ddarparu'r rhesymeg economaidd a gyriant dros y syniad o'r Ddinas mewn Tirwedd.

Metro De Cymru

Nod prosiect Metro De Cymru sy'n cael ei ddatblygu gan Trafnidiaeth Cymru yw darparu rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus integredig o ansawdd uchel sy'n cynnwys rheilffyrdd trwm a ysgafn, tramiau a bysiau a llwybrau teithio llesol ar draws y Ddinas mewn Tirwedd. Mae'r Metro eisoes yn nodwedd ganolog o strategaethau cynllunio awdurdodau lleol ar draws yr ardal gyfan. Mae prosiect y Metro yn sail i strategaeth economaidd PRC drwy greu marchnad effeithlon a chyfunol ar gyfer llafur a gwasanaethau ar gyfer holl ardal y Ddinas mewn Tirwedd o fewn pellter cymudo awr o hyd. Heddiw, mae canol y dinasoedd, y trefi a'r pentrefi unigol yn teimlo'n wahanol ac yn bell oddi wrth ei gilydd er eu bod yn rhannu gorffennol ac yn arfer bod yn gysylltiedig. Nod y Metro yw cysylltu lleoedd â'i gilydd unwaith eto, mewn ffordd sy'n agor ffyrdd newydd o fyw a gweithio ar draws y rhanbarth cyfan.

Beth fyddai nodweddion diffiniol y math newydd hwn o ddinas mewn tirwedd?



1. Math newydd o ddinas

Math newydd o ddinas a ddyluniwyd ac a reolwyd i gyfoethogi amrywiaeth ecolegol a chadernid ei lleoliad; model ar gyfer trefolaeth gadarn yr 21ain ganrif mewn tirwedd naturiol wedi'i adfer; 'dinas wyrddaf y byd'.

2. Pedair Tirwedd

Dinas o bedwar tirwedd – mynyddoedd, cymoedd, gwastadedd arfordirol a glan y môr, pob un ag ecolegau a ffurfiau trefol nodedig.

3. Naw system afon

Roedd naw system afon yn cael eu rheoli o'r tarddiad i'r môr, er mwyn hybu amrywiaeth ecolegol, cadernid rhag llifogydd a bywyd diwylliannol a chymdeithasol y trefi a'r pentrefi y maent yn llifo drwyddynt.

4. Rhwydwaith

Rhwydwaith ffyniannus o bentrefi, trefi a dinasoedd cysylltiedig sy'n cynnig cyfleoedd economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol amrywiol i bawb.

5. Cysylltiedig

Rhwydwaith trafndiaeth trefol rhanbarthol cwbl integredig sy'n darparu mynediad cyflym hwylus at bob rhan o'r ddinas ranbarthol er budd pawb.

6. Economi gadarn sy'n tyfu

Lle o dwf economaidd gwyrdd ar draws y ddinas a ddyluniwyd i atgyfnerthu patrymau anheddu presennol ac i warchod lleoliadau naturiol.

7. Lle i fyw yn agos at fyd natur

Creu lle i fyw a gweithio mewn cytgord â'r lleoliad naturiol, gyda mynediad hawdd at fannau agored a thirweddau.

8. Tirwedd sy'n gyfoethog o ran diwylliant

Dinas mewn tirwedd sy'n dathlu hanes unigryw, pobl, tirwedd a lle.

Manteision

Pe baem yn mabwysiadu'r dull 'Dinas mewn Tirwedd', sy'n dechrau gyda'r syniad o dirwedd naturiol sy'n uno, beth allai'r manteision fod? Byddai'n darparu gweledigaeth a hunaniaeth ar y cyd ar gyfer y rhanbarth, gan roi mantais fawr o ran maint i ddatblygiad economaidd yr ardal. Bydd cysylltedd trafndiaeth integredig yn galluogi pobl i


weithio a byw'n gyfleus ar draws rhanbarth y ddinas gyfan, gan roi realiti economaidd i'r hunaniaeth ranbarthol. Mae'r syniad hwn yn dod â mentrau cyfredol at ei gilydd i greu hunaniaeth unedig sy'n cael effaith ar raddfa fawr, ac mae ganddo'r potensial i fod yn thema arweiniol a phwrpas cyffredin ar gyfer datblygu'r rhanbarth arbennig ac unigryw hwn yng Nghymru yn y dyfodol.

Byddai'n newid canfyddiadau a dealltwriaeth am leoliad y dirwedd, gan ei weld fel prif ased i gael ei reoli a'i warchod yn ofalus ar gyfer iechyd yr ecoleg naturiol ac fel atyniad sylfaenol o fyw a gweithio yn y ddinas. Gellid deall mannau gwyrdd mawr fel ased naturiol sylfaenol sy'n werth cymaint â'r hyn y mae mannau gwyrdd Parciau Cenedlaethol yn ei gynnig.

Byddai'n annog meddwl a gweithredu ar gyfer math gwahanol o stiwardiaeth, gan reoli'r dirwedd ar raddfa fwy nag sy'n bosibl o fewn ffiniau awdurdodaethau presennol. Gallai rheolaeth ddiwylliannol, economaidd ac amgylcheddol integredig afonydd o'r tarddiad i'r môr fod yn enghraifft o reolaeth ar raddfa fawr o'r fath. Gallai rheoli'r dirwedd ar gyfer amaethyddiaeth adfywiol, cynhyrchu ynni, amrywiaeth ecolegol neu hyd yn oed 'ail-wylltio' fod yn enghreifftiau eraill.

Byddai'r Ddinas mewn Tirwedd yn fan lle rheolir afonydd ar gyfer cadernid o'r tarddiad i'r môr, a lle mae tirweddau'n cael eu meithrin ar gyfer amrywiaeth ecolegol, gydag ardaloedd o wlyptiroedd morfa heli, coedwig, ffermio adfywiol, ail-wylltio a rhostir agored fel lleoliad ar gyfer twf trefol. Byddai'n hynod Gymreig, gan ddwyn ysbrydoliaeth o hanes a diwylliant pobl yn y dirwedd hon dros filoedd o flynyddoedd. Byddai'n fan lle caiff ffyniant economaidd ei greu heb danseilio cyfalaf naturiol y ddaear yn ddirifol. Lle mae bywydau iach yn cael eu mwynhau yn agos at natur – lle mae trefoli a phensaerniaeth yn cael eu rhoi ar waith i wella lleoliadau'r dirwedd. Dychmygwch fyw mewn dinas sydd wedi'i lleoli mewn tirwedd o ansawdd parc cenedlaethol. Dychmygwch y dyfodol mewn Cymru â math newydd o ddinas yn ei hategu, mewn lleoliad tirwedd eithriadol sy'n gyfoethog â chyfalaf naturiol – cysyniad amgen, uchelgeisiol ac unedig, ac etifeddiaeth drawiadol i genedlaethau'r dyfodol.

Diwylliant, cymuned, gallu – trawsnewid o fewn cyrraedd



David Anderson

Cyfarwyddwr Cyffredinol, Amgueddfa Cymru

Wrth i Gymru fynd ati i 'ailadeiladu' ar ôl effaith pandemig Covid-19 y Coronafeirws, mae tebygrwydd clir rhwng hynny a'r ail-greu a ddilynodd y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd. Ym 1919, roedd yr adroddiad ar Addysg Oedolion wedi gosod y sylfeini ar gyfer cyfleoedd addysgol newydd, rhad ac am ddim neu â chymhorthdal, i oedolion a oedd â photensial heb ei wireddu ac angerdd dros hunan-addysg. Dyma fenter a flodeuodd hanner canrif yn ddiweddarach pan grëwyd y Brifysgol Agored. Ar ôl yr Ail Ryfel Byd, cafodd Aneurin Bevan ei ysbrydoli gan arbrefion cyn y Rhyfel ym maes gofal iechyd cyffredinol yng Nghymru i greu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, un o lwyddiannau niferus y Wladwriaeth Les.

Unwaith eto, 70 mlynedd yn ddiweddarach, mae angen i Gymru gael y weledigaeth, yr arloesedd cymdeithasol, a'rymroddiad i gyfiawndercymdeithasol a greodd y trawsnewidiadau hyn. Fel rhan o hyn, mae angen i ni ailfeddwl sylfaenol am rôl diwylliant mewn cymdeithas, y tro hwn fel gwasanaeth craidd o fewn Gwladwriaeth Les wedi'i hadfywio ac fel sylfaen ar gyfer bywydau da.

Ym 1948, dilynodd William Beveridge ei waith arloesol cynharach gyda thrydydd adroddiad yr un mor weledigaethol, *Voluntary Action: A Report on Methods of Social Advance*. Diffiniodd weithredu gwirfoddol fel "gweithredu nad yw o dan gyfarwyddiadau unrhyw awdurdod sy'n meddu ar rym y Wladwriaeth". Ynddo, cynigiodd fod angen i'r Llywodraeth – yn ogystal â'r Wladwriaeth Les – gefnogi rôl cymunedau a mudiadau gwirfoddol mewn newid cymdeithasol. Ychwanegodd "nid yw annibyniaeth gweithredu gwirfoddol yn golygu diffyg cydweithrediad rhwng hynny a gweithredu cyhoeddus".

Dri chwarter canrif yn ddiweddarach mae angen gwireddu'r weledigaeth hon o arloesedd cymdeithasol ac ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol. Elfen allweddol o hyn fydd ailfeddwl yn sylfaenol am rôl a dylanwad trawsnewidiol diwylliant ac ymarfer creadigol fel ffordd o feithrin gallu unigol a chapasiti cymunedol ac fel gwasanaeth craidd o fewn Gwladwriaeth Les newydd, wedi'i ategu gan gontract cymdeithasol newydd rhwng y dinesydd a'r gymdeithas, a rhwng

diwylliant a'r wladwriaeth – gan fynd i'r afael yn uniongyrchol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i galwad am Gymru fwy cyfartal o gyfoeth diwylliannol a chymunedau cydlynus.

Yn ôl y sôn, os bydd cynnyrch domestig gros gwlad yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn ond yn parhau i fod yn gyson â'r un cynnydd yn y ffactorau o anghydraddoldebau ac amddifadedd na ellir eu cyfiawnhau – mynediad at addysg, gofal iechyd, cyfle bywyd – mae'r syniad o gynnydd a honiadau bod ansawdd bywyd yn gwella, yn amheus! Mae Llywodraeth Cymru wedi creu polisi a deddfwriaeth sy'n cydnabod pwysigrwydd tegwch, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, cyfleoedd bywyd a hyrwyddo llesiant. Mae meithrin gallu, galluogedd a chapasiti dynol mewn cymunedau drwy ymarfer cynhwysol a chyfranogol yn hanfodol erbyn hyn, os ydym am wireddu'r addewid o bolisi o'r radd flaenaf.

Mae hawliau diwylliannol sef hawl pob dinesydd i gymryd rhan ym mywyd diwylliannol eu cymunedau, yn rhan annatod o hawliau dynol. Ac eto, ers 1945, dim ond rôl swyddogol ymylol sydd gan y celfyddydau a diwylliant – gan gynnwys dylunio – yn y broses o adnewyddu a newid dinesig. Ychydig sydd wedi'i ddisgwyl, ac felly ychydig sydd wedi'i gyflawni. Mae elitiaeth, a gafodd ei feithrin yn rhannol gan y farchnad gelfyddydau fyd-eang, wedi dangos cadernid na all cydraddoldeb ond bod yn genfigennus ohono.

Rhaid i hyn newid. Mae gan Gymru gyfle i ddemocrateiddio diwylliant, fel ei fod yn dod yn elfen hanfodol o ddemocratiaeth gyfranogol o'r newydd. Mae gan y genedl draddodiad hir o gymunedoliaeth a gweithredu cymdeithasol democrataidd ac mae sylfeini cadarn i adeiladu arnynt. Mae gan Gymru hefyd draddodiadau neilltuol o feddwl sydd wedi dylanwadu'n bwysus ar ei hanes a'i chymdeithas heddiw. Mynegir y rhain drwy gyfrwng y Gymraeg a phob cyfrwng creadigol, gan gynnwys straeon a chredoau traddodiadol; athroniaeth a chrefydd; gwyddoniaeth a thechnoleg; celf, dylunio a ffotograffiaeth; bwyd; strwythurau ac arferion cymdeithasol; iechyd a gwella; rhyfela; ac addysg, sgiliau ac economi. Mae'r meddwl Cymreig yn bwysig, o fewn ffiniau'r genedl, ac yn rhyngwladol.

Gall sefydliadau diwylliannol, er enghraifft,

dynnu oddi ar waith ysgrifenedig Raymond Williams, sy'n cael ei ddarllen yn eang ar draws y byd. Un o'i gynigion mwyaf dylanwadol, o *Culture and Society* (1958), yw "Mae pob unigolyn â diwylliant ac nid yw diwylliant yn elitaidd . . . Mae diwylliant yn gyffredin: dyna'r ffaith gyntaf . . . Rydym yn defnyddio'r gair diwylliant mewn dau ystyr: i olygu ffordd gyfan o fyw – yr ystyr gyffredin; i olygu'r celfyddydau a dysgu – y broses arbennig o ddarganfod ac ymdrech greadigol. . . Mae diwylliant yn gyffredin, ym mhob cymdeithas ac ym mhob meddwl".

Nid yw diwylliant, yn yr ystyr hwn, yn set o weithgareddau sy'n gysylltiedig â disgyblaethau penodol sy'n cael eu rheoli gan arbenigwyr mewn sefydliadau fel amgueddfeydd, yn hytrach mae'n adnodd hanfodol o alluoedd ac arferion dynol cyffredin ar gyfer datblygiad cymdeithasol sy'n cysylltu pobl a chymunedau. O'r herwydd, rhaid iddo fod yn ganolog i bolisi cyhoeddus, ac yn ganolog i bwrpas sefydliadau 'diwylliannol'.

Os derbyniwn yr egwyddorion democrataidd sy'n sail i eiriau Williams, mae'n hanfodol fod y sectorau diwylliannol a chreadigol yn ymrwymo i fodol o ymarfer diwylliannol sydd wedi'i wreiddio mewn cyfiawnder cymdeithasol a gweithredu gymunedol. Mae ar gymunedau yng Nghymru angen i'w mudiadau diwylliannol fod yn ganolfannau ar gyfer gobaith cymdeithasol, cynhwysiant a chyfranogiad mewn newid cadarnhaol. Mae gan rôl dylunio, a'r prosesau datrys problemau creadigol y mae'n eu cynnwys, ran enfawr yn hyn ynghyd â'r sector ehangach, yn bennaf os ydym am ymgysylltu'n llawn â'n cymunedau tuag at greu lleoedd cynhwysol, cyfranogol a nodedig.

Ers 2012, pan ddechreuodd Amgueddfa Cymru ddylunio'r gwaith o ailddatblygu Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru – yn athronyddol, yn addysgol, yn guradurol ac yn gorfforol – aethpwyd ati i gysylltu â thua 200 o sefydliadau cymunedol ac elusennau ar lawr gwlad, ledled Cymru, a bu hyn yn sail i bron pob un o benderfyniadau arwyddocaol

y prosiect. Cefnogwyd y dull hwn yn llwyr gan Gomisiwn Dylunio Cymru y boom yn gweithio'n agos ac yn barhaus â nhw.

Ym mis Gorffennaf 2019, ar ôl cwblhau'r gwaith ailddatblygu, dewiswyd Sain Ffagan yn Amgueddfa'r Flwyddyn Cronfa Gelf y DU. Dywedodd Dr Stephen Deuchar, Cyfarwyddwr y Gronfa Gelf ar y pryd, "Mae Sain Ffagan yn byw, yn anadlu ac yn ymgorffori diwylliant Cymru. Mae'n gofeb i ddemocratiaeth amgueddfa fodern . . . pobl Cymru sydd wedi creu'r lle hudolus hwn i bobl o bob man."

Mewn erthygl ragweledol yn rhifyn Medi 2019 o *Art Quarterly*(4), dim ond ychydig fisoedd cyn i COVID-19 ddod i'n bywydau, aeth Dr Deuchar ymlaen: A yw cymdeithas ei hun yn barod i ailddatgan ei hymrwymiad ymarferol i'r ystod lawn o egwyddorion democrataidd yr oedd yn eu harddel ar un adeg? . . . A yw'n rhesymol disgwyl y gall diwylliant, trwy ei sefydliadau neu'n uniongyrchol trwy ei gyfranogwyr, gyfrannu'n sylweddol at yr hyn rydym yn ei ystyried yn argyfwng cymdeithasol o gyrhaeddiad rhyngwladol?"

Mae'r argyfwng cymdeithasol presennol yn llawer mwy difrifol nag y gallai unrhyw un fod wedi'i ragweld dair blynedd yn ôl. I ymateb i'r pandemig, wrth i'w hadeiladau gau, ciliodd llawer o amgueddfeydd y tu ôl i wal ddigidol o gynnwys di-fflach ar-lein. Ond fe wnaeth rhai eraill, gan gynnwys Amgueddfa Cymru, ehangu eu gwaith y tu allan i'w hadeiladau, gan gryfhau eu partneriaethau â sefydliadau cymunedol ledled Cymru.

Roedd y pandemig wedi dysgu Amgueddfa Cymru y gall fod Amgueddfa wirioneddol o hyd – a dod o hyd i ffyrdd newydd o helaethu a gwella gwasanaethau allweddol, drwy bartneriaethau parhaus mewn cymunedau – y tu allan i'w hadeiladau a'i horielau, pan fydd y rhain ar gau. I rai cyfranogwyr a oedd wedi canfod ei bod yn anodd mynd i safleoedd yr Amgueddfa yn y gorffennol, trodd yn amgueddfa a oedd yn well fyth, wedi'i gwreiddio mewn lle.

I ymateb i'r pandemig, wrth i'w hadeiladau gau, ciliodd llawer o amgueddfeydd y tu ôl i wal ddigidol o gynnwys di-fflach ar-lein.



Gall amgueddfa ac unrhyw sefydliad diwylliannol arall fodoli, o leiaf yn rhannol, o fewn adeiladau corfforol ond – er mwyn byw ac anadlu - mae'n rhaid iddi hefyd fodoli y tu allan i'w waliau, wedi'i gwreiddio'n ddwfn mewn lle ac yn y gymdeithas y mae'n rhan ohoni.

Yna nid adeiladau yn unig yw canolfannau celfyddydau gweledol a pherfformio, llyfrgelloedd, ac amgueddfeydd, ond enghreifftiau o wahanol athroniaethau o ddiwylliant byw mewn amser a gofod. Yn y bôn, maent yn ffyrdd o feddwl a gweithredu a all ddigwydd yn unrhyw le, mewn unrhyw gymuned, ar unrhyw adeg. Maen nhw'n facro-wtopiau ac yn facro-dystopiau, a gellir ail-fframio eu hanesion fel arbrofion cymdeithasol dan reolaeth, sy'n aml yn amrywiol o ran eu heffeithiolrwydd.

Mae lle yn ganolog i'r ddadl hon. Y model amlycaf fu diffinio'r adeilad diwylliannol fel lle breintiedig, yn aml yng nghanol tref neu ddinas, ar draul pob man arall o ymarfer diwylliannol yn eu cymdeithasau. Ceir profiadau diwylliannol gwych, cofiadwy a heriol y gellir eu cyflawni mewn theatr neu oriel yn unig. Ond gallant gyfyngu'r opsiynau ar gyfer cyfranogiad diwylliannol i'r hyn y mae gweithwyr proffesiynol diwylliannol yn eu ffafrio ac yn rhagfarnu amdanynt; dim ond rhan fechan yw'r rhain o'r arferion diwylliannol pwerus, sy'n newid bywydau hyd yn oed, a allai fod yn bosibl fel arall.

Y dewis arall yw troi'r telesgôp o amgylch, a gwneud cymunedau lleol – fel lle cymdeithasol, â'u holl natur gymhleth a phenodol – yn brif ffocws ar gyfer sicrhau newid diwylliannol. Mae gan bob lle, yn eu cymunedau, y potensial i fod yn theatr, yn amgueddfa neu'n oriel, yn llyfrgell ac yn lleoliad ar gyfer cerddoriaeth. Ar lefel gymunedol, mae'n bosibl y bydd gwahaniaethau rhwng y diwylliannau sefydliadol hyn yn cael eu diddymu, gan wneud democratiaeth ddiwylliannol gyfranogol yn bwrpas i pob buddsoddiad yn y dyfodol.

Yn y model hwn o ddiwylliant, cymuned a lle, y ceir diwylliant a democratiaeth ddiwylliannol. Canolfannau ar gyfer gweithredu cymunedol yw adeiladau – er mwyn casglu a rhannu adnoddau. Mae eu ffocws yn y model hwn yn un ymgyrchol, er mwyn sicrhau newid cymdeithasol trwy gyfranogiad diwylliannol. Mae ymchwil yn symudol, yn gydweithredol ac yn cael ei arwain gan gyfranogwyr. Mae'r arbenigedd mwyaf defnyddiol ar gael "allan" yn y gymdeithas. Mae casgliadau ac adnoddau diwylliannol eraill ar gael at ddefnydd cyhoeddus agored (cyfrifol).

Yn y model hwn o ddiwylliant, cymuned a lle, y ceir diwylliant a democratiaeth ddiwylliannol.


Mae gofodau'n amlbwrpas a hyblyg. Mae arddangosfeydd yn cael eu cyd-guradu, yn rhai ymatebol a thros dro (yno am fisoedd neu ychydig flynyddoedd, nid degawdau). Mae "rhagoriaeth" yn cael ei ddiffinio gan ragoriaeth profiad y cyhoedd, a rhagoriaeth proses y cyfranogwyr, yn ogystal â'r canfyddiad o ragoriaeth mewn cynnyrch. Mae staff y math hwn o sefydliad yn weithwyr diwylliannol amlddisgyblaethol. Mae ganddynt sylfaen o arbenigedd pennaf mewn cyfranogiad diwylliannol a'r gwyddorau dynol, ac amrywiaeth o sgiliau ac arbenigedd eilaidd ar draws disgyblaethau yn y celfyddydau, dylunio a'r gwyddorau.

Bydd yr hyn y gellid ei ddisgrifio fel 'Gwasanaeth Diwylliant Cenedlaethol' newydd ar gyfer Cymru, sydd wedi'i integreiddio'n agos â phartneriaid eraill ym maes lechyd, Gofal Cymdeithasol ac Addysg, ac yn gweithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol, yn hanfodol er mwyn sicrhau cydraddoldeb o ran cyfleoedd diwylliannol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Bydd cynllunio gwasanaeth o'r fath yn heriol. Fel yn achos ieuchyd cyn yr Ail Ryfel Byd, ceir brithwaith o ddarpariaeth ddiwylliannol, wedi'i gwasgaru ar draws y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat yng Nghymru. Nid yw'n angenrheidiol nac yn ddymunol i 'wladoli' y sefydliadau hyn. Yn hytrach, rôl gweithredwyr gwladol fyddai: gosod safonau ymarfer ar gyfer darparu democratiaeth ddiwylliannol, wedi'u gwreiddio mewn codau ymddygiad ar wahân ar gyfer sefydliadau diwylliannol a mudiadau gwirfoddol, a'u staff; sicrhau bod hyfforddiant a datblygiad staff mewn arferion diwylliannol democrataidd ar gael yn lleol i fudiadau diwylliannol a gwirfoddol ym mhob cymuned ledled Cymru; a thargedu cyllid cyhoeddus ar gyfer cyflawni'r dibenion hyn yn unig. Mae Cymru'n arwain y byd o ran meddwl ac ymarfer ym maes democratiaeth ddiwylliannol. Bellach, gallwn adeiladu ar hyn, trwy ei diogelu fel genedigaeth-fraint pob plentyn ac oedolyn.

¹ Nussbaum, Martha *Creating Capabilities: The human development approach*, Belknap Press Harvard University Press 2011

Aseu'r anniriaethol: heriau cyfochrog wrth werthuso diwylliant a natur.



David Clubb

Cadeirydd, Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

Mae gan ddiwylliant le sydd wedi'i ddiffinio'n unigryw yn statud Cymru, ac mae'n cael ei ddiffinio fel un o'r Nodau Llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu: Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden²

Mae natur hefyd yn rhan annatod o'r un ddeddfwriaeth, er ei bod ychydig yn fwy cynnil. Dehonglais fod y ddau nod, sef Cymru Gydnerth a Chymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang, yn rhoi pwys sylweddol ar ddiogelu a gwella ein hamgylchedd naturiol. Mae diwylliant a natur yn rhyng-gysylltiedig â phob un arall o Nodau Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae gwella'r ddau yn cynyddu gallu Cymru i gyflawni'r nod o les i'n holl ddinasyddion yn y pen draw.

Eleni, yn ugain mlwyddiant Comisiwn Dylunio Cymru, dylwn dalu teyrnged i'r cyfraniad gwerthfawr y mae disgwyliadau dylunio a chreu lleoedd da yn ei wneud i lesiant. Yn wir, gofynnir i bawb sy'n defnyddio gwasanaethau adolygu ymgynghorol Comisiwn Dylunio Cymru wneud y canlynol: *Esbonio sut mae'r cynllun yn ymrwymo i saith Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Pum Ffordd o Weithio*. Mae hyn yn ymwneud yn benodol â phenderfyniadau strategol cynnar a chynigion datblygu penodol ar gyfer yr amgylchedd adeiledig, ac mae'n cysylltu'n uniongyrchol â'r ddyletswydd sydd ar gyrff cyhoeddus ac â'u penderfyniadau eu hunain.

Mae sefydliadau fel Comisiwn Dylunio Cymru, sy'n darparu her a chefnogaeth yn gyfartal, yn gyrff pwysig a dylanwadol mewn cylch cyhoeddus sy'n dal i gael trafferth mynd i'r afael â'r Ddeddf Llesiant, a'r goblygiadau ar gyfer 'enedlaethau'r dyfodol' gan mlynedd neu fwy yn y dyfodol.

Hyd yn hyn, mae'n gadarnhaol. Ond yr anhawster gyda deddfwriaeth a pholisi yw eu rhoi ar waith. Er bod y ddyletswydd sy'n deillio o'r Ddeddf Llesiant yn golygu bod yn rhaid i gyrff y sector cyhoeddus adrodd ynghylch eu cynnydd mewn perthynas â datblygu cynaliadwy a'r


Amcanion Llesiant³, mae'n siŵr fod nifer o heriau wrth gynnal yr asesiad hwn, yn bennaf oherwydd ei bod mor anodd mesur rhai pethau, fel gwerth diwylliant a natur.

Mae canllawiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn cynnwys 'man gwan' posibl i'r cyrff cyhoeddus hynny na allant – er enghraifft – sicrhau cynnydd sylweddol o ran hyrwyddo diwylliant a natur, oherwydd bod y gofyniad i gymryd 'pob cam rhesymol' i sicrhau cynnydd yn ddull eithaf goddrychol o weithredu. Felly, gallai strategaeth gwbl ddilys i gyflawni mewn perthynas â rhwymedigaethau'r sector cyhoeddus gynnwys cynnydd cryf mewn perthynas â nodau neu amcanion 'caled' fel 'ffyniant', 'cydraddoldeb' neu 'iechyd', y gellir mesur pob un ohonynt i safon weddol wrthrychol, ond llai o gynnydd mewn perthynas â nodau mwy heriol fel diwylliant.

Rwy'n gwneud y pwynt hwn at ddibenion esboniadol yn unig. Nid oes gennyf unrhyw reswm i gredu bod unrhyw gorff sector cyhoeddus yng Nghymru yn cymryd agwedd sinigaidd tuag at eu rhwymedigaethau. Fodd bynnag, rwy'n credu bod y darlun yn ddefnyddiol oherwydd mae'n tynnu sylw at y ffaith bod 'mesuradwyedd' amcanion neu nodau hefyd yn ffordd o orfodi cynnydd. Mae gwireb Galileo Galilei bum can mlynedd yn ôl yn dal yn berthnasol heddiw:

*"Mesurwch yr hyn y gellir ei fesur; gwnewch yn fesuradwy beth nad ydyw."*⁴

Mae'n anodd diffinio diwylliant ac mae'n llawer anoddach ei fesur. Gan adeiladu ar syniadau pobl eraill, ac yn arbennig ar ddiffiniadau UNESCO⁵, rwyf wedi creu map meddwl sy'n ceisio cynnwys sectorau diwylliannol y gellid - mewn egwyddor - fesur eu gwerth i'n helpu i ddeall effaith. Efallai y bydd hefyd yn bosibl datblygu rhagor ar gysyniad o'r fath tuag at 'arbedion' mwy pendant lle gellir gwneud effeithiau'n fwy pendant a lle gellir aseu cynnydd yn fwy cywir a rhwydd. Ar ôl gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i adrodd yn erbyn y Ddeddf, onid oes 'dyletswydd' i ddatblygu fframweithiau mwy ystyrlon i ddiffinio ac olrhain cynnydd neu i gywiro os yw'n absennol?



Yr economi ddiwylliannol fel y'i diffinir gan Afallen – un sector economaidd ymysg model 'pum economi' sy'n cael ei ddatblygu sy'n cynnwys: economi gyfiawn, economi Sylfaenol, economi Iechyd Planedol, economi Ddiwylliannol ac economi Llesiant. Mae'r dangosyddion llesiant⁶ yn felyn; cydrannau'r TCMau (Themâu, Canlyniadau, Mesurau) Cymreig⁷ mewn porffor.

Hyd yn oed gyda gwaith sefydliadau sydd ag enw da ac sy'n ceisio helpu i asesu gwerth cyfraniadau o fudd cymdeithasol, fel Fframwaith Gwerth Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru⁷, ychydig iawn o elfennau diwylliannol ein map economi ddiwylliannol sy'n cael gwerth ariannol yn gysylltiedig â nhw.


Mae hyn er gwaethaf y ffaith fod diwylliant, fel byd natur, yn cynnig manteision eithriadol i iechyd a lles sy'n llawer uwch na'r buddsoddiad sydd ei angen i ganiatáu i ddiwylliant ffynnu. Yn wir, mae ein profiad diweddar fel cymdeithas yng Nghymru yn delio â phandemig wedi dangos y dylai diwylliant, yn ei ffurf niferus, gael ei gydnabod fel grym pwerus ar gyfer cydlyniant cymdeithasol, cadernid a thwf.

Enghraifft sy'n arbennig o berthnasol i Gymru yw gwerth y Gymraeg. Cafodd y Gymraeg ei gwawdio am ganrifoedd fel rhywbeth amherthnasol neu waeth gan rai, ond mae bellach yn cael ei gwerthfawrogi'n briodol fel ased cymunedol a chymdeithasol gwych yn ei rhinwedd ei hun. Hefyd, mae yna bellach doreth o dystiolaeth wedi'i hadolygu gan gymheiriad sy'n dangos bod dwyieithrwydd yn cynnig lluo o fanteision i iechyd, cyrhaeddiad addysgol a lles.

Os yw'n wir fod dwyieithrwydd yn cynnig cymaint o fanteision, sut allwn ni ddangos tystiolaeth o hyn mewn ffordd sy'n cynyddu gwerth canfyddedig y Gymraeg i sefydliadau'r sector cyhoeddus a phreifat yng Nghymru. A'r cwestiwn

Os yw'n wir fod dwyieithrwydd yn cynnig cymaint o fanteision, sut allwn ni ddangos tystiolaeth o hyn mewn ffordd sy'n cynyddu gwerth canfyddedig y Gymraeg i sefydliadau'r sector cyhoeddus a phreifat yng Nghymru.

mwyaf – os bydd rhai o'r manteision hyn hefyd yn codi ar gyfer dimensiynau diwylliannol eraill, sut all y sector diwylliannol yn ei gyfanrwydd wella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer canlyniadau sydd o fudd i bob un ohonom? Sut gallwn ni 'wobrwyo' diwylliant a chymdeithas am chwarae rhan hollbwysig yn lleddfu'r unigrwydd a'r arwahanrwydd a ddigwyddodd yn ystod cyfnodau clo'r pandemig? Sut mae gwerthfawrogi'r ymyriadau sy'n lleihau baich iechyd meddwl ar ein gwasanaethau iechyd ac ar gymdeithas yn fwy cyffredinol yn y dyfodol?



Map systemau sy'n dangos rhai o fanteision y Gymraeg i amrywiaeth o ganlyniadau economaidd-gymdeithasol a llesiant⁸

Dydw i ddim yn awgrymu bod gen i'r atebion hyn, ond mae gennyf rai syniadau am bethau a allai helpu i lywio sgwrs yr hoffwn barhau â hi er mwyn mireinio posibiliadau:

1. Cynnal prosiect i gasglu tystiolaeth wedi'i hadolygu gan gymheiriad ar fanteision dwyieithrwydd, a cheisio datblygu metrig ar gyfer asesu gwerth gwahanol ymyriadau i gefnogi neu hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Gallai hyn gael ei wneud mewn partneriaeth â mudiadau 'gwerth cymdeithasol' sefydledig, neu'n annibynnol
2. Cymryd y dystiolaeth ddiweddaraf gan gyrrff rhyngwladol fel y G20⁹, UNESCO¹⁰ a'r OECD¹¹ sy'n gwneud gwaith i archwilio'r modd mae gwerth diwylliannol yn cael ei gyfrifo, a defnyddio'r arferion rhyngwladol gorau ym maes cyfrifyddu diwylliannol i ategu'r fframweithiau presennol yng Nghymru
3. Ymgorffori canlyniadau'r ddau brosiect uchod yng nghanllawiau Cenedlaethau'r Dyfodol i gefnogi cyrrff y sector cyhoeddus i ddeall a gwerthfawrogi eu cyfraniadau at ddiwylliant yn briodol, ac felly'r gymdeithas yn ehangach, yr economi a llesiant



Ond gwerth cynhenid i goeden, coetir, afon, nythfa morgrug; ac mae'r myrdd o ryng-berthnasau rhyngddynt a gweddill yr ecosystem (ac felly cymdeithas ddynol) yn wirioneddol amhosibl eu cyfrifo.

Bûm yn arfer gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop, sefydliad a helpodd i droi gwyddoniaeth yn bolisi. Bûm yn rhan o ddatl fewnol ffyrnig am rinweddau ceisio neilltuo gwerth i wasanaethau natur ac ecosystem, ac ar y pryd roeddwn i'n argyhoeddedig bod angen i ni ymgysylltu â byd 'cyfrifo' (yn ei ystyr mwyaf cyffredinol) er mwyn pledio'r achos dros werthfawrogi natur yn fwy.

Er fy mod i a chydweithiwr yn gallu dangos effeithiau grymus iawn Protocol Montreal ar allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn ogystal â dangos y pris ofnadwy a dalwyd am ddefnyddio plwm mewn petrol¹², credaf erbyn hyn fy mod i'n anghywir. Mae ceisio pennu gwerth natur, a gwasanaethau ecosystem, yn teimlo fel pe bai'n fagl wedi'i gosod gan system echdynol sy'n ceisio creu fframwaith gwerth ar gyfer prynu a gwerthu popeth.

Ond gwerth cynhenid i goeden, coetir, afon, nythfa morgrug; ac mae'r myrdd o ryng-berthnasau rhyngddynt a gweddill yr ecosystem (ac felly cymdeithas ddynol) yn wirioneddol amhosibl eu cyfrifo. Gwyddom fod profi natur, hyd yn oed yn y ffyrdd mwyaf byrhoedlog, yn gwella lles corfforol a

meddyliol^{13,14}, felly mae'n rhaid bod yna fetrig 'mewn egwyddor' sy'n ein galluogi i werthfawrogi'r angen am lai o ymyrraeth feddygol, a fyddai'n ein galluogi i ddadlau'n fwy effeithiol dros fwy o fannau gwyrdd.

Yr wyf yn dadlau, oherwydd dealltwriaeth aneffeithlon neu ddull methodolegol, y byddwn bob amser yn 'dal i fyny' ar brisiad ein hadnoddau naturiol. Fy nadl i yw y byddwn ni bob amser, oherwydd dealltwriaeth aneffeithlon neu ddull methodolegol o weithredu, yn ceisio 'dal i fyny' wrth roi gwerth ar ein hadnoddau naturiol. Mae hyn yn cynyddu'r risg o 'chwarae'r gêm' drwy system gyfrifyddu sy'n tanbrizio natur yn systematig, fel bod penderfyniadau'n parhau i gael eu gwneud sy'n peryglu gallu Cymru i ddarparu a sbarduno'r cyfle llesiant i'w dinasyddion.

Credaf y gellir gwneud yr un ddatl dros ymdrechion i aseu gwerth economaidd diwylliant. Wrth wneud hynny, mae risg o droi'r ddatl dros sector ddiwylliannol gref a ffyniannus yn gêm o niferoedd, lle caiff enillwyr a chollwyr eu neilltuo yn ôl eu gallu i lywio systemau cyfrifo gwahanol.

Ac eto, gwneir penderfyniadau o fewn fframweithiau sy'n defnyddio dulliau cyfrifyddu i neilltuo ymdrech, effaith ac adnoddau. Os byddwn yn ymatal rhag gwneud dadleuon o fewn y sefydliadau a'r fframweithiau hynny, efallai y byddwn yn cael canlyniadau nad ydynt yn ffafriol i greu'r amodau sy'n caniatáu i ddiwylliant a natur ffynnu.

Gallaf weld y gwrthdweud cynhenid sy'n bodoli wrth dymuno gwerthfawrogi pethau anniriaethol fel rhyfeddod, cwmniaeth, a boddhad sy'n deillio o gymryd rhan mewn diwylliant neu natur, ond am y tro ni allaf weld unrhyw ffordd o ddatrys y pos.

Efallai trwy deithio ychydig ymhellach i lawr y ffordd o geisio aseu a rhoi cyfrif am y pethau hyn, gallwn ddatblygu ein dealltwriaeth a chreu cysylltiadau newydd rhwng grwpiau, cymunedau a chysyniadau a fydd yn cryfhau gwerthfawrogiad a gwerth cymdeithas o ddiwylliant a natur.

Mae natur yn darparu pob un o'n hanghenion dynol mwyaf sylfaenol; bwyd, lloches, dŵr ac aer. Mae'n darparu llawenydd a rhyfeddod anfesuradwy. Mae diwylliant yn ein dyrchafu fel bodau cymunedol sy'n meddwl a gofalu, gan ddarparu cydlyniant a'n galluogi i gyfathrebu a chydlynu mewn ffyrdd soffistigedig sy'n anodd eu dychmygu. Wrth i ni geisio priodoli gwerth, rhaid inni beidio byth â cholli golwg ar yr anniriaethol.



Llyfryddiaeth

- 1 'Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol', *LLYW.CYMRU*. <https://llyw.cymru/llesiant-cenedlaethau-dyfodol-cymru> (agorwyd Ebrill 15, 2022).
- 2 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu - Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru'. <https://www.futuregenerations.wales/cy/gymru-a-diwylliant-bywiog-ll-maer-gymraeg-yn-ffynnu/> (agorwyd Ebrill 15, 2022).
- 3 Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: canllawiau ar gyfer cyrff cyhoeddus, *LLIW.CYMRU* <https://llyw.cymru/llesiant-cenedlaethau-dyfodol-canllawiau-ar-gyfer-cyrff-cyhoeddus> (agorwyd Ebrill 15, 2022).
- 4 D. C. Cone a L. W. Gerson, 'Measuring the Measurable: A Commentary on Impact Factor', *Acad. Emerg. Med.*, vol. 19, no. 11, pp. 1297–1299, 2012, doi: 10.1111/acem.12003.
- 5 'Measuring the economic contribution of cultural industries: a review and assessment of current methodological approaches - UNESCO Digital Library'. <https://unesdoc.unesco.org/ark:/48223/pf0000218251> (agorwyd Ebrill 15, 2022).
- 6 'Llesiant Cymru: dangosyddion cenedlaethol', *LLYW.CYMRU*. <https://llyw.cymru/llesiant-cymru-dangosyddion-cenedlaethol> (agorwyd Ebrill 15, 2022).
- 7 'TCMs Cenedlaethol: Cymru', *National Social Value Taskforce*. <https://www.nationalsocialvaluetaaskforce.org/national-toms-wales> (agorwyd Mai 09, 2021).
- 8 D. Clubb, 'Systems approach to Welsh language', *Kumu*, Ebrill 06, 2021. <https://kumu.io/davidafallen/systems-approach-to-welsh-language> (agorwyd Ebrill 16, 2022).
- 9 'Rome Declaration of the G20 Ministers of Culture'. <http://www.g20.utoronto.ca/2021/210730-culture.html> (agorwyd Ebrill 16, 2022).
- 10 'Culture Satellite Account', Oct. 09, 2018. <http://uis.unesco.org/en/topic/culture-satellite-account> (agorwyd Ebrill 16, 2022).
- 11 'Project on the International Measurement of Culture - OECD'. <https://www.oecd.org/sdd/na/projectontheinternationalmeasurementofculture.htm> (agorwyd Ebrill 16, 2022).
- 12 'Late lessons II Chapter 23 - Understanding and accounting for the costs of inaction — European Environment Agency'. <https://www.eea.europa.eu/publications/late-lessons-2/late-lessons-chapters/late-lessons-ii-chapter-23/view> (agorwyd Ebrill 15, 2022).
- 13 M. Richardson, H.-A. Passmore, R. Lumber, R. Thomas, ac A. Hunt, 'Moments, not minutes: The nature-wellbeing relationship', *Int. J. Wellbeing*, vol. 11, no. 1, Art. no. 1, Jan. 2021, doi: 10.5502/ijwv11i1.1267.
- 14 'Green space, mental wellbeing and sustainable communities - Public health matters'. <https://publichealthmatters.blog.gov.uk/2016/11/09/green-space-mental-wellbeing-and-sustainable-communities/> (agorwyd Chwefror 25, 2020).

Yr Athro Juliet P. Davis, MA DipArch (Cantab) PhD (LSE), RIBA
Pennaeth yr Ysgol, Ysgol Bensaerniaeth Cymru, Prifysgol Caerdydd

Mae cynaliadwyedd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol wedi bod yn rhan ganolog o'i chenhadaeth ers tro. Mae hyn hefyd yn cynnwys ymrwymiad cryf i sicrhau manteision, drwy ymchwil ac addysgu, i bobl a lleoedd yng Nghymru.

Ar ddiwedd haf poeth 2022, pan gafwyd tywydd poeth eithafol a rhai o'r tymereddau uchaf erioed, ac wrth i brisiau ynni gynyddu, ni fu erioed yn bwysicach ailadrodd y genhadaeth hon. Ym mlwyddyn canmlwyddiant yr Ysgol ei hun, gyda chan mlynedd o brofiad o addysgu ac ymchwil pensaernïol y tu ôl i ni, edrychwn ymlaen at barhau i wneud cyfraniad sylweddol i gynaliadwyedd a lles yn yr amgylchedd adeiledig dros y can mlynedd nesaf a'r tu hwnt.

Mae ein hymchwil yn un o ansawdd uchel, a daeth yr Ysgol yn bedwerydd ymhlith ysgolion pensaerniaeth yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil ledled y DU yn 2021. Mae'n amrywiol, gan adlewyrchu natur ryngddisgyblaethol astudiaethau pensaernïol. Mae llawer ohono'n gydweithredol, yn cynnwys partneriaid cyhoeddus, preifat a/neu



Wynebu'r dyfodol: ymchwil ac addysgu yn Ysgol Pensaerniaeth Cymru



drydydd sector yn ogystal ag ymchwilwyr o ysgolion a sefydliadau academaidd eraill. Yn gysylltiedig â hyn mae perthynas waith agos rhyngom a Chomisiwn Dylunio Cymru, drwy ein grŵp cyngori allanol sydd wedi dod â gweithwyr proffesiynol o Gymru a mannau eraill yn y DU at ei gilydd, o amrywiaeth o ddisgyblaethau ac ymarfer dylunio, i greu lle gwag deinamig ar gyfer mynd ar drywydd pwrpas cyffredin i arfogi dylunwyr y dyfodol ar gyfer yr amgylcheddau y byddant yn chwarae rhan hanfodol yn eu siapio.

Dros nifer o flynyddoedd, rydym wedi gwneud gwaith ymchwil sy'n mynd i'r afael ag angen Cymru i leihau ei hól troed carbon a'i dyhead i gyrraedd sero-net erbyn 2050 i ymateb i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd sydd ar fin digwydd. Mae prosiectau ôl-osod a phrototeipiau adeiladu o'r newydd wedi darparu modelau o ddylunio carbon isel ar gyfer y diwydiant adeiladu, ac mae hefyd yn dangos sut y gellir mynd i'r afael â heriau systemig fel costau ynni a thlodi tanwydd, amddifadedd, iechyd a lles gyda'i gilydd. Rydym yn archwilio ac yn profi rhinweddau cynaliadwyedd technolegau amrywiol, gan gynnwys saernïo digidol arloesol, dulliau economi gylchol, ac adeiladu gan ddefnyddio pren o Gymru. Rydym hefyd yn canolbwyntio ar faterion iechyd a chyfforddusrwydd amgylcheddol ar raddfa adeiladau a threfi, gan fodelu gwres ac ansawdd aer er enghraifft, ar gyfer pentrefi, trefi a dinasoedd.

Er bod llawer o'n gwaith yn cyfeirio at y dyfodol mewn cysylltiad ag anghenion am newid, mae dyfodol yr amgylchedd adeiledig hanesyddol yng Nghymru hefyd yn bwysig i ni, oherwydd ein bod wedi'n lleoli yng nghanol amrywiaeth gyfoethog o dirweddau sy'n gysylltiedig â hanesion yr economi ddiwydiannol (ac ôl-ddiwydiannol), morwrol a gwledig. Adlewyrchir hyn mewn arferion amrywiol o ymchwil hanesyddol, asesu treftadaeth, creu lleoedd a strategaethau ar gyfer cadwraeth a/neu addasu yn unol â nodau cynaliadwyedd ehangach.

Rydym hefyd yn gweithio mewn sawl ffordd i fynd i'r afael â'r her o ddatblygu gweledigaethau cynhwysol ar gyfer dyfodol gwell i'r amgylchedd adeiledig. Mae'r ymchwil presennol sy'n adlewyrchu'r nod eang hwn yn ystyried dulliau cynhwysol o lywodraethu mewn tai a mannau cymunedol, dylunio cyfranogol, hygyrchedd a chynhwysiant mewn gofod cyhoeddus, dylunio ar gyfer ansawdd bywyd, damcaniaethau'n ymwneud â haelioni a gofal, dimensiynau dylunio gofal i'r henoed, ac anghenion tai cymunedau LDHTC+ a'r heriau dwys sy'n


wynebu llawer o bobl a allai fod yn llai breintiedig yn ein cymdeithas.

Ein nod yw datblygu'r offer, yr adnoddau a'r cyfleoedd i alluogi ein myfyrwyr, sy'n dod o bob cwr o'r byd, i ragori drwy ddysgu adnabod ac ymateb i faterion cynaliadwyedd a lles. Rydym yn ceisio rhoi gwybodaeth a sgiliau ymarferol i fyfyrwyr yn eu dewis feysydd pwnc wrth gwrs, ond rydym hefyd yn credu ei bod yn hollbwysig darparu sgiliau trosglwyddadwy i'w galluogi i groesawu ac arwain newid, gallu addasu a diwallu heriau'r dyfodol, er nad oes modd eu hadnabod eto. Mae'r rhain yn cynnwys gallu cydnabod goblygiadau moesegol ymarfer mewn dylunio pensaernïol a threfol, ymgymryd ag ymchwil drylwyr, bod yn feiriadol, gallu darlunio'n greadigol a myfyrio ar eu profiad.

Mae gennym hanes llwyddiannus o weithio mewn, a gyda, chymunedau a diwydiannau lleol i ddatblygu prosiectau pensaernïol creadigol sydd wedi'u gwreiddio yng nghyd-destun materion lleol sy'n dod i'r amlwg. Mae ein stiwdios addysgu yn hyrwyddo ymgysylltiad ag agweddau amrywiol ar gynaliadwyedd drwy ddylunio – o ddylunio sy'n gynhwysol yn gymdeithasol i ddatgarboneiddio, heneiddio, adfywio, tai fforddiadwy, bioamrywiaeth, dŵr, a llawer o themâu eraill – gan annog myfyrwyr i gymryd safiad. Mae astudio ein rhaglenni ôl-raddedig, gan gynnwys ymchwil ôl-raddedig, yn rhoi profiad i fyfyrwyr o'n hymchwil flaengar sy'n cynnwys cyfleoedd i ddysgu oddi wrth arbenigwyr mewn gwyddoniaeth bensaernïol, cyfrifiadureg, dysgu peirianyddol a saernïo robotig mewn pensaerniaeth, ymchwil dylunio, cadwraeth adeiladau cynaliadwy, ymarfer dylunio/gweinyddu a dylunio trefol. Mae ein holl raglenni wedi'u cynllunio i hyrwyddo trafodaeth fywiog ac i annog pobl i edrych ar faterion byd-eang mewn cyd-destun lleol ac mae gennym gymuned ôl-radd ffyniannus.

Rydym yn gweld ein cenhadaeth ddinesig fel rhan annatod o'n hagwedd fyd-eang a'n cyfraniad at chwilio'n eang am atebion i heriau lleol a byd-eang yr unfed ganrif ar hugain, ac mae ein hymrwymiad i fyfyrwyr yn un sy'n benderfynol o'u paratoi ar gyfer yr arferion a'r diwydiannau y byddant yn creu gyrfaoedd ynddynt ac yn cael effaith ar y byd go iawn. Trwy hyn, rydym yn gwerthfawrogi ein perthynas gydweithredol â'r Comisiwn Dylunio, sy'n adlewyrchu nodau cyffredin ac yn rhannu gweledigaeth o rôl hanfodol pensaerniaeth a dylunio yn ein cymdeithas, a phwysigrwydd hynny yn wyneb her na welwyd ei thebyg o'r blaen.

Rhaid i ddylunio da fod yn rhan o'n hachubiaeth



Geraint Talfan Davies

Cadeirydd, Sefydliad Cyfarthfa

Prin y gall dau ddegawd o heddwch fod yn fwy annhebyg na dau ddegawd cyntaf yr unfed ganrif ar hugain. Ar ddechrau'r cyntaf roedd dathlu mawr, holl optimistiaeth mileniwm newydd â chymorth a chefnogaeth llywodraeth ffres yn San Steffan a oedd yn frwd dros wyrddroi ffawd ei ragflaenydd blinedig ac anystywallt. Ar y llaw arall, yn yr ail ddegawd roeddem yn llafurio trwy galedi ariannol hir, pandemig a ataliodd gymaint o weithgaredd torfol ac, yn olaf, cysgod rhyfel.

YYng Nghymru, roedd refferendwm ym 1997, a enillwyd o drwch blewyn yn unig, wedi cynnig y posibilrwydd o wahanu'n sylfaenol â'r gorffennol canoliaethol trwy greu Cynulliad Cenedlaethol. Erbyn haf 1999 roedd y Cynulliad yn bodoli, mewn adeilad gweithredol llwydaidd a fu bum mlynedd ynghynt wedi'i drefnu i ddarparu cartref ar gyfer Awdurdod Gwasanaethau Cyffredin Iechyd Cymru – cwango a ddiddymwyd yn sydyn gan John Redwood. Ond dim ots. I rai ohonom, yn enwedig y rheini sydd ag atgofion poenus o refferendwm datganoli 1979, yr oedd yr argoelion yn gadarnhaol.

Yn fwy ymarferol, fel yr ysgrifennodd Wordsworth yn y dyddiau cyn dadrithiad y chwyldro Ffrengig,

*"...the meek and lofty
Did both find, helpers to their heart's desire,
And stuff at hand, plastic as they could wish;
Were called upon to exercise their skill,
Not in Utopia, subterranean fields,
Or some secreted island, Heaven knows Where!
But in the very world, which is the world
Of all of us....."*

Wrth i ni nesáu at y mileniwm newydd, roedd popeth yn ymddangos yn bosibl. Roedd awydd pensaernïol yn y gwynt wedi'i gefnogi, rhaid cyfaddef, gan arian cyfalaf gan y loteri genedlaethol, ac felly, llif cyson o adeiladau cyhoeddus newydd ledled Cymru, yn enwedig yn y maes diwylliannol.

Surwyd y naws i raddau yn sgil y ffræ gyhoeddus rhwng cefnogwyr Stadiwm y Mileniwm a'r cynigion ar gyfer tŷ opera newydd yng Nghaerdydd. Arweiniodd at ddadlau mawr a chryn

dipyn o anniddigrwydd. Fe wnaeth Comisiwn y Mileniwm gefnogi'r stadiwm, a chladdwyd cynllun tŷ opera Zaha Hadid am resymau ariannol. Cynhaliwyd Cwpan Rygbi'r Byd yn y stadiwm a chwaraewyd y gêm gyntaf yno yn hydref 1999, ychydig fisoedd yn unig ar ôl agor y Cynulliad Cenedlaethol yr haf hwnnw. Erbyn hynny, roedd y gwaith paratoi ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru (y cynllun newydd a ddaeth yn lle cynllun Hadid) yn mynd rhagddo'n dda hefyd. Felly, mae'n debyg mai Caerdydd oedd yr unig ddinas yn y DU, y tu allan i Lundain, a gafodd dau brosiect mawr ar gyfer y Mileniwm.

Yn ystod hanner olaf y 1990au, gwelwyd rhestr hir o adeiladau diwylliannol newydd o fri pensaernïol yn cael eu datblygu, a daeth y rhain i fodolaeth yn ystod degawd cyntaf y mileniwm newydd: Tŷ Gwydr Mawr yr Ardd Fotaneg Genedlaethol (Foster and Partners, 2000); Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe (Wilkinson Eryre, 2005); Galeri yng Nghaernarfon (Penseiri Richard Murphy, 2005); Canolfan Grefft Rhuthun (Sergison Bates, 2008); adnewyddu Oriol Mostyn (Ellis Williams, 2010). Dyma'r datblygiadau mwyaf nodedig ymysg bron i 20 o brosiectau diwylliannol arwyddocaol ledled Cymru. Er bod rhai ohonynt cyn dyddiau'r Comisiwn Dylunio, roedd y drafodaeth o'u cwmpas yn darparu dadl sylweddol dros ddylunio da.

Fodd bynnag, roeddent hefyd yn cuddio darlun llawer llai bodlon mewn rhannau eraill o'r byd cyhoeddus. Roedd y ffaith hon yn arbennig o amlwg i Jonathan Adams, pensaer Canolfan Mileniwm Cymru. Yn ystod misoedd cyntaf bodolaeth y Cynulliad Cenedlaethol, roedd wedi darbwyllo'r Sefydliad Materion Cymreig i sefydlu gweithgor i gyflwyno'r achos dros sefydlu 'Comisiwn Cymru dros Bensaernïaeth a Dylunio'. Gwnaeth hynny gan wybod y byddai Sue Essex, y Gweinidog dros Gynllunio, yn Amgylchedd a Thrafnidiaeth, yn fodlon gwranddo.

Roedd y Sefydliad Materion Cymreig wedi cynnull gweithgor a oedd yn cynnwys Jonathan ei hun; yr Athro John Punter o Ysgol Cynllunio Dinesig a Rhanbarthol Prifysgol Caerdydd (Ysgol Daearyddiaeth erbyn hyn); Patrick Hannay, o Ysgol Gelf a Dylunio UWIC bryd hynny a golygydd brwd y cylchgrawn pensaernïol *Touchstone*; Bob Croydon, gweithiwr proffesiynol ym maes eiddo; a Carole-Anne

Davies, Cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Celfyddydau Bae Caerdydd ar y pryd ond a fyddai'n mynd ymlaen yn 2003 i fod yn Brif Weithredwr cyntaf Comisiwn Dylunio Cymru. Fi oedd cadeirydd y grŵp.

Roedd adroddiad y grŵp, *Dylunio Llwyddiant*, yn dangos holl optimistiaeth y cyfnod cynnar hwnnw: cred fod gennym, "ym maes y celfyddydau a diwylliant, efallai, y capasiti mwyaf ar gyfer hunanbenderfyniaeth a'r gallu mwyaf i sicrhau newid buddiol, heb alw'n afrealistig am lawer mwy o adnoddau; hefyd y gred fod "codi safon dylunio a phensaerniaeth yn elfen hanfodol o'n gallu i fod yn llwyddiannus yn y dyfodol ac o'n llwyddiant cymdeithasol ac economaidd fel cymdeithas." Roeddem yn credu "y dylai fod yn fater o hunan-barch i'r genhedlaeth hon, a'n parch ni at genedlaethau'r dyfodol, ein bod yn dymuno gweld y gorau'n cael ei warchod neu ei wella, a bod y gwaethaf yn cael ei sgubo ymaith neu ei wella, a bod ein goddefgarwch o'r di-nod yn cael ei roi o'r neilltu."

Roedd y grŵp hefyd yn ymwybodol o ba mor frau yw'r amgylchedd adeiledig yng Nghymru, gan gofio bod y mwyafrif ohonynt ar raddfa fechan. Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol am safon ddi-nod adeiladau newydd a dylunio amgylcheddol, yn enwedig yn rhannau tlotaf y DU, yn ogystal â goruchafiaeth elw byrdymor dros fuddiannau hirdymor. Dywedodd fod anwybodaeth am safonau dylunio uwch yn gwanhau'r feirniadaeth "fel bod y drwg yn dod yn dderbyniol, y cyffredin yn cael ei ystyried yn dda iawn, a bod rhywbeth sydd ychydig yn well na'r cyffredin yn cael ei ystyried yn rhagorol."

Roedd cynigion ymarferol yr adroddiad yn bwysicach na'r pregethu, pa mor bynnag gyfiawn oedd y bregeth honno. Roedd yn annog creu comisiwn dylunio amser llawn i ddatblygu polisi cenedlaethol, i gynghori ar arferion gorau ac i hyrwyddo'r arferion gorau hynny i'r ystod lawn o fuddiannau cyhoeddus a phreifat. Cyfeiriodd yr adroddiad hefyd at bolisi celfyddydol a diwylliannol newydd y Cynulliad, a oedd yn cael ei adolygu ar y pryd gan y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16. Roedd y cyd-destun diwylliannol ehangach hwn yn ysgogiad pellach, a rhoddodd Sue Essex ei sêl bendith gweinidogol i gynig y Sefydliad Materion Cymreig yn fuan wedyn. Erbyn 2002 roedd cwmni Comisiwn Dylunio Cymru (DCFW LTD) yn weithredol.

Roedd *Dylunio Llwyddiant* wedi ymwrthod â'r tentasiwn i awgrymu y dylai'r Comisiwn yng Nghymru fod yn is-gangen i'r Comisiwn ar Bensaerniaeth a'r Amgylchedd Adeiledig (CABE) a sefydlwyd gan Lywodraeth y DU yn 1999 yn lle'r



Comisiwn Brenhinol ar gyfer y Celfyddydau Cain. A da o beth oedd hynny, oherwydd yn 2010 cafodd CABE ei ddiddymu a chafodd craidd bychan o dîm ei staff ei lyncu gan y Cyngor Dylunio fel ffordd o arbed arian. P'un ai oedd yn annibynnol ai peidio, ni fyddai CABE fyth wedi gallu cael y dull manwl y mae gofynion bychain Cymru ei angen ac y mae ein Comisiwn Dylunio wedi'i gyflawni..

Efallai ei fod yn hen ystrydeb, ond ni allwn osgoi'r cwestiwn hollbresennol hwnnw, a yw wedi gwneud gwahaniaeth? O ystyried y byddai pethau wedi bod yn llawer gwaeth arnom heb y Comisiwn, fy ateb i'r cwestiwn hwnnw felly yw "ydy, mae wedi gwneud gwahaniaeth". Ni ddylid camgymryd hynny am ffug-ganmoliaeth, oherwydd bod yr hyn sy'n arwain at yr ateb hwnnw yn fwy i'w wneud â'r cyd-destun y mae'r Comisiwn yn gweithio ynddo, yn hytrach na'r modd mae'n cyflawni ei gylch gorchwyl - sydd wedi bod yn hynod o broffesiynol.

Wedi'r cyfan, mae amrywiaeth eang iawn o ddiddordebau a grymoedd yn effeithio ar ansawdd ein hamgylchedd adeiledig: datblygwyr preifat, adeiladwyr tai, hanfodion masnachol (heb ddrysu â blaenoriaethau masnachol), awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys ewyllys gwleidyddol a chapasiti proffesiynol), fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol, archwaeth a chwaeth y cyhoedd, a thueddiadau diwylliannol. Byddai'n afrealistig disgwyl i un sefydliad - sy'n gweithredu mor ryfeddol o ddarbodus - ddatrys yr holl ddiffygion cynllunio a dylunio sydd wedi nodweddu ein cymdeithas ers sawl genhedlaeth, fel petai gyda ffon hud. Ni all unrhyw un comisiwn dylunio newid yr hinsawdd economaidd y mae penseiri, datblygwyr ac awdurdodau lleol yn gweithredu ynddi. Mae'r hinsawdd honno wedi bod yn gwbl ddogymwynas, a dweud y lleiaf, am dri chwarter oes y Comisiwn, yn enwedig ers 2007-8.

O ystyried yr hinsawdd economaidd elyniaethus hirfaith hon, y cam cyntaf i'r Comisiwn oedd goroesi - ac roedd hynny'n dipyn o gamp. Mae'r

Mae Cymru yn wlad sy'n ymwybodol o'i hunaniaeth. Mae ei hanes wedi creu amgylchedd adeiledig sy'n pontio cenedlaethau a chanrifoedd lawer.

Comisiwn wedi bod yn lladmerydd angenrheidiol dros yr arferion gorau ac wedi bod yn hwb clir ac effeithiol i welliannau. Yn ail, mae hefyd wedi ysgogi cyfranogiad gwirfoddol gweithwyr dylunio proffesiynol yn y gwaith o adolygu dyluniadau a gwasanaethau cynghori cleientiaid. Drwy hynny, mae wedi annog proses o ddeialog adeiladol, hunan-archwilio proffesiynol a lledaenu arferion, yn hytrach na sefydlu ei hun mewn sefyllfa wrthwynebus o hyd. Efallai fod hynny wedi bod yn angenrheidiol mewn gwlad fach fel Cymru, heb lawer o adnoddau - gan weddu'n dda â'n diwylliant cydweithredol - ond mae hefyd wedi sicrhau cefnogaeth broffesiynol ehangach i nodau'r Comisiwn.

Adolygu dyluniadau yw'r gamp fawr ym mhrosesau'r Comisiwn. Mae'n cynrychioli'r gwaith caib a rhaw cyson y tu ôl i'r lleni o asesu ansawdd y cynigion ar gyfer adeiladau preifat a chyhoeddus, yn ogystal â chynigion eraill ar gyfer y maes cyhoeddus, adfywio gwledig a threfol, a seilwaith. Nid sioe hud a lledrith mohoni. Ni all drawsnewid pob cynllun gwael yn gynlluniau gwych, ond mae'n cynnig cyfle i negodi gwelliannau heb achosi embaras cyhoeddus. Mae'n wir bod rhai wedi cwestiynu a ddylid disodli'r broses gwbl wirfoddol hon ag elfen o orfodaeth - ffon yn hytrach nag abwyd. Pan ddaw rhywun wyneb yn wyneb â'r canlyniadau gwaethaf hyn yn ein trefi a'n dinasoedd, mae'n demtasiwn meddwl y byddai rhoi cyfarwyddyd yn ffordd well o weithio, ond ni fyddai hynny heb ei risg - sef risg y gellid creu cymaint o wrthdaro a allai ddymchwel y system gyfan. Mae'n well cynyddu capasiti'r Comisiwn a'i alluogi i ddefnyddio'r dull gwirfoddol yn ehangach.

Bu'r berthynas â llywodraeth leol yn un allweddol erioed - ac yn un astrus weithiau. Er bod y Comisiwn - drwy ei hyfforddiant, ei gynadleddau a'i seminarau - wedi cyflawni rôl ddatblygiadol ac addysgol bwysig gyda chynghorwyr etholedig

a swyddogion llywodraeth leol yn eu tro, mae'n afrealistig disgwyl y bydd rhannu arferion gorau yn rheolaidd, pa mor arbenigol a gwerthfawr bynnag y bo'r rheini, yn gwrthbwysu'n llwyr effeithiau'r glastwreiddio o ran sicrwydd a chynllunio creadigol o du pwysau masnachol, a phrinder adnoddau a sgiliau'r sector cyhoeddus. Mae effeithiau cymylu swyddogaethau adfywio, datblygu economaidd a chynllunio awdurdodau lleol, a'u hallbynnau, yn amrywio o awdurdod i awdurdod, a bydd hynny'n debygol o barhau. Mae angen ymgysylltu o fwy nag un ochr.

Fel yr awgrymir uchod, dros y degawdau diwethaf mae Cymru wedi gweld llif cyson o adeiladau newydd, yn adeiladau cyhoeddus a phreifat, ond staff y Comisiwn Dylunio fyddai'r cyntaf i nodi mai eu swyddogaeth yw nid yn unig dathlu trysorau unigol, ond hefyd, yn bwysicach na hynny, y dasg ehangach o annog ein hawdurdodau cyhoeddus a'n datblygwyr masnachol - sef adeiladwyr tai yn benodol - i greu lleoedd gwell, i wasanaethu anghenion trigolion yn well, ac i greu tir cyhoeddus sy'n gweithio'n swyddogaethol ond hefyd yn edrych yn ddymunol ac yn cyfleu'r synnwyr o fwynhad tawel, hyd yn oed pan nad ydynt yn mynegi hynny'n uniongyrchol..

Mae Cymru yn wlad sy'n ymwybodol o'i hunaniaeth. Mae ei hanes wedi creu amgylchedd adeiledig sy'n pontio cenedlaethau a chanrifoedd lawer. Yn anochel, mae ein pentrefi a threfi wedi ymgonni'n araf. Mae gwaddol y gorffennol yn cynnwys y da a'r drwg, ond mae gennym lawer o ddeddfwriaeth a phrosesau i amddiffyn y gorau o'r gorffennol, yn ogystal â gwella'r ddarpariaeth yn y dyfodol. Wedi dweud hynny, nid ydym wedi bod yn ddigon da fel cymdeithas am geisio sicrhau ansawdd mwy eang yn yr hyn a drosglwyddwn i genedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Comisiwn yn rhan o seilwaith polisi ehangach a chynyddol yng Nghymru, sy'n cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac un o adrannau Llywodraeth Cymru sydd â'r nod o annog dulliau cyfannol o ymdrin â'n hamgylchedd. Mae rheoleiddio ac ymgyrchu yn chwarae eu rhan mewn cyd-destun lle mae ymatebion y sector masnachol wedi bod mor amrywiol. Bydd gan asiantaethau cenhadol, fel y Comisiwn Dylunio, rôl bwysicach fyth i'w chwarae yn y blynyddoedd i ddod yn wyneb y pwysau sy'n bodoli yn sgil newid yn yr hinsawdd. Nid materion cosmetig yw'r rhain. Rhaid i ddylunio da fod yn rhan o'n hachubiaeth.

Cydnabyddiaethau

Cydnabyddiaethau Cymru a Llywodraeth Cymru

Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn hyrwyddo dylunio da ar draws pob sector, gan yrru ei weledigaeth ar gyfer creu lle gwell yng Nghymru. Rydym yn darparu Cymorth a Hyfforddiant i Gleientiaid, Gwasanaethau Adolygu Dyluniadau strategol wedi'u teilwra, a digwyddiadau, seminarau a chyhoeddiadau – llawer ohonynt yn tynnu sylw at faterion allweddol ar gyfer sicrhau ansawdd dylunio a gwerth cyhoeddus yn yr amgylchedd adeiledig ac yn cefnogi polisiau a chanllawiau cynllunio a dylunio cenedlaethol yng Nghymru.

Mae'r llyfr hwn yn datflu 20 mlynedd ers sefydlu Comisiwn Dylunio Cymru. Mae'n adlewyrchu amryw o safbwyntiau gan aelodau o'r tîm staff a chydweithwyr sydd wedi gweithio i ddylanwadu'n gadarnhaol ac eiriol dros ansawdd dylunio ac arferion datblygu gwell yng Nghymru ers 2002. Mae'n seiliedig ar eu profiad uniongyrchol o realiti arferion adfywio a datblygu yng Nghymru.

Cydnabyddiaethau Cymru

Cydnabyddiaeth a diolch:

Sefydlwyd Comisiwn Dylunio Cymru yn 2002 fel un o gynlluniau Llywodraeth Cymru, sef Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y pryd, yn dilyn argymhellion *Dylunio Llwyddiant*, sef adroddiad i'r Sefydliad Materion Cymreig ym Mehefin 2000. Dymunwn gydnabod a diolch i nifer fawr o Weinidogion, Dirprwy Weinidogion, Swyddogion, cydweithwyr a sefydliadau partner yr ydym wedi gweithio gyda hwy ers cymaint o flynyddoedd. Maent i gyd yn rhannu ein gweledigaeth ac yn gweithio ysgwydd-wrth-ysgwydd â ni i wireddu'r weledigaeth honno. Yn eu plith mae ein gweithwyr proffesiynol eithriadol yn y sectorau rhyngddisgyblaethol, preifat a chyhoeddus sy'n rhoi cymaint o'u hamser a'u harbenigedd yn wirfoddol i helpu i ddarparu ein gwasanaethau craidd.

Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion presennol a blaenorol y Senedd:

Julie James AS, y *Gweinidog Newid Hinsawdd*
Lee Waters AS, y *Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd*
Carl Sargeant AC
Lesley Griffiths AC
John Griffiths AC
Jane Davidson AC
Carwyn Jones AC
Sue Essex AC
Hannah Blethyn AC
Jocelyn Davies AC

Swyddogion Llywodraeth Cymru:
Neil Hemington, Jonathan Fudge, Gareth Hall, Max Hampton, Stuart Ingram, Jonni Tomos, Stuart Fitzgerald, Jenny Lewis, Richard Baker, Darren Hatton, Andrew Charles, Rosemary Thomas, Kay Powell, Lesley Punter.

Cydweithwyr a ffrindiau gwerthfawr:
Cadeirydd a Chomisiynwyr presennol Comisiwn Dylunio Cymru 2016 – heddiw:
Gayna Jones, Fiona Nixon, Jon James, Dr Mike Biddulph, Elinor Gray Williams, Ian Carter, Cora Kwiatkowski, Joanna Rees.

Tîm y staff:
Carole-Anne Davies, *Prif Weithredwr*
Sue Jones, *Rheolau Adnoddau a Chyllid*
Jen Heal, *Cynghorydd Dylunio*
Efa Lois Thomas, *Ymgynghorydd Lle*

Cyn-Gadeiryddion a Chomisiynwyr:
Yr Athro Richard Parnaby, *Cadeirydd 2003 – 2006*, Alan Francis, *Cadeirydd 2006 – 2016*
Eileen Adams, Gerry Donovan, Mark Hallett, Philip Jardine, Ewan Jones, Cathy McClean, Professor John Punter, Gerard Ryan, Trevor Skempton, Dr Rhys Williams, Patrick Wilson, Paul Vanner.

Chris Tudor, ein mentor llywodraethu.

Cyn-aelodau’r tîm staff:

Gill Boit, Charlie Deng, Elly Englefield, Cindy Harris,Anna Lermon, Wendy Maden, Wendy Richards, Peter Roberts, Amanda Spence.

Cydnabyddiaethau Cymru a Llywodraeth Cymru

Gwirfoddolwyr, cydweithwyr rhan amser a graddedigion:

Floriana Bundi, Jamie Donegan, Revti Halai (nee Kerai), Ellen Tullet, Joseph Seymour, James White.

Panel Adolygu Dylunio ac Ymgynghorwyr Arbenigol:
Jonathan Adams, *JA & Ptnrs*, *Percy Thomas Partnership*
Toby Adam, *Gaunt Francis Architects*
Maria Asenjo, *BDP, MACE*
Ashley Bateson, *Hoare Lea*
Jamie Brewster, *B3, Hassell*
Simon Carne, *Prifysgol Westminster*
Kedrick Davies, *Biofutures, CDN*

Barny Evans, *Turley*
Magda Fabisiak, *Jacobs*
Mark Hallett, *Igloo*
Jonathan Hines, *Architype*
Gareth Howell, *EDP*
Jun Huang, *Wei Huang & Ptnrs*
Chris Jefford, *Gaunt Francis Architects*
Ewan Jones, *Grimshaw*
Helen Kane, *Neuro by Design*
Michael Gwyther-Jones, *City of London Corp*
Martin Knight, *Knight Architects*
Alister Kratt, *LDA*
Cora Kwiatkowski, *Stride Treglown*
Andrew Linfoot, *Jacobs*
John Lloyd, *Sero*
Wendy Maden, *City of Bath*
Simon Power, *Mott Macdonald, Arup*
Phil Roberts, *Gwalia, Velindre NHS Trust*
Simon Richards, *Land Studio*
Elfed Roberts, *Pobl, Gwalia*
Craig Sheach, *PRP Architects*
Ben Sibert, *Arup*
Amanda Spence, *Alt Architecture*
Lynne Sullivan, *LS Studio*

Angela Williams, *A&DS*
Richard Woods, *Urban Fabric*
Steven Smith, *Urban Narrative, DEGW, Farrell*
Stephen Smith, *Dinas a Sir Abertawe*
Matt Thomas, *Vectos*
Jon Vernon-Smith, *Urban Design Box*
Clare Wilding, *Arup*
Neil Williamson, *NW Associates*
Jamie Yeoman, *Rio, Archesgobaeth Caerdydd*

Cyn-aelodau o’r Panel:
Roger Ayton, Ed Colgan, Nick Davies, Glen Dyke, Robert Firth, Edmund Green, Michael Griffiths, Nigel Hanson, Simon Hartley, David Harvey, Douglas Hogg, Geraint John, Christopher Jones, Richard Keogh, Mark Lawton, Kieren Morgan, Chris Owen, Lyn Owen, Anne-Marie Smale, Neil Taylor, Howard Wainwright, Yr Athro Richard Weston.

Cyn-eirolwyr ymarfer:
Keith Bright, Vicki Hurst, Chris Owen, Wayne Reynolds, Gareth Scourfield, Mike Simmons, Jerry Spencer, Dafydd Tomos, Leonie Wainwright.

Partneriaid:

Roisin Willmott a'i thîm, *Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru*
Elinor Weekley a'i thîm,
Cymdeithas Frenhinol Penseiri Cymru
Mary Wrenn a'i thîm blaenorol yng
Nghymdeithas Frenhinol Penseiri Cymru
Landscape Institute a Thîm,
Sefydliad Tirwedd Cymru
Partneriaeth Creu Lleoedd Cymru
Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru
Cymorth Cynllunio Cymru
Cadw
Cyfoeth Naturiol Cymru
Jim MacDonald a'r tîm,
Architecture & Design Scotland
Andy Haley a'r tîm, *Grŵp Cyngori'r Gweinidog Gogledd Iwerddon*
Minnie Moll, Cat Drew a'r tîm, *Design Council*
Richard Simmons, Jonathan Davis a chyn-
gydweithwyr a ffrindiau yn CABE
Chris Tudor

**Personau nodedig, cyfeillion beirniadol,
cydweithredwyr, cyd-deithwyr:**

Cyfranwyr Traethodau i'r llyfr hwn:

Julie James MS, Gayna Jones, Carole-Anne
Davies, Jen Heal, Wendy Maden, Craig Sheach,
Ewan Jones, Efa Lois Thomas, Stephen Smith,
Lynne Sullivan, David Anderson, Stephen
Anderson, David Clubb, Yr Athro Juliet Davis,
Yr Athro Wayne Forster, Geraint Talfan Davies

Aisha Ali, Jo Breckon, Dr Marga Munar Bauza,
Irena Bauman, Clive Campbell, Will Campbell,
Peter Clegg, Richard Collis, Rob Cowan,
Dr Robert Croydon, Biba Dow, Dolunay Dogahan,
Ruth Essex, Roger Evans, Graham Findlay,
Chris Gentle, Debbie Green, Patrick Hannay,
Kath Haddrell, Rhian Haf, Louise Harris, Sophie
Howe, Alun Jones, Chris Jones, Dr Matthew
Jones, Simon Jones, Chris Jofeh, Geraint John,
Jason Hyett, Robert Huxford, Dr Aseem Inam,
Bernadette Kinsella, Chris Loyn, Chithra Marsh,
Niall Maxwell, Paul McCarthy, Mhairi McVicar,
Rachel Moxey, Marie Brousseau-Navarro, Robin
Nicholson, Marcelle Newbold, Rebecca Phillips,
Gareth Potter, Emma M. Price, David Roberts,
Victoria Robinson, Rob Stephens, Tamsin Stirling,
Andrew Sutton, Beth Thomas, Rhian Thomas,
Rob Thompson, Professor Christopher Tweed,
Bob Wallbridge, Pierre Wassenaar, Nia Williams,
Owain Williams, Pete Williams.

Hoffem ddiolch o galon i bob un o'n cydweithwyr
a'n cyfeillion am eu hymrwymiad eithriadol,
haelioni eu hamser ac arbenigedd, i Weinidogion
a swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n rhannu ein
pwrpas, ac i lawer mwy rydym yn gweithio gyda
nhw bob dydd i hyrwyddo manteision dylunio
da a phwysigrwydd ein dylunwyr medrus o'u
disgyblaethau niferus – ein datrys wyr problemau
creadigol hanfodol.

Diolch yn fawr.



